Cynllun Natur y Bobl


# Cynllun Natur y Bobl

Adroddiad ar ganlyniadau Proses Ddemocratiaeth GYFLYM

Mawrth 2023



# Tabl cynnwys




## Crynodeb Gweithredol 4

## 01. Cyflwyniad

1.1 Cynllun Natur y Bobl a Chynulliad Natur y Bobl 8

1.2 Llywio'r adroddiad hwn 9

## 02. Y Sgwrs Genedlaethol

2.1 Casglu syniadau o bob cwr o'r DU 11

2.2 Themâu allweddol sydd wedi'u cario ymlaen i Gynulliad Natur y Bobl 12

## 03. Cynulliad Natur y Bobl

3.1 Pam defnyddio cynulliad dinasyddion i ddatblygu Cynllun Natur y Bobl? 15

3.2 Recriwtio a dethol ar gyfer Cynulliad Natur y Bobl 17

3.3 Y Grŵp Cynghori 17

3.4 Crynodeb o bedwar penwythnos Cynulliad Natur y Bobl 18

# 04. Galwadau i Weithredu


4.1 Fformat y Galwadau i Weithredu 20

4.2 Galwadau i Weithredu

Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth 23
Rheoleiddio a Gweithredu 26
Ffermio sy'n gyfeillgar i natur 30
Cynhyrchu a Defnyddio Bwyd 33
Amddiffynfeydd Morol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol 39
Rheoli Dyfrffyrdd a Dalgylchoedd 42
Mynediad Lleol at Natur 46
Defnyddio tystiolaeth yn effeithiol 49


# 05. Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol


5.1 Datganiadau Gweledigaeth 52

5.2 Themâu Trawsbynciol: Yr Awyrgylch yn yr Ystafell 55


# 06. Effaith Cynulliad Natur y Bobl


6.1 Gwerthusiad o broses Cynulliad y Bobl 57

6.2 Agwedd aelodau'r Cynulliad tuag at gymryd rhan yng Nghynllun Natur y Bobl 68

6.3 Effaith ar aelodau'r Cynulliad 71

6.4 Casgliad 78


## Atodiadau


Atodiad 1: Pwy gymerodd ran yn y Cynulliad? 79

Atodiad 2: Proses y Cynulliad 84

Atodiad 3: Y Grŵp Cynghori 87

Atodiad 4: Egwyddorion trafod 92

Atodiad 5: Galwadau i Weithredu mewn tablau cryno 93

Atodiad 6: Dadansoddi'r Sgwrs Genedlaethol 97

**Gwybodaeth am y cyllidwyr a'r partneriaid cyflawni** 98

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio creu Cynllun Natur y Bobl - sef canlyniadau uniongyrchol sgwrs gyhoeddus fwyaf y DU am ddyfodol Natur.

Mae **Cynllun Natur y Bobl** yn amlinellu gweledigaeth y cyhoedd ar gyfer dyfodol natur yn y DU, a'r camau y mae angen i bob un ohonom eu cymryd i ddiogelu natur a'i hadfer.

Datblygwyd Cynllun y Bobl trwy broses gyfranogol greadigol, arloesol a chynhwysol wedi'i rhannu yn ddau gam. Y cam cyntaf oedd galwad agored am syniadau a straeon gan y cyhoedd. Bwydodd hyn i'r ail gam, sef Cynulliad Natur y Bobl, lle bu 103 o aelodau Cynulliad yn trafod y cynnwys a'r argymhellion ar gyfer Cynllun y Bobl. Bydd Cynllun y Bobl nawr yn ysbrydoli sgwrs barhaus ehangach am DU natur bositif, yn ogystal â newid ymarferol o drafod i weithredu.

## CAM 1: Y SGWRS GENEDLAETHOL

Rhwng 30 Medi a 30 Hydref 2022, cyfrannodd aelodau o'r cyhoedd o bob rhan o bedair gwlad y DU bron 30,000 o ymatebion i alwad agored am syniadau a straeon. Gofynnwyd i bobl ymateb i dri chwestiwn:

- **Beth ydych chi'n ei garu am natur yn y DU? Beth fyddech chi'n ei golli pe bai'n diflannu?**
- **Dychmygwch ei bod yn y flwyddyn 2050 a bod natur yn y DU yn ffynnu. Beth sy'n wahanol i nawr?**
- **A ydych wedi gweld unrhyw enghreifftiau cyffrous o bobl yn y DU yn cydweithio i adfer a diogelu natur?**

Gwahoddwyd ymatebion trwy'r cyfryngau cymdeithasol a chawsant eu casglu ar wefan, yn ogystal â thrwy osodiadau rhyngweithiol mewn 74 lleoliad ar draws y pedair gwlad.

Nod y cam hwn oedd dechrau sgwrs a datblygu ymchwydd o ymgysylltu ac ymwybyddiaeth, yn ogystal â sicrhau y gallai'r Cynulliad adeiladu ar yr hyn roedd dinasyddion a chymunedau eisoes yn ei wneud.

## CAM 2: CYNULLIAD NATUR Y BOBL

Roedd Cynulliad Natur y Bobl yn gynulliad dinasyddion cryf a chreadigol.

- **103 o bobl yn cymryd rhan:** Dewiswyd aelodau'r cynulliad i gynrychioli trawstoriad o boblogaeth y DU, gyda chynrychiolaeth wedi'i phwysoli o bob grŵp oedran 16 oed a hŷn, lefelau addysg gwahanol, pobl yn byw mewn gwahanol dirweddau ledled y DU, pobl o wahanol gefndiroedd ethnig a phobl gyda lefel gwahanol o ymgysylltiad â natur.
- **36 awr o drafod:** Clywodd aelodau'r Cynulliad gan dystion arbenigol, gwnaethant adolygu'r syniadau a'r enghreifftiau a rannwyd yn y Sgwrs Genedlaethol, rhannu eu profiadau eu hunain, myfyrio ar wahanol farnau am ddyfodol natur a'r newidiadau sydd eu hangen, a chymryd rhan mewn trafodaethau wedi'u hwyluso, ac yna datblygu eu hargymhellion.
- **4 penwythnos:** Cyfarfu'r Cynulliad dros bedwar penwythnos, dau benwythnos wyneb yn wyneb yn Birmingham a dau ar-lein, rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023.
- **40 persbectif arbenigol:** Roedd yr adnoddau gwybodaeth yn cynnwys cyflwyniadau gan academyddion a thystion arbenigol, astudiaethau achos a thystebau, sesiynau holi ac ateb, rhyngweithiadau grŵp ac adnoddau eraill.
- **45 o ddyfyniadau a darluniau:** yn dal meddyliau a gweledigaethau'r rhai a gymerodd ran yng ngalwad agored y sgwrs genedlaethol.

- **18 o arbenigwyr yn rhan o Grŵp Cynghori annibynnol:** Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynwyd gan y cynulliad yn annibynnol, yn ddiduedd ac yn hygyrch, cafodd y grŵp cynghori eu dewis ar sail eu gwybodaeth am bynciau perthnasol, a'u profiad ohonynt. Roedd y pynciau yn cynnwys y diwydiant bwyd, ffermio, cadwraeth natur, iechyd, cyfranogiad, amrywiaeth a thegwch, ymgysylltu â'r gymuned a llywodraethu cenedlaethol ar draws pedwar gwlad y DU.

## CANLYNIADAU

Yn seiliedig ar hyn, cynhyrchodd aelodau'r Cynulliad:

- **26 o Alwadau i Weithredu:** wedi'u saernïo'n ofalus ar gyfer llywodraethau cenedlaethol, llywodraethau lleol, elusennau a chyrff anllywodraethol, unigolion a chymunedau
- **Datganiadau Gweledigaeth** ar gyfer dyfodol natur yn y DU.

Mae hyn yn ffurfio calon Cynllun Natur y Bobl, sy'n lasbrint ar gyfer penderfyniadau a gweithredu.

Yn anad dim, mae gwaith aelodau'r Cynulliad yn arddangos yr angerdd a'r grym sy'n bodoli ymhlith pobl y DU i weithio tuag at ddiogelu ac adfer natur.

> "...Roedd cael bod yn rhan o'r Cynulliad Natur yn ysbrydoledig - i deimlo'n rhan o'r darlun mwy, a gwneud gwahaniaeth wrth symud ymlaen."
> **— Aelod o'r Cynulliad**

## BETH OEDD EFFAITH Y CYNULLIAD?

Cafodd arolygon rheolaidd o wybodaeth, agweddau ac ymddygiad cysylltiedig â natur aelodau'r Cynulliad eu cynnal dros y pedwar penwythnos a'u cymharu â sampl rheoli o'r cyhoedd. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol y Cynulliad ar aelodau'r Cynulliad.

O'i gymharu â'r sampl rheoli, roedd cymryd rhan yn y Cynulliad yn cael effaith ar wybodaeth Aelodau'r Cynulliad o natur, eu barn am bwy ddylai fod yn rhan o ddiogelu ac adfer natur yn y DU, ac ar eu cyfranogiad eu hunain mewn gweithgareddau'n ymwneud â natur.

Dywedodd aelodau'r Cynulliad hefyd bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol ar y cyfan a'u bod yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn dangos bod y Cynulliad wir wedi ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau, gan wneud ei argymhellion yn gwbl adlewyrchol o'r ystod barn yn y DU heddiw.

Mae'r canlyniadau hefyd yn amlygu'r potensial i gefnogi aelodau'r Cynulliad i gael rhan fwy blaenllaw mewn gweithredoedd a gweithgareddau'n ymwneud â natur yn cynnwys eiriolaeth ac ymgyrchu.

Gosodwyd y llwyfan ar gyfer gwaith ymgyrchu ehangach a gellir gwerthuso rôl aelodau'r Cynulliad mewn hyn yn ystod y misoedd nesaf.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Mae Cynllun Natur y Bobl yn rhan o raglen uchelgeisiol i ddatblygu synnwyr o asiantaeth ar y cyd o amgylch y prosiect Wild Isles.

Mae'r prosiect Wild Isles yn bartneriaeth unigryw rhwng WWF, yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi'i ganoli o gwmpas cyfres deledu astudiaeth natur arloesol fydd yn cael ei darlledu yn gynnar yn 2023. Nod y prosiect yw ysbrydoli pobl yn y DU i werthfawrogi ac amddiffyn natur. Mae'r prosiect yn cynnwys rhaglen lawn o weithgareddau yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, galwadau i weithredu, ymgyrchoedd ac eiriolaeth.

Wrth i'r cyhoedd gael eu hysbrydoli gan y gyfres deledu a dod yn fwy ymwybodol o'r heriau mae natur yn eu hwynebu yn y DU, bydd Cynllun y Bobl yno i ddarparu ffordd glir ymlaen: arddangos achos diamheuol, annibynnol dros weithredu sy'n cael ei gyrru gan wleidyddiaeth, busnes a'r gymuned, yn seiliedig ar ewyllys y bobl.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn o'r Cynulliad a Chynllun y Bobl a ddeilliodd ohono. Mae'n darparu argymhellion wedi'u harwain gan ddinasyddion ar gyfer newid hanfodol a pharhaol a fydd yn arwain at weithredu trawsnewidiol ar gyfer natur.

## PARTNERIAID CYFLENWI

Mae tair elusen gadwraeth flaenllaw'r DU wedi dod at ei gilydd i ariannu creu Cynllun Natur y Bobl: WWF, yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dyluniodd New Citizenship Project fframwaith strategol trosfwaol ar gyfer y prosiect, yn cynnwys y Sgwrs Genedlaethol, Cynulliad Natur y Bobl, yn ogystal â'r gwaith parhaus i ehangu'r sgwrs a'i throi yn weithredoedd. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar broses o'r enw "Democratiaeth GYFLYM" (sy'n bwnc cyhoeddiad sydd ar y ffordd).

89UP oedd y prif bartner cyflenwi ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol a dadansoddwyd yr ymatebion gan New Citizenship Project.

Involve oedd y prif bartner cyflenwi ar gyfer Cynulliad Natur y Bobl.

Arweiniodd Sefydliad Sortition at recriwtio cyfranogwyr trwy loteri ddemocrataidd.

# Galwadau i Weithredu

Argymhellodd Cynulliad Natur y Bobl pob un o'r 26 Galwad i Weithredu fel y **gweithredoedd mwyaf brys a dylanwadol i'w cymryd nawr i gyflawni newid trawsnewidiol.**

Mae'r Galwadau i Weithredu wedi'u hysgrifennu gan aelodau'r Cynulliad ac maen nhw wedi'u darparu'n llawn yn Adran 4 o'r adroddiad hwn. Mae'r graffig isod yn cyflwyno syniadau allweddol pob Galwad i Weithredu, wedi'u grwpio yn ôl themâu eang a ddaeth i'r amlwg trwy drafodaethau'r Cynulliad.

Mae'r rhifau yn y bracedi wrth ymyl pob Galwad i Weithredu **yn dangos y nifer o aelodau Cynulliad oedd yn ystyried y Galwad i Weithredu ymhlith y "deg uchaf" o'r galwadau mwyaf brys a dylanwadol** wrth greu DU natur bositif.

**Rydym yn galw am**

### Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth

- Cynnwys ffordd i asesu'r effeithiau ar natur ym mhob penderfyniad masnachol a pholisi **(54)**
- Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymgyrchu sy'n gweithio dros natur **(29)**

### Rheoleiddio a Gweithredu

- Mwy o atebolrwydd gan y llywodraeth drwy Gynulliad Natur parhaol sy'n cynnwys cyrff anllywodraethol, diwydiant ac arbenigedd cyhoeddus **(51)**
- Arweinyddiaeth i asesu'r cyfaddawdu rhwng buddiannau cymdeithasol ac economaidd a diogelu natur, fel y gellir lliniaru effeithiau negyddol y newid i warchod natur **(42)**
- Amddiffyniadau rheoleiddio a gorfodi cryfach **(38)**
- Busnesau ddim i fod dan anfantais trwy weithredu i gefnogi adferiad natur **(27)**

### Ffermio sy'n gyfeillgar i natur

- Ailwampio systemau cymorthdaliadau ffermio i flaenoriaethu ffermio cynaliadwy a chyfeillgar i natur **(53)**
- Cymorthdaliadau ffermio sy'n seiliedig ar warchod natur **(31)**
- Ysbrydoli mwy o ffermwyr i weithredu dull busnes sy'n gyfeillgar i natur **(29)**

### Cynhyrchu a Defnyddio Bwyd

- Sgwrs genedlaethol am pam y dylem newid ein deiet i gefnogi natur, a sut i wneud hynny **(46)**
- Tryloywder am y ffynonellau bwyd rydym yn eu prynu, a'u heffaith ar natur **(41)**
- Cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a masnach i atal eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol **(39)**
- Masnachwyr bwyd i roi'r gorau i fod yn gyfrifol am wastraff bwyd **(32)**
- Mwy o fynediad at fwyd cynaliadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol **(28)**



**Rydym yn galw am**

### Amddiffynfeydd Morol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol

- Sicrhau stociau pysgod cynaliadwy trwy leihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota, rheoleiddio dosbarthiad a monitro o bell er mwyn gorfodi safonau **(25)**
- Sefydlu Parciau Cenedlaethol Morol **(22)**

### Mynediad Lleol at Natur

- Mannau gwyrdd wedi'u rheoli'n lleol sy'n cefnogi natur i ffynnu **(36)**
- Rhoi o leiaf 12% o faint pob seilwaith adeiladu newydd ac ôl-osodiadau i gefnogi bioamrywiaeth a chysylltu pobl â natur ar gyfer eu hiechyd a'u lles **(32)**
- Adnabod mynediad at natur fel hawl dynol **(19)**

### Rheoli Dyfrffyrdd a Dalgylchoedd

- Sefydlu fframwaith rheoli dŵr ledled y DU sy'n amddiffyn ac yn adfer iechyd ein dyfrffyrdd **(39)**
- Cydweithredu ar draws ardaloedd dalgylch afon i sicrhau gwelliannau sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur **(31)**
- Buddsoddiad ar frys mewn seilwaith dŵr gwastraff y DU i roi terfyn ar garthffosiaeth yn mynd i mewn i'n hamgylchedd naturiol **(25)**
- Newid sylfaenol i arferion ac agweddau ynghylch defnydd o ddŵr domestig **(22)**

### Defnyddio tystiolaeth yn effeithiol

- Gwybodaeth am gyflwr natur yn y DU i fod ar gael yn haws ac yn cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd **(45)**
- Sail dystiolaeth eglur a hygyrch wedi'i dilysu i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar natur **(37)**
- Mwy o ffocws ar adnewyddu wrth siarad â'r cyhoedd am ddyfodol natur **(28)**



# 01.
# Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno Cynllun Natur y Bobl a'r model democratiaeth GYFLYM sy'n ei gefnogi, ac yn disgrifio elfennau craidd y Sgwrs Genedlaethol a Chynulliad Natur y Bobl sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Mae'n egluro sut mae Cynllun Natur y Bobl wedi'i lywio gan ymgysylltu â'r cyhoedd effeithiol, a pham ei fod felly'n offeryn canolog ar gyfer ysgogi newid trawsffurfiol ar gyfer natur yn y DU.



## 1.1 Cefndir y Cynulliad

### CYNLLUN NATUR Y BOBL

Mae'r DU yn gartref i rai o'r rhywogaethau mwyaf anhygoel ar y Ddaear - o balod i forfilod, afancod a gloÿnnod byw. Ond mae ein gweithredoedd yn gwthio natur at ymyl y dibyn. Mae'r DU bellach yn y 10% isaf o wledydd yn fyd-eang o ran diogelu byd natur[1].

Dyna pam fo tair elusen gadwraeth flaenllaw'r DU, sef y RSPB, WWF a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi dod â phobl a chymunedau ynghyd i gyd-greu **Cynllun Natur y Bobl** i adfer ac adnewyddu natur y DU.

Mae datrys yr argyfwng natur yn her fawr, sy'n gofyn am ddatrysiadau newydd, beiddgar. Bydd newid ein hagwedd at natur yn y DU hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoedd gymryd rôl ganolog. Fel mater polisi, nid yn unig yw'r argyfwng natur yn fater brys, ond mae hefyd yn unigryw gynhwysol, yn yr ystyr ei fod yn cael effaith sylfaenol ar bawb waeth beth fo'u hoedran, ethnigrwydd, cefndir cymdeithasol, lefel addysg, diddordeb personol mewn cadwraeth, eu barn wleidyddol neu ddaearyddiaeth. Gan fod yr argyfwng natur yn cael effaith ar bawb, dylai pawb gael llais o ran sut rydym yn mynd ati i'w ddatrys.

I gyflawni hyn, crëwyd Cynllun y Bobl trwy ddefnyddio proses a elwir yn "Democratiaeth GYFLYM" Wedi'i ddatblygu gan New Citizenship Project a'i ysbrydoli gan y fframwaith CYFLYM ar gyfer gwneud penderfyniadau corfforaethol, mae Democratiaeth GYFLYM yn rhannu'r broses o wneud penderfyniad yn bump cam: *Barn, Argymell, Penderfynu, Cytuno a Chyflawni*

Mae'r strwythur hwn yn caniatáu i wahanol grwpiau i gymryd rhan mewn ffyrdd ystyrlon ar wahanol gamau, gan arwain at ganlyniadau sydd â dilysrwydd cyhoeddus gwirioneddol ac felly gellir disgwyl cefnogaeth a chyfranogiad eang wrth ei weithredu.

Mae Cynllun Natur y Bobl yn cynrychioli canlyniadau sydd hanner ffordd o'r broses hon, yn dilyn cwblhau'r camau *Barn* ac *Argymell*.

[1] Ffynhonnell: Mynegai Planed Byw, yr Amgueddfa Astudiaethau Natur

Roedd y cam Barn ar ffurf **Sgwrs Genedlaethol:** galwad agored am syniadau a straeon, a gafodd bron 30,000 o gyfraniadau mewn mis.

Cyfrannodd hynny at y cam Argymell, **Cynulliad Natur y Bobl,** a welodd 103 aelod o'r cyhoedd yn treulio cyfanswm o 36 awr yn gwrando ar dystiolaeth, yn trafod ac yn llunio eu hargymhellion: y 26 **Galwad i Weithredu** clir a chadarn sy'n ffurfio Cynllun Natur y Bobl.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r Galwadau i Weithredu sydd wrth galon Cynllun Natur y Bobl. Mae aelodau'r Cynulliad, sy'n gweithredu fel sampl gynrychioladol o'r boblogaeth genedlaethol, yn argymell y rhain fel y gweithredoedd mwyaf brys a dylanwadol i'w cymryd nawr i gyflawni newid trawsnewidiol. Maent yn cynrychioli cyfres gynhwysfawr o weithredoedd i'w cymryd gan lywodraethau cenedlaethol a lleol, cyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â chadwraeth, busnesau bwyd, dinasyddion a chymunedau.

Disgrifia'r adroddiad sut y cynlluniwyd y sgwrs fwyaf erioed am ddyfodol natur yn y DU, sut y cafodd ei chynnal, a sut mae'r holl rannau gwahanol wedi arwain at Gynllun y Bobl.

### DEFNYDDIO'R BROSES GYFLYM I YRRU NEWID I'R SYSTEM GYFAN

Mae'r broses GYFLYM o ddemocratiaeth gyfranogol yn seiliedig ar gynhwysiant ac arloesi. Mae'n rhoi cyfle i bawb ddylanwadu ar ddyfodol natur y DU, boed fel cyfranwyr at y Sgwrs Genedlaethol, fel aelodau o'r Cynulliad, neu yn ystod y camau diweddarach.

Roedd datblygiad Cynllun y Bobl yn cynnwys dulliau i gyfranogi ar-lein ac all-lein, casglu ystod eang o safbwyntiau, ac yn caniatáu ar gyfer holi manwl a safbwyntiau arbenigol. Mae felly yn darparu sylfaen gadarn i'r cyhoedd yn gyffredinol i nawr weithredu ar yr argymhellion.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae newid ein hagwedd at natur yn gofyn am ddull system gyfan. Gall y broses GYFLYM ddatrys anghytundebau rhwng gwahanol rannau o'r system (megis llywodraethau, busnesau a chymunedau) a chaniatáu i'r system gyfan symud. Yn wir, mae'r prosiect hwn yn dangos sut all pob rhan o'r system gamu i'r pŵer sydd ganddynt. Yn ogystal ag ysgogi gweithredu dros natur, mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at sgwrs ehangach am sut y dylid defnyddio a rhannu pŵer yn y DU. Mae hyn yn berthnasol iawn o ran natur ond gellir ei gymhwyso hefyd i heriau systemig cymhleth eraill y bydd y byd yn eu hwynebu yn yr 21ain ganrif.

Mae Cynllun y Bobl yn dangos achos annibynnol diwrthdro dros weithredu gan wleidyddion, busnesau a chymunedau, wedi'i seilio ar ewyllys y cyhoedd. Gall defnyddio Cynllun y Bobl trwy gydol 2023 a thu hwnt yrru'r holl gyfranogwyr trwy'r camau Penderfynu, Cytuno a Chyflawni, gan ddatgloi anghytundebau yn y system ac annog gweithredu trawsnewidiol dros natur.

## 1.2 Llywio'r adroddiad hwn

### SUT YR ADEILADODD Y BROSES TUAG AT Y GALWADAU I WEITHREDU

02.
**Y Sgwrs Genedlaethol: galwad agored am syniadau, gobeithion a straeon yn ymwneud â natur**

- **Dros 20,000** o gyflwyniadau ar-lein gan dros 7,000 o bobl o bedair gwlad y DU
- **8,000 o bobl** wedi ychwanegu dail at osodiad celf wedi'i ddylunio'n arbennig ar thema coeden mewn canolfannau celfyddydau
- **53** Coeden yn Lloegr, **11** Coeden yng Nghymru, pum coeden yn yr Alban a phum coeden yng Ngogledd Iwerddon

Yna, cyfrannodd y wybodaeth hon hyn at Gynulliad Natur y Bobl.

03.
**Cynulliad Natur y Bobl: cynulliad dinasyddion cryf a chreadigol.**

- **103 o bobl** yn cynrychioli trawstoriad o boblogaeth y DU
- **40 persbectif arbenigol**
- **4 penwythnos:** dau benwythnos ar-lein, dau wyneb yn wyneb yn Birmingham, ac amser i fyfyrio rhyngddynt
- **26 o Alwadau i Weithredu:** argymhellion i weithredu wedi'u saernïo'n ofalus ar gyfer llywodraethau cenedlaethol, llywodraethau lleol, elusennau a chyrff anllywodraethol, unigolion a chymunedau

Cynlluniwyd y Cynulliad i greu argymhellion craidd ar gyfer **Cynllun Natur y Bobl.** Mae'r Galwadau i Weithredu hyn i'w cael yn ADRAN PEDWAR o'r adroddiad hwn.

Mae ADRAN PUMP yn esbonio'r Datganiadau Gweledigaeth y cafodd eu creu gan aelodau'r Cynulliad.

Mae ADRAN CHWECH yn rhoi gwerthusiad cychwynnol o'r Cynulliad.



## SUT Y DADANSODDWYD Y WYBODAETH

Arweiniodd proses y Cynulliad at lawer iawn o ddata ansoddol. Cynhyrchwyd data amrwd trwy drafodaethau aelodau'r Cynulliad gydag arbenigwyr a'i gilydd, myfyrdodau unigol a gwaith grŵp, yn ogystal â dysgu a meddwl anffurfiol yn ystod egwylion. Cynhyrchodd y Sgwrs Genedlaethol hefyd dros 20,000 o ymatebion ar-lein, a gafodd eu codio yn ôl thema a'u dadansoddi cyn eu bwydo i'r Cynulliad mewn gwahanol ffyrdd.

Cofnodwyd trafodaethau pob bwrdd yn y Cynulliad ar siartiau troi a nodiadau Post-It. Darparwyd taflenni strwythuredig hefyd ar gyfer y Galwadau i Weithredu a'r Datganiadau Gweledigaeth.

Bu'r tîm Cynnwys yn clystyru themâu'r trafodaethau wrth i'r sesiynau penwythnos fynd rhagddynt, a chadarnhawyd y rhain gydag aelodau'r Cynulliad yn ystod camau olaf y broses.

Mae'r Galwadau i Weithredu a'r sylwadau eraill sydd wedi'u dyfynnu yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu geiriau aelodau'r Cynulliad. Mae tîm Cynnwys wedi symleiddio rhai Galwadau i Weithredu lle'r oedd gorgyffwrdd, ac wedi egluro synnwyr, sillafu a gramadeg lle bo'n berthnasol, ond fel arall nid ystyr wedi'u haileirio.



02.



# Y Sgwrs Genedlaethol

Mae'r adran hon yn disgrifio'r Sgwrs Genedlaethol a ddigwyddodd cyn Cynulliad Natur y Bobl.

## 2.1 Casglu syniadau, gobeithion a straen o bob cwr o'r DU

Mae'r argyfwng natur yn effeithio ar bawb, felly dylai pawb gael y cyfle i fod yn rhan o'r sgwrs ynghylch sut rydym yn amddiffyn natur. Dyna pam mae'r broses Cynllun Natur y bobl wedi mynd ati i drefnu'r sgyrsiau mwyaf erioed am natur yn y DU. Caniataodd hyn i Gynllun y Bobl adlewyrchu barn y cyhoedd yn gyffredinol trwy gasgliad eang o syniadau o bob cwr o'r DU, ochr yn ochr â thrafodaethau manwl y Cynulliad.

Rhoddodd y Sgwrs Genedlaethol gyfle i bobl ledled y wlad i rannu eu teimladau, eu huchelgeisiau a'u syniadau am ddyfodol natur, yn ogystal ag enghreifftiau o'r hyn mae pobl a chymunedau eisoes yn ei wneud i adfer ac amddiffyn natur. Roedd pobl yn gallu cyfrannu trwy wefan bwrpasol, ar y cyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb trwy osodiadau mewn 74 o ganolfannau celf, dau glwb pêl-droed a 26 o dai hanesyddol dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ledled y DU.

Wedi'i gydlynu gan yr asiantaeth gyfathrebu 89Up, cafodd y gwaith allgymorth ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol ei gynnal trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr RSPB, WWF a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal â thrwy hysbysebu y talwyd amdano a digwyddaidau wyneb yn wyneb dysgu drwy brofiad. Dadansoddwyd y wybodaeth ddilynol gan New Citizenship Project a'u bwydo i mewn i Gynllun Natur y Bobl.

**Y Sgwrs Genedlaethol: galwad agored am syniadau a straeon am natur**

- Dros 20,000 o gyflwyniadau ar-lein gan dros 7,000 o bobl o bedair gwlad y DU
- 8,000 o bobl wedi ychwanegu dail at osodiad celf wedi'i ddylunio'n arbennig ar thema coeden mewn canolfannau celfyddydau
- 53 Coeden yn Lloegr, 11 Coeden yng Nghymru, pum coeden yn yr Alban a phum coeden yng Ngogledd Iwerddon

Gofynnwyd tri chwestiwn i bobl:

1. **Beth ydych chi'n ei garu am natur yn y DU? A beth fyddech chi'n ei golli pe bai'n diflannu?**
2. **Dychmygwch ei bod yn y flwyddyn 2050 a bod natur yn y DU yn ffynnu. Beth sy'n wahanol i nawr?**
3. **A ydych wedi gweld unrhyw enghreifftiau cyffrous o bobl yn cydweithio i adfer a diogelu natur?**

Rhannwyd ymatebion ar wefan Cynllun Natur y Bobl, fel bod pobl yn gallu darllen yr hyn yr oedd pobl eraill wedi'i ysgrifennu, "hoffi" eu ffefrynnau a gadael sylwadau. Cafodd yr ymatebion hefyd eu plethu i mewn i broses drafod Cynulliad Natur y Bobl, yn cynnwys trwy arddangosfa noson agoriadol, wedi'i churadu gan New Citizenship Project, o 45 o ddarluniadau gan yr artist Graham Romeiu, yn dod â detholiad o ddyfyniadau'r bobl yn fyw. Gwnaeth hyn ysgogi a bywiogi trafodaethau aelodau'r Cynulliad trwy ddod â lleisiau pobl gyffredin i mewn i'r ystafell, ochr yn ochr â thystiolaeth yr arbenigwyr.

## 2.2 Themâu allweddol sydd wedi'u cario ymlaen i Gynulliad Natur y Bobl

Rhoddodd y Sgwrs Genedlaethol synnwyr cryf o pam fod natur yn bwysig i gymaint o bobl[2], yr hyn yr hoffant ei weld yn newid, a'r hyn sydd eisoes yn rhoi gobaith iddynt. Dadansoddwyd yr 20,000+ o ymatebion ar-lein gan New Citizenship Project i ddeall y themâu cyffredin.

### PAM FOD NATUR YN BWYSIG I BOBL?

Daeth dwy thema gref i'r amlwg o'r cwestiwn cyntaf:

- bod llawer o bobl yn profi natur fel rhywbeth sy'n cynnig **llawenydd, rhyfeddod a boddhad,**
- bod llawer o bobl yn gweld natur fel **ffynhonnell o iachâd.**



"Rwyf wrth fy modd â'r heddwch rwy'n ei deimlo pan fyddaf yn mynd am dro, wrth weld y tymhorau'n newid, a'r llawenydd o weld adar a bywyd gwyllt arall. Teimlo'n llawen wrth weld dyfrgi, eryr y môr neu walch y pysgod a'r llawenydd ar wyneb fy mhlant pan maen nhw'n eu gweld hefyd."



"I rai sy'n byw mewn ardaloedd trefol, mae'n rhoi mannau gwyrdd lle gallwch fwynhau'r tymhorau'n newid, i ddianc rhag y torfeydd, anadlu awyr iach, gwylio bywyd gwyllt yn ei gyfanrwydd ac ymarfer corff i ffwrdd o'r traffig... mae'r holl bethau hyn yn gwneud lles anferth i iechyd meddwl rhywun."

Roedd grŵp llai o'r ymatebwyr hefyd yn cysylltu natur â'u hymdeimlad o **ddiwylliant, treftadaeth a balchder lle.**



"Y synnwyr o berthyn i'r lle hwn lle rwy'n byw. Pentref gwledig yn Norfolk, fy mhlant yw'r 5ed cenhedlaeth o'r teulu i fyw yma. Wrth i mi gerdded ar hyd y ffyrdd cul a'r llwybrau ceffylau rwy'n teimlo cysylltiad emosiynol dwys â'r tir, y coed a'r gwrychoedd. Y coed derw hynafol sydd wedi gwylio dros y gymuned hon yn ystod yr amseroedd da a'r drwg. Dyma beth fyddwn yn ei golli."

[2] D.S Fel yr uchod, cynhaliwyd y gwaith allgymorth ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr RSPB, WWF a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal â hysbysebion y talwyd amdanynt a digwyddiadau dysgu drwy brofiad. Nid oedd yn seiliedig ar sampl gynrychiadol gytbwys o gyhoedd y DU.

# Y GWAHANIAETHAU MAE POBL AM EU GWELD

Pan ofynnwyd i bobl ddychmygu sut allai pethau fod yn wahanol yn 2050, daeth pum thema gyffredin i'r amlwg.

## #1 Mae natur yn rhan annatod o fywyd pob dydd

Yn 2050, mae pob un ohonom yn mwynhau profiadau mwy cadarnhaol a pherthynas agosaf â natur yn ein bywydau pob dydd. Rydym i gyd yn elwa ar well iechyd ac aer a dŵr glanach. Mae bywyd y teulu yn cael ei gynllunio o gwmpas fynediad at natur, mae cymunedau'n trefnu prosiectau i amddiffyn bywyd gwyllt lleol, ac mae dinasyddion yn ymwybodol o sut mae eu harferion bob dydd yn effeithio ar yr ecosystemau maen nhw'n dibynnu arnynt.

"Mae dinasoedd yn llawn ardaloedd naturiol. Mae'n gyffredin i weld anifeiliaid yn symud o gwmpas yn ddiogel mewn dinasoedd a threfi. Mae'r aer mewn dinasoedd yn lân. Ar ddiwrnod yn y swyddfa mae o leiaf pump o bryfed gwahanol yn ymlithro neu'n igam-ogamu drosoch chi."



## #2 Helaethrwydd a Bioamrywiaeth

Yn 2050, mae rhywogaethau brodorol a chynefinoedd wedi'u hadfer yn helaeth. Mae sŵn bywyd gwyllt yn atseinio trwy'r strydoedd, mae yna ardaloedd agored sy'n gyfoethog o ran natur i'w mwynhau, ac mae anifeiliaid yn gallu symud trwy eu cynefin yn ddiogel, heb ofn. Mae blodau gwyllt yn tyfu ym mhobman.


"Llai o fryniau moel a gorbori, mwy o goetiroedd, dolydd a mannau gwyrdd yn llawn bywyd gwyllt. Ein trefi a'n dinasoedd i gyd o dan fantell werdd, o'r strydoedd a choed ar eu hyd a'r toeau gwyrdd i barciau wedi'u cysylltu â llwybrau cerdded a beicio. Ardaloedd sylweddol wedi'u hamddiffyn ledled cefn gwlad, yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth, lle gallwn ni unwaith eto ddod o hyd i'n lle fel un rhywogaeth ymhlith llawer."



## #3 Adnoddau a Chynhyrchu

Yn 2050, mae'r ffordd rydym yn ffermio, pysgota, datblygu tir, adeiladu tai a chynhyrchu nwyddau ac ynni i gyd wedi newid i fod yn fwy cyfeillgar i natur ac yn garbon isel. Mae coridorau natur yn ffurfio rhwydwaith ledled y DU, gan alluogi bywyd gwyllt i symud yn rhydd. Mae paneli solar a thyrbinau gwynt wedi'u hintegreiddio yn yr amgylchedd adeiledig.

"100% ynni gwyrdd sy'n eiddo i'r llywodraeth. Melinau gwynt ym mhobman. Peiriannau tyrbinau tonnau. Ffermydd wedi'u dad-ddofi a chymunedau celf. Eco-adeiladu cynaliadwy yn creu pentrefi newydd. Dinasoedd gyda ffermydd hydroponig ym mhob seler a thoeau gwyrdd ym mhobman. Rhwydwaith o goridorau gwyrdd a chyllid i ddarparu mannau gwyrdd i gysylltu'r rhain hyd yn oed ymhellach. Pyllau ar bob stryd yn darparu systemau draenio, gwteri gyda blodau gwyllt ar hyd bob pafin, dail yn cael eu sgubo i bentyrrau compost ar bob cornel. Am lanastr bendigedig!!"



## #4 Ethos

Yn 2050, mae bodau dynol wedi cofleidio ethos o geisio cytgord â natur. Mae bodau dynol yn cael eu gweld fel rhan annatod o natur, nid yn rhywbeth ar wahân. Nid yw byd natur bellach yn cael ei weld fel adnodd economaidd i'w echdynnu, ond fel adnodd sy'n rhoi bywyd i'w werthfawrogi, ei drin, ei adnewyddu a'i warchod.

“Nid yw pobl yn ecsbloetio natur er mwyn gwneud elw. Rydym yn byw ochr yn ochr â natur, ac nid yn ceisio ei dominyddu — fel gwneud yn siŵr nad yw ein ffyrdd yn atal anifeiliaid rhag croesi, neu nad yw ein diwydiant yn llygru eu cynefinoedd.”



## #5 Polisi a Dylunio Economaidd

Yn 2050, mae ein systemau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol wedi'u trawsnewid ar y lefelau uchaf i leihau llygredd ac ymgorffori amddiffyn, adnewyddu a ffyniant byd natur. O ran llunio polisïau, mae natur bob amser yn rhan o drafodaethau. Nid yw ein heconomi bellach yn niweidio natur ac mae'n fwy crwn ac adfywiol.

“Creu senedd y bobl ar gyfer amddiffyn a gwella'r amgylchedd. Cynorthwyo pobl i rymuso a gwrthsefyll pwysau gan ddiwydiannau ar ein gwleidyddion sy'n erydu amddiffyniadau o'r fath. Deddfau troseddol llawer mwy sy'n dod ag atebolrwydd yn erbyn llygrwyr a busnesau sy'n torri safonau amgylcheddol.”



## BETH SYDD EISOES YN DIGWYDD?

Er mwyn dathlu a thynnu sylw at y gweithredu cadarnhaol sydd eisoes yn cael ei wneud, gofynnwyd i bobl hefyd rannu enghreifftiau maen nhw wedi'i weld o bobl yn cydweithio i adfer ac amddiffyn natur. Cafwyd dros 5,000 o awgrymiadau yn cwmpasu ystod eang o themâu, yn cynnwys prosiectau dan arweiniad dinasyddion a phrosiectau cymunedol lleol, mentrau gan fusnesau, elusennau a chyrff anllywodraethol, a chamau gweithredu a pholisïau llywodraethau lleol a chenedlaethol.

## SUT Y BWYDODD Y SGWRS GENEDLAETHOL I MEWN I GYNULLIAD NATUR Y BOBL

Cyfrannodd y themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ddau gwestiwn cyntaf at ddylunio'r Cynulliad a pha bynciau oedd yn cael eu darparu a'u harchwilio. Cawsant hefyd eu rhannu gydag aelodau'r Cynulliad trwy fideo byr, yn ogystal â'u dod yn fyw trwy arddangosfa ar y noson agoriadol o ddarluniau'n seiliedig ar ddyfyniadau pobl.

Er mwyn ysbrydoli'r Cynulliad gyda'r hyn mae pobl a chymunedau eisoes yn eu gwneud, cafodd enghreifftiau o'r trydydd cwestiwn eu casglu ynghyd ar ficrowefan breifat ar gyfer aelodau'r Cynulliad. Cafodd detholiad o'r enghreifftiau hefyd eu harddangos yn ystod penwythnos olaf y Cynulliad, i ysbrydoli a hysbysu aelodau'r Cynulliad wrth iddynt gyd-drafod a ffurfio eu Galwadau i Weithredu.

# 03. Cynulliad Natur y Bobl



Mae'r adran hon yn rhoi diffiniad cryno o gynulliad dinasyddion ac yn esbonio pam y defnyddiwyd y dull hwn i greu Cynllun Natur y Bobl. Mae'n rhoi amlinelliad o'r broses recriwtio a phroffil demograffig y rhai a gymerodd ran yn y Cynulliad. Mae'r pynciau a gafodd sylw yn ystod pob un o'r pedwar penwythnos yn cael eu crynhoi. Ceir rhagor o fanylion am yr holl agweddau hyn yn yr Atodiadau.

## 3.1 Pam defnyddio cynulliad dinasyddion i ddatblygu Cynllun Natur y Bobl?

Mae cynulliad dinasyddion yn ffurf gadarn ac arloesol o ddemocratiaeth gydgynghorol. Mae'n casglu ynghyd grŵp o bobl sy'n gynrychioliad bras o boblogaeth, ond sy'n debygol o fod yn wahanol i'w gilydd, i ddysgu am a chyd-drafod pwnc cyn gwneud argymhellion. Mae'r cyfranogwyr yn treulio amser sylweddol mewn amgylcheddau wedi'i hwyluso yn dysgu gan arbenigwyr a gan brofiadau bywyd ei gilydd.

Dylunnir cynulliadau dinasyddion yn ôl egwyddorion caeth. Mae defnyddio fformat cynulliad dinasyddion ar gyfer Cynulliad Natur y Bobl yn golygu bod y Galwadau i Weithredu sy'n cael eu hargymell yng Nghynllun Natur y Bobl yn hynod gyfreithlon. Mae'r egwyddorion yn cynnwys:

- **Loteri ddemocrataidd** Yn cael ei alw'n ddull bwrw coelbren (sortition), mae'r dull hwn yn galluogi proses deg, dryloyw, gynhwysol ac effeithiol drwy sicrhau samplu cynrychiadol a hapsamplu manwl gywir yn ystod y proses recriwtio. Dechreuwyd recriwtio pobl ar gyfer y cynulliad hwn trwy anfon 33,000 o wahoddiadau cyflwyniadol i bobl ledled y DU a ddewiswyd trwy sampl ar hap.
- **Grŵp cynrychiadol:** Unwaith y bydd pobl yn gwneud cais i gymryd rhan, defnyddir pwysoliad cynrychioladol ychwanegol i sicrhau amrywiaeth ymhlith cyfranogwyr. Pwysolwyd y cynulliad hwn i sicrhau cynrychioliad gan:

✓ Pob grŵp oedran o 16+

✓ Rhywedd

✓ Amrywiaeth o lefelau addysg

✓ Pedair gwlad y DU, ynghyd ag ardaloedd trefol a gwledig

✓ Pobl o wahanol gefndiroedd ethnig

✓ Lefelau gwahanol o ymgysylltu presennol â natur

- **Cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r cynulliad:** Mae hyn yn sicrhau y bydd ystod fwy o bobl yn gwneud cais i gymryd rhan ac yn cael gwared ar rwystrau economaidd a allai rwystro rhai pobl rhag cymryd rhan. Cafodd aelodau'r cynulliad hwn £800 am gymryd rhan yn y pedwar penwythnos.
- **Grŵp Cynghori Annibynnol:** Mae'r grŵp hwn yn rhoi safbwynt arbenigol diduedd ar y dystiolaeth ac yn sicrhau bod deunyddiau'n hygyrch. Yn achos y cynulliad hwn, adolygodd grŵp cynghori o 18 o bobl strwythur a chynnwys yr holl sesiynau i sicrhau eu bod yn cael cyflwyniad mor gynhwysfawr â phosib i'r pynciau yn y 36 awr a neilltuwyd ar gyfer cyd-drafod, a bod gwahanol safbwyntiau'n cael eu cynnwys. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau a lleisiau'n cael eu clywed yn ystod y broses.
- **Dod ag ystod enfawr o arbenigedd i'r pwnc:** Mae proses cynulliad dinasyddion yn sicrhau bod gan yr holl gyfranogwyr yr un wybodaeth sylfaenol a bod eu trafodaethau a'u hymgynghori yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn y cynulliad hwn, rhoddodd 40 o arbenigwyr gyflwyniadau eang a llawn gwybodaeth am faterion perthnasol o safbwyntiau lluosog. Rhannwyd y rhain trwy ficrowefan fel y gallai aelodau'r Cynulliad adolygu unrhyw dystiolaeth rhwng sesiynau. Roedd gan aelodau'r cynulliad hefyd fynediad at gronfa ddata fawr o enghreifftiau o brosiectau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y Sgwrs Genedlaethol.
- **Trafodaethau wedi'u hwyluso'n arbenigol a chymorth i gyfranogwyr:** Mae cynulliadau dinasyddion angen hwyluswyr hynod brofiadol sy'n gweithio i gynllun yn seiliedig ar arferion gorau ar gyfer gwaith grŵp. Rhaid datblygu argymhellion mewn modd amserol wrth sicrhau bod pob cyfranogwr yn gweld y digwyddiad yn hygyrch. Involve oedd yn hwyluso'r cynulliad hwn yn ogystal â darparu'r tîm cymorth, a gynigiodd cynefino arbenigol i'r cyfranogwyr, deunyddiau mewn gwahanol fformatau a chefnogaeth i fynd i ddigwyddiadau. Cynlluniwyd digwyddiadau'n ofalus i sicrhau bod profiadau a lleisiau gwahanol bobl yn cael eu hystyried yn gyfartal, a bod gwahaniaethau mewn grym a braint yn cael eu hystyried a'u gwrthbwyso, cyn belled â phosib.
- **Lle ac amser:** Mae ymgynghori eang yn ddull dyfnach a mwy grymusol na ffurfiau eraill o ymgynghori, gan ei fod yn rhoi amser i'r cyfranogwyr ddysgu am y materion a'u trafod yn fanwl cyn dod i safbwynt cytbwys. Cynhaliwyd y cynulliad hwn dros bedwar penwythnos, gyda'r sesiwn gyntaf a'r olaf yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Birmingham a'r ail a'r drydedd sesiwn yn cael eu cynnal ar-lein.

Mae'r Cynulliad yn honni ei fod yn adlewyrchu'r boblogaeth yn ystadegol ond nid yw'n arolwg na'n refferendwm mawr. Yn hytrach, mae'r argymhellion yn adlewyrchu cynrychioliad o'r farn gyhoeddus ehangach.

Pe bai'r cyhoedd ehangach yn cael y cyfle i ymgymryd â phroses debyg o ddysgu a thrafod, yn gallu cael mynediad at ystod amrywiol o brofiadau bywyd wedi'u curadu i'w defnyddio, ac yn cael eu hwyluso i archwilio tystiolaeth gan arbenigwyr lluosog, byddai eu casgliadau'n debygol o fod yn debyg i rai'r Cynulliad.



# 3.2 Recriwtio a dethol aelodau ar gyfer Cynulliad Natur y Bobl

*Mae manylion pellach am y broses dethol a recriwtio a phroffil demograffig llawn aelodau'r Cynulliad yn cael ei roi yn Atodiad 1.*

## RECRIWTIO A PHWYSOLI

Ar ddiwedd mis Medi 2022, anfonwyd 33,000 o wahoddiadau i gymryd rhan i aelwydydd ledled y DU. Dewiswyd yr aelwydydd ar hap o'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF), y gronfa ddata cyfeiriadau post mwyaf cyflawn a chyfoes yn y DU.

Mae profiad wedi dangos bod y dull hwn o recriwtio yn tueddu i ddenu mwy o fynegiadau o ddiddordeb gan bobl o gefndiroedd proffesiynol a gyda lefelau uwch o addysg. Er mwyn mynd i'r afael â hyn defnyddiwyd y Mynegai Amddifadedd Lluosog i adnabod ardaloedd cod post gyda lefelau uwch o amddifadedd ac yn ôl cyfran dewiswyd mwy o gyfeiriadau o'r ardaloedd hynny. Gwnaethpwyd dewis bwriadol yn y cyfnod recriwtio i or-recriwtio ychydig ar bobl oedd yn byw yn y gweinyddiaethau datganoledig, lleoliadau gwledig a grwpiau ethnig a dangynrychiolir yn draddodiadol. Roedd y llythyr gwahodd hefyd yn cynnwys cynnig o gydnabyddiaeth ariannol o £800 i sicrhau bod rhwystrau i fynediad yn cael eu chwalu ymlaen llaw.

Gwnaeth cyfanswm o 277 aelod o'r cyhoedd gais i fod yn rhan o'r Cynulliad. Roedd hon yn gyfradd ymateb is ar gyfartaledd nag a gyflawnir yn nodweddiadol gan y dull hwn, sef ychydig o dan 1%.

O'r gronfa o ymgeiswyr, cynhaliwyd ail hapsampl haenedig, yn cyfateb i'r data diweddaraf sydd ar gael ar chwe dimensiwn: oedran, rhyw, ethnigrwydd, daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol trefol/gwledig, a lefel y cytundeb â'r datganiad "Rwy'n teimlo rhan o natur".

## PROFFIL DEMOGRAFFIG Y CYNULLIAD

Ystyriwyd bod cyfansoddiad terfynol y Cynulliad **yn adlewyrchiad bras o'r targedau demograffig a osodwyd ar ddechrau'r broses recriwtio.**

Cymerodd cyfanswm o 103 o bobl ran trwy gydol y broes Cynulliad, yn cynrychioli croestoriad o boblogaeth y DU, wedi'i bwysoli i sicrhau cynrychioliad gan:

- **Bob grŵp oedran o 16+**
- **Rhywedd**
- **Amrywiaeth o lefelau addysg**
- **Pedair gwlad y DU, ynghyd ag ardaloedd trefol a gwledig**
- **Pobl o wahanol gefndiroedd ethnig**
- **Lefelau gwahanol o ymgysylltu presennol â natur**

Roedd gan y cynulliad cyfradd cadw uchel:

- **Ymgeisiodd 277 o bobl i fod yn rhan o'r Cynulliad**
- **Dewiswyd 110 o bobl i fod yn aelodau o'r Cynulliad**
- **Dechreuodd 107 aelod y broses Cynulliad**
- **Cwblhaodd 103 aelod y broses Cynulliad**

## CEFNOGI CYFRANOGWYR I GYMRYD RHAN

Er mwyn sicrhau bod yr aelodau Cynulliad a recriwtiwyd yn gallu cyfranogi yn y sesiynau ac yn debygol o wneud hynny, rhoddwyd gwybodaeth a chymorth ychwanegol i'r cyfranogwyr o ran gofal plant, gwestai neu ofynion dietegol, cymorth teithio, a chymorth digidol ar gyfer sesiynau ar-lein, gyda'r nod o sicrhau bod pawb yn teimlo bod ganddynt bopeth yr oedd ei angen arnynt i gymryd rhan.

Roedd yna hefyd ardal adnoddau a rennir ar-lein ar gael i aelodau'r Cynulliad lle gallant cael gafael ar adnoddau yn ymwneud â'r Cynulliad, yn cynnwys sleidiau a fideos o gyflwyniadau siaradwyr, cronfa ddata o wybodaeth o'r Sgwrs Genedlaethol, awgrymiadau defnyddiol ar gyfer telegynadledda, a gwybodaeth ehangach am newid yn yr hinsawdd a dirywiad natur.

# 3.3 Y Grŵp Cynghori

*Rhoddir gwybodaeth bellach am rôl ac aelodaeth y Grŵp Cynghori yn Atodiad 3.*

Er mwyn creu proses gadarn ac atebol i'r cynulliad dinasyddion, gwnaeth y Grŵp Cynghori a ddewiswyd yn ofalus ddarparu cyngor a chraffu, llywio'r sylfaen dystiolaeth a gwerthuso'r adnoddau a ddarparwyd i aelodau'r Cynulliad. Un o gyfrifoldebau allweddol y grŵp hwn oedd sicrhau bod aelodau'r Cynulliad yn cael gwybodaeth oedd yn ffeithiol gywir, yn gynhwysfawr ac yn ddiduedd.

Roedd y Grŵp Cynghori'n cynnwys dau arweinydd academaidd a gafodd eu dewis fel ymchwilwyr gwyddonol arbenigol, hynod gymwys, uchel eu parch ac annibynnol.

Dewiswyd aelodau eraill y Grŵp Cynghori yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad o bynciau perthnasol yn cynnwys y diwydiant bwyd, ffermio, cadwraeth natur, iechyd, cyfranogiad, amrywiaeth a thegwch, ymgysylltu cymunedol a llywodraethau cenedlaethol pedair gwlad y DU.

# 3.4 Crynodeb o'r pedwar penwythnos



*Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys y penwythnosau ar gael yn Atodiad 4.*

Cynhaliwyd Cynulliad Natur y Bobl dros bedwar penwythnos rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023. Mae'r tabl isod yn amlinellu cynnwys a themâu'r trafod a'r ymgynghori yn ystod pob penwythnos.

| | |
|---|---|
| **Penwythnos Un**<br><br>**Beth yw natur a pham bod angen ei hamddiffyn?**<br><br>Wyneb yn wyneb | Yn ystod y penwythnos cyntaf cyflwynwyd y cyfranogwyr i beth yw cynulliad dinasyddion, beth i'w ddisgwyl gan y pedwar penwythnos a beth fyddai'n digwydd gyda Chynllun Natur y Bobl oherwydd eu hymrwymiad i'r prosiect. Cyrhaeddodd aelodau'r Cynulliad ar y dydd Gwener i groeso, cyflwyniadau a swper grŵp, yn ogystal ag arddangosfa o ddarluniadau wedi'u hysbrydoli gan y Sgwrs Genedlaethol.<br><br>Ar y dydd Sadwrn, cafodd aelodau'r Cynulliad trosolwg o beth yw natur a pham ei fod yn bwysig.<br><br>Ar y dydd Sul, dysgodd aelodau'r Cynulliad am sut all meddwl hir dymor helpu i gyflwyno'r cysyniad o stiwardiaeth amgylcheddol, a chawsant drosolwg o ddatrysiadau presennol i'r argyfwng natur. Trafodwyd hefyd tegwch, cyfiawnder a thrawsnewid teg. |
| **Penwythnos Dau**<br><br>**Amddiffyn ac Adfer Natur**<br><br>Ar-lein | Galluogodd yr ail benwythnos i aelodau'r Cynulliad greu darlun o faint hanesyddol cynefinoedd a rhywogaethau'r DU, eu maint ar hyn o bryd a'u maint posibl yn y dyfodol, a sut mae'r rhain yn cydblethu â gweithgarwch dynol.<br><br>Gwnaethant ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyrru colli natur, pa fframweithiau amddiffyn sydd ar waith ar hyn o bryd a pha mor effeithiol ydyn nhw.<br><br>Ystyriodd aelodau'r Cynulliad effaith y twf mewn trefoli a'r datgysylltiad cysylltiedig oddi wrth natur, a sut y gellir mynd i'r afael a hyn trwy gynlluniau polisi a chynllunio. Gwnaethant hefyd archwilio "gwyddor y posibl" trwy glywed am brosiectau amddiffyn ac adfer llwyddiannus.<br><br>Ar ôl pob sesiwn dystiolaeth, rhannodd aelodau'r Cynulliad yn grwpiau llai i drafod gyda'r nod o gytuno ar ddau fewnwelediad neu gasgliad ynghylch yr hyn roeddynt yn teimlo oedd y materion mwyaf arwyddocaol i fynd i'r afael â nhw o fewn pob pwnc. |
| **Penwythnos Tri**<br><br>**Cynnal Pobl a Natur**<br><br>Ar-lein | Archwiliodd y trydydd penwythnos sut rydym yn defnyddio'r tir, dŵr croyw a'r môr i fodloni ein hanghenion sylfaenol, gyda ffocws arbennig ar gynhyrchu bwyd. Fel yn y penwythnos blaenorol, trafododd aelodau'r Cynulliad a phenderfynu ar y ddau fewnwelediad neu gasgliad pwysicaf yn dilyn pob sesiwn dystiolaeth.<br><br>Ar ddiwedd y penwythnos, ymgasglwyd tua 200 o gasgliadau o'r fath o'r sesiynau trafod yn 28 maes i gefnogi creu Galwadau i Weithredu yn ystod y penwythnos olaf. |
| **Penwythnos Pedwar**<br><br>**Gweledigaeth Aelodau'r Cynulliad a'r Galwadau i Weithredu Terfynol**<br><br>Wyneb yn wyneb | Ar ôl cyrraedd y lleoliad ar y nos Wener, adolygodd aelodau'r Cynulliad tasgau'r penwythnos yn ogystal ag edrych ar esiamplau ysbrydoledig o'r Sgwrs Genedlaethol. Yn ystod y penwythnos, fe wnaethant greu Galwadau i Weithredu yn defnyddio proses iterus (disgrifir yn Adran Pedwar o'r adroddiad hwn). Yn olaf, gwnaethant gasglu ynghyd eu gobeithion a'u dyheadau trwy greu Datganiadau Gweledigaeth ar gyfer dyfodol natur (disgrifir yn Adran Pump o'r adroddiad hwn). |

Datblygwyd y **Galwadau i Weithredu** gan aelodau'r Cynulliad trwy broses iterus dros yr holl benwythnosau.

**Penwythnosau 2 a 3**

Cafodd **meysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt ("pynciau")** eu nodi ar y cyd yn ystod Penwythnos 2 a 3, ar ôl i aelodau'r Cynulliad glywed tystiolaeth am y problemau mae natur yn y DU yn eu hwynebu ac enghreifftiau o waith i amddiffyn a diogelu natur ar gyfer y dyfodol.

Crynhowyd y rhain yn ddiweddarach gan y tîm hwyluso fel **naratifau** byr i fynegi craidd pob pwnc, i'w cyflwyno ym Mhenwythnos 4.

**Penwythnos 4 - dydd Sadwrn**

Dewisodd yr aelodau pa bwnc roeddynt eisiau gweithio arno. Ar gyfer pob un o'r 28 pwnc, gwnaethant **ddrafftio testun yn galw am y gweithredu** roeddynt yn teimlo y byddai ei angen i fynd i'r afael â'r heriau.

↓

Adolygodd yr aelodau y **26 testun Galwad i Weithredu drafft,** ychwanegu eglurhadau, cymorth a gwaith mireinio, ac yna ymgorffori'r newidiadu hyn yn ôl i'r testunau.

**Penwythnos 4 - dydd Sul**

Cafodd y Galwadau i Weithredu drafft eu **rhoi mewn themâu newydd a'u trefnu o dan benawdau** gan y tîm hwyluso. Cafodd y penawdau hyn, yn ogystal â syniadau ar gyfer themau trawsbynciol oedd yn crynhoi'r prif gasgliadau hyd yn hyn, eu gwirio a'u cadarnhau gyda'r aelodau.

↓

**Mireinio terfynol a blaenoriaethu'r 26 Galwad i Weithredu.**

Gofynnwyd i'r aelodau bleidleisio dros "y deg prif Alwad i Weithredu" roeddent yn credu byddai'n cael yr effaith **fwyaf wrth gyflawni eu gweledigaeth o DU lle mae natur yn cael ei hamddiffyn a'i hadnewyddu.**

Bu aelodau'r Cynulliad hefyd yn gweithio mewn grwpiau yn ystod Penwythnos 1 i feddwl am syniadau cychwynnol am sut fyddai'r DU yn edrych ac yn teimlo pe bai (a phan fyddai) natur yn cael ei hamddiffyn a'i hadfer. Yna cafodd y syniadau hyn eu clystyru'n thematig gan y tîm hwyluso, gyda'r clystyrau'n cael eu rhannu yn ystod y sesiwn olaf ar ddydd Sul Penwythnos 4. Yna gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad i greu datganiad o uchelgais yn tynnu ar eu mewnwelediadau gwreiddiol o Benwythnos 1 wrth integreiddio eu dysgu a myfyrio rhwng dechrau a diwedd y broses Cynulliad.





# 04. Galwadau i Weithredu

Mae'r adran hon yn amlinellu'r Galwadau i Weithredu, sef canlyniadau craidd y Cynulliad, ac yn egluro sut y cawsant eu datblygu.

## 4.1 Fformat y Galwadau i Weithredu

Mae pob Galwad i Weithredu yn dilyn strwythur yr 'ysgogiadau' a rhoddwyd i aelodau'r Cynulliad wrth eu drafftio nhw, sy'n sicrhau bod ganddynt fformat cyson:

**Er mwyn amddiffyn ac adnewyddu natur yn y DU, rydym yn galw am...**

- Fel bod...
- Oherwydd...
- I gyflawni hyn... (gyda dewis o bum cyfranogwr allweddol i ganolbwyntio arnynt)

**DATBLYGODD Y TRAFODAETHAU YNGHYLCH Y CYFRANOGWYR ALLWEDDOL WRTH I'R SESIYNAU FYND YN EU BLAEN**

Rhaid i greu newid trawsnewidiol ar gyfer natur gynnwys sawl math gwahanol o gyfranogwr. Ystyriodd aelodau'r Cynulliad rolau pum math o gyfranogwyr wrth greu newid: (1) llywodraethau cenedlaethol, (2) llywodraethau lleol, (3) busnesau bwyd, (4) elusennau a chyrff anllywodraethol, ac (5) unigolion a chymunedau. Yn ystod Penwythnos 1, clywsant ddisgrifiadau o rolau a chyfrifoldebau'r cyfranogwyr hyn, ac yna dychwelyd at y rhain trwy gydol y broses.

Wrth i'r sesiynau fynd yn eu blaen, daeth aelodau'r Cynulliad i gydnabod, er bod gan lywodraethau (boed yn genedlaethol, datganoledig neu leol) rywfaint o bŵer i ysgogi newid, eu bod yn aml yn cael eu cyfyngu gan brosesau etholiadol a deddfwriaethol, maent yn dueddol o wneud newidiadau ar gyfer y tymor canolig, ac maent yn aml yn gwrthdaro â lleisiau poblogaidd neu fuddiannau breintiedig eraill pan ddaw i faterion cymhleth. Yn y cyfamser, roedd busnesau, elusennau, a lleisiau cymunedol hefyd i'w gweld yn aml yn cael eu cyfyngu i weithredu ac yn ansicr o'u mandadau eu hunain i ysgogi newid.

Er bod aelodau'r Cynulliad wedi cael mwy o wybodaeth am gyfleoedd i weithredu gwahanol gyfranogwyr, ni allai'r Cynulliad ddarparu briff cynhwysfawr ar y manylion llawn ynghylch sut y gallai newid ddigwydd ar draws cyd-destunau amrywiol iawn fel defnydd tir, pysgota, bwyd, ffermio, gwarchod natur a meysydd perthnasol eraill ar draws y DU gyfan.

O ran creu Galwadau i Weithredu ar gyfer gwahanol gyfranogwyr ar draws y gwahanol faterion, teimlwyd bod gan rai cyfranogwyr fwy o le i weithredu nag eraill. Roedd aelodau'r Cynulliad hefyd yn pwysleisio'n aml y byddai sawl cyfranogwr yn gweithio gyda'i gilydd yn creu mwy o newid nag unrhyw un cyfranogwr ar ei ben ei hun.

Yn anad dim, mae aelodau'r Cynulliad yn cydnabod mai'r gweithredu ei hun sy'n bwysig, yn ogystal â'r egwyddorion sy'n sail iddo, a bod pob un ohonom yn gyfrifol am weithredu. Mae hyn yn golygu y dylai pob cyfranogwr ystyried sut y gallant gyfrannu at unrhyw un a phob un o'r Galwadau i Weithredu.

## Math o Gyfranogwyr:

Mae'r rhan fwyaf o'r Galwadau i Weithredu wedi'u cyfeirio at "Lywodraeth": hynny yw, y cyfranogwr sydd â'r grym mwyaf i ysgogi newid gwleidyddol a newid rheoliadol a deddfwriaethol ar y lefel berthnasol o wneud penderfyniadau. Mewn egwyddor, mae aelodau'r Cynulliad eisiau i'r llywodraeth weithredu ar bob lefel lle gellir gyrru newid yn ei flaen. Dylid cymryd bod "Llywodraethau Cenedlaethol" yn cyfeirio yn y cyd-destun hwn at unrhyw gorff cenedlaethol neu ddatganoledig a all ateb eu galwad a gwneud gwahaniaeth i'r mater y maent am gael sylw.

**Llywodraethau Cenedlaethol**

Ychydig o Alwadau i Weithredu sy'n cael eu cyfeirio'n benodol at lywodraeth leol. Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod bod gan lywodraethau lleol ledled y DU bwerau a chyfrifoldebau gwahanol, ac y gallai hynny wneud Galwadau i Weithredu i lywodraeth leol yn rhy benodol. Fodd bynnag, mae yna nifer o Alwadau i Weithredu lle mae gwybodaeth a gweithredu lleol a rhanbarthol yn bwysig. Yn yr un modd â llywodraeth genedlaethol a datganoledig, dylid cymryd bod "Llywodraeth Leol" yn golygu unrhyw gyfranogwr a all weithredu ar y mater ar y lefel benodol a nodir gan aelodau'r Cynulliad.

**Llywodraeth Leol**

Ystyriodd aelodau'r Cynulliad rôl busnesau bwyd, tra hefyd yn ychwanegu y gallai mathau eraill o fusnesau, o fewn a thu hwnt i'r gadwyn gyflenwi bwyd chwarae rhan mewn amddiffyn ac adnewyddu natur.

**Busnesau Bwyd**

Roedd aelodau'r Cynulliad yn gwerthfawrogi rôl elusennau a chyrff anllywodraethol ac yn ddiofyn yn tueddu i ystyried eu rôl ymgyrchu yn hytrach nag unrhyw gwmpas posibl arall ar gyfer gweithredu.

**Elusennau a Chyrff Anllywodraethol**

Roedd gan Aelodau'r Cynulliad llawer o ddiddordeb mewn rôl unigolion a chymunedau, yn enwedig mewn achosion lle gallai grwpiau gael eu cefnogi i weithredu gyda mathau eraill o gyfranogwyr.

**Unigolion a chymunedau**

Rhestrir manylion llawn y Galwadau i Weithredu isod. Mae pob Galwad i Weithredu wedi'i adolygu'n ofalus gan hwyluswyr Involve i sicrhau bod ystyr bwriadedig aelodau'r Cynulliad yn glir, ac wedi'i gyflwyno yng ngeiriau'r grŵp sydd wedi gweithio arnynt (gyda dim ond newidiadau bach er mwyn eglurhad lle bo angen).

Mae'r holl Alwadau i Weithredu'n cynnwys gwybodaeth gyd-destunol gan yr hwyluswyr, wedi'i chasglu o ddeunyddiau, trafodaethau a chanlyniadau'r Cynulliad  a arweiniodd at yr Alwad i Weithredu hwnnw - a hynny er mwyn rhoi mewnwelediad pellach i'r hyn a drafodwyd gan aelodau'r Cynullaid.



## YR HYN Y MAE AELODAU'R CYNULLIAD YN EI GREDU SY'N FATERION BRYS AC A ALLAI GAEL YR EFFAITH FWYAF

Rhoddwyd 10 'pleidlais' i bob aelod o'r Cynulliad i ddewis y Galwadau i Weithredu roedden nhw'n meddwl oedd y rhai â'r brys mwyaf a allai o bosib fod yn effeithiol wrth amddiffyn ac adfer natur.

Mae hyn yn rhoi mewnwelediad ychwanegol i'r Galwadau i Weithredu â'r brys mwyaf yn nhyb unigolion. Ond, ni ddylai ei ddehongli fel trefn bendant o flaenoriaeth, neu awgrymu bod y Galwadau i Weithredu sy'n is ar y rhestr yn llai pwysig. Roedd aelodau'r Cynulliad yn glir bod y 26 Galwad i Weithredu'n rhan o Gynllun Natur y Bobl.

Mae'r Galwadau i Weithredu'n cael eu cyflwyno'n llawn isod, yn nhrefn thema yn gyntaf ac yna'n ôl sawl aelod o'r Cynulliad oedd yn teimlo mai nhw oedd y rhai â'r brys mwyaf ac a allai o bosib gael yr effaith fwyaf.



# 4.2 Y Galwadau i Weithredu yn llawn

## Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth

### Pob penderfyniad masnachol a pholisi i ystyried yr effeithiau posib ar natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Sefydlu Undeb o sefydliadau dylanwadol (gan gynnwys arweinwyr mewn busnes, cymdeithas sifil a sefydliadau gwyddonol perthnasol) i sicrhau mandad ar gyfer cynnwys effaith ar natur wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.
>
> Dylent fesur a hysbysu cymdeithas am fanteision diriaethol ac anniriaethol cael natur yn rhan o drafodaethau, a'r gost o beidio â chynnwys natur mewn trafodaethau, fel nad ydym, fel egwyddor sylfaenol, yn gwneud mwy o niwed i natur; a'n bod gyda'n gilydd yn gosod targedau DU-gyfan a rhanbarthol i adnewyddu natur a chynyddu bioamrywiaeth, dan arweiniad arbenigwyr ecolegol.



**Mae angen hyn oherwydd...**

Rydym yn methu ar hyn o bryd. Mae angen i ni anadlu, bwyta ac yfed gyda natur fel partner ac i fyw'n well yn y dyfodol. I wneud hyn mae rhaid i natur fod yn rhan ganolog o wneud penderfyniadau.

**I gyflawni hyn...**

Mae gan **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** wahanol rannau i'w chwarae.

- Dylai Llywodraeth Cymru arddangos buddion ei Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Undeb o sefydliadau.
- Dylai Llywodraeth San Steffan wneud ymrwymiad trawsbleidiol i gyflwyno Deddf Llesiant ar gyfer y DU.
- Dylai pob llywodraeth ganolog a datganoledig ystyried sut i gynnwys dyfodol byd natur ym mhob polisi a phenderfyniad cenedlaethol a lleol.



**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Mae yna ddwy agwedd i'r Alwad i Weithredu yma. Yn gyntaf, roedd aelodau'r Cynulliad eisiau sicrhau bod sefydliadau'n cael eu gorchymyn mewn rhyw ffordd i ystyried yr effaith ar natur wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Galwad i Weithredu'n gofyn i sefydliadau ymrwymo i'r math hwn o asesiad effaith, a datblygu ffordd i ystyried yn fanwl cyfaddawdu o ran y risgiau a'r buddion i natur o wahanol benderfyniadau. Mae aelodau'r Cynulliad yn credu y bydd rhannu'r cyfrifoldeb yn helpu hyn i ddigwydd (oherwydd hynny "undeb o sefydliadau", gyda'r "Undeb" yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r Cynulliad i sicrhau ei fod yn cael ei gweld fel menter arwyddocaol).

Yn ail, mae aelodau'r Cynulliad eisiau helpu penderfynwyr i ystyried natur ym mhob penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i weithredu. Gall y cysyniad o 'gwneud dim drwg' helpu penderfynwyr i ystyried pa effaith y maent yn ei chael ac i roi camau lliniaru ar waith. Mae aelodau'r Cynulliad yn deall nad oes yna ar hyn o bryd unrhyw fecanwaith neu ddull amlwg ar gyfer modelu effeithiau ar natur y gall bobl droi ato i gael cyngor, arweiniad neu gefnogaeth pan maent yn darganfod effaith go iawn neu effaith bosib ar natur.

Byddai'r mecanwaith maent yn ei rhagweld yn caniatáu i arbenigwyr perthnasol ddarparu cyngor ac arweiniad ar y cyd i bob lefel o lywodraeth a chyfranogwyr eraill, yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar faterion ymarferol megis tendro a chaffael lle gellid cael effaith sylweddol. Teimla aelodau'r Cynulliad y dylai corff (neu gyrff, ar y lefel cywir o wneud penderfyniadau ar draws y gwledydd datganoledig) o'r fath fod yn niwtral, yn annibynnol o reolaeth wleidyddol, ac, fel y crybwyllir mewn Galwadau i Weithredu eraill, fod wedi'i seilio ar ymchwil a data.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**



- Dylai **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL, LLYWODRAETHAU LLEOL, BUSNESAU BWYD** ac **ELUSENNAU / CYRFF ANLLYWODRAETHOL** adeiladu 'Asesiad Effaith ar Natur' [fel Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb] i'w prosesau tendro a chaffael, gyda sgoriau'n cael eu dyrannu ar sail pa mor dda y mae natur yn cael ei gwerthfawrogi a'i diogelu gan yr ymgeisydd.
- Dylai bod gan **FUSNESAU BWYD** (a phob busnes) Gyfarwyddwr Natur ar eu Bwrdd gyda chyfrifoldeb am fonitro ac adrodd ar hyn.



# Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymgyrchu sy'n gweithio dros natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Mwy o gydweithredu [rhwng ymgyrchwyr] a fframwaith [agenda a rennir] sy'n darparu arweinyddiaeth ac yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfathrebu a chydlynu rhwng cyfranogwyr allweddol (elusennau, llywodraeth, prifysgolion, diwydiant a chymunedau) i gydweithio gyda phwrpas a gweledigaeth gyffredin ar gyfer natur.



**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae'n ymddangos bod yna risg o broblemau os yw llawer o sefydliadau'n canolbwyntio ar un agwedd yn unig o amddiffyn ac adfer natur. Bydd mwy o gydweithio'n cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer natur.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** arwain ar gytuno ar lwybr ar y cyd i ddiogelu natur y gallant i gyd gyfrannu ato, gan eu bod yn sefydliadau dibynadwy gyda chefnogaeth helaeth ar lawr gwlad a chyrhaeddiad i gymunedau.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Gallai **LLYWODRAETH LEOL** gynorthwyo i feithrin cyd-drefnu ar lawr gwlad mewn ardaloedd lleol, yn cynnwys creu cyfarwyddiaduron lleol o bartneriaid a phrosiectau.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Mae grym mewn gwybodaeth a gall cyfuno arbenigedd roi mwy o gyfeiriad a dylanwad. Y casgliad amlwg o waith y grŵp hwn oedd cadarnhad cadarnhaol o botensial cydweithredu.

Mae'r weithred hon yn mynd i'r afael â'r mater dyrys o gydweithio. Cydnabuwyd ei fod yn gallu bod yn anodd iawn i'w gyflawni, ond mae hefyd yn angenrheidiol os ydym am wneud gwahaniaeth i natur. Mae rhesymau dros gydweithio'n cynnwys mwy o effeithiolrwydd, llai o wastraff a sicrhau nad yw un grŵp yn cael effaith niweidiol ar waith grŵp arall.

Roedd rhannu gwybodaeth ac adnoddau'n cael ei weld fel syniad da yn ei rinwedd ei hun, yn ogystal â bod yn ffordd i greu synnwyr o fod yn rhan o rywbeth mwy a mwy dylanwadol.

Roedd y grŵp yn cydnabod efallai na fyddai agendau sefydliadau'n alinio wrth gydweithio, yn ogystal â'r mater o atebolrwydd. Mae yna hefyd y cwestiwn ymarferol o sut mae grwpiau'n blaenoriaethu pa waith i ganolbwyntio arno. Rhaid rhoi sylw i'r prosesau o gydweithredu sy'n galluogi cydweithio effeithiol.

# Rheoleiddio a Gweithredu

## Mwy o atebolrwydd gan y llywodraeth drwy Gynulliad Natur parhaol sy'n cynnwys cyrff anllywodraethol, diwydiant ac arbenigedd cyhoeddus

GALWAD I WEITHREDU
**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Cynulliad Natur [corff rheoleiddio] newydd parhaol ledled y DU yn cynnwys cynrychiolwyr penodedig o gyrff anllywodraethol, diwydiant a'r cyhoedd. Byddai eu rôl yn cynnwys craffu, herio a dwyn i gyfrif arweinyddiaeth a gweithredu gan y llywodraeth sy'n effeithio ar natur.

### Mae angen hyn oherwydd...

Nid yw ein systemau presennol yn blaenoriaethu natur ac yn atal ei dirywiad. Bydd y corff newydd hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu ar frys ledled y DU ac yn galw am arweinyddiaeth gyfrifol.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymgorffori'r Cynulliad Natur fel corff rheoleiddio parhaol. Angen i ddangos arweinyddiaeth drawsbleidiol a chymryd safiad tymor hir ar amddiffyn ac adfer natur trwy roi adnoddau digonol i'r Cynulliad hwn a chyflwyno gwybodaeth dryloyw iddo, yn ogystal â gweithredu ar ei argymhellion.
- Dylai **LLYWODRAETH LEOL** sicrhau bod anghenion a safbwyntiau lleol yn cael eu cynrychioli.
- Mae'r holl gyfranogwyr hefyd yn ysgwyddo peth cyfrifoldeb am gefnogi a chyfrannu at y Cynulliad, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd (**UNIGOLION A CHYMUNEDAU**).

### Cyd-destun o amgylch y drafodaeth

Roedd aelodau'r Cynulliad yn holi'n gyson pam nad yw'r amddiffyniadau presennol yn gweithio i wrthdroi neu arafu'r tuedd o golli natur yn y DU. Daethant i'r casgliad y dylai fod yn rôl y llywodraeth genedlaethol, fel arweinydd deddfwriaeth a pholisi popeth sy'n effeithio ar natur, i sefyll i fyny a gwneud yr hyn sydd ei angen.

Mae'r Galwad i Weithredu yn disgrifio un Cynulliad Natur drwy'r DU gyfan gyda chynrychiolaeth o "ar draws cymdeithas". Fodd bynnag, roedd aelodau'r Cynulliad hefyd eisiau sicrhau bod anghenion a safbwyntiau lleol a rhanbarthol wrth wraidd hyn, felly efallai y bydd cynulliadau rhanbarthol neu ddatganoledig hefyd yn rhan o ysbryd eu Galwad i Weithredu.

Roedd aelodau'r Cynulliad yn teimlo, bod penderfynwyr yn rhy aml yn cael eu harwain ar gyfeiliorn, eu llesteirio, a'u hatal rhag gwneud yr hyn sy'n iawn gan ddiddordebau personol, gwleidydda, agwedd tymor byr a ffocws ar flaenoriaethau sy'n aml yn gwrthdaro ag amddiffyn natur.

Nid yw aelodau'r Cynulliad yn gofyn i lywodraethau cenedlaethol i fod yn gyfrifol am bob gweithgaredd, ond maent yn gofyn bod pob llywodraeth yn gwneud ei gwaith o ran deddfwriaeth a pholisi. I gyflawni hyn, maent yn teimlo bod angen ffocws ar atebolrwydd. Maent yn cynnig y bydd hyn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar wleidyddion i wneud penderfyniadau anodd y maent yn teimlo sy'n cael eu hosgoi neu eu gwthio i'r neilltu ar hyn o bryd.

Gallai atebolrwydd fod ar ffurf corff cynrychioladol yn cynnwys yr holl randdeiliaid sydd wedi buddsoddi yn iechyd natur, yn gweithredu ar ran bob un ohonom. Byddai ei rôl yn glir: dwyn y llywodraeth i gyfrif ar amddiffyn ac adfer natur.

## Arweinyddiaeth i asesu'r cyfaddawdu rhwng buddiannau cymdeithasol ac economaidd a diogelu natur, fel y gellir lliniaru effeithiau negyddol y newid i warchod natur



GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Adnabod corff ar frys i gymryd cyfrifoldeb am gydbwyso buddiannau cymdeithasol ac economaidd wrth wneud penderfyniadau am amddiffyn ac adfer natur.
>
> Dylai hyn gynnwys nodi'n onest [y rhannau hynny o gymdeithas a'r economi] a fydd "ar eu colled", fel bod cynlluniau cydlynol yn gallu cael eu creu i liniaru'r costau hyn i'r rhanddeiliaid sydd mwyaf dan anfantais.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Er bod angen i natur fod yn rhan o benderfyniadau, mae hefyd angen amddiffyn buddiannau a bywoliaeth pobl. Dim ond wedyn y bydd Cynllun y Bobl yn cael ei dderbyn gan bawb.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** nodi neu sefydlu cyrff perthnasol, ar y lefel gwneud penderfyniadau cywir, i archwilio goblygiadau canolbwyntio ar adfer natur ac i wneud argymhellion i sicrhau bod rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn gallu trosglwyddo mewn ffyrdd teg a fforddiadwy.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Yn y Galwad Hwn i Weithredu, roedd aelodau'r Cynulliad yn canolbwyntio ar y mater o degwch a'r angen am drawsnewid cyfiawn pan fydd mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud i amddiffyn natur. Gwnaethant bwysleisio bod natur yn rhan hanfodol o'n bywydau bob dydd, o'r aer a anadlwn, i'r dŵr a yfwn a'r bwyd a fwytwn. Mae gwneud penderfyniadau sy'n gwahanu natur oddi wrth bobl yn arwain at waeth canlyniadau i'r ddau.

Awgrymodd rhai na all penderfyniadau "flaenoriaethu natur". Yr ateb yw dod o hyd i ffyrdd o alluogi datrysiadau cadarnhaol yn y rhyngweithio agos rhwng natur ac agweddau eraill ar fywyd, fel economeg a lles. Rhaid i atebion gyflawni canlyniadau lluosog a gwella'r synergeddau rhwng gwahanol ddiddordebau.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** fod yn glir ynghylch costau gwneud newidiadau i arferion sy'n fwy cyfeillgar i natur a gallu pasio rhai o'r rhain ymlaen i ddefnyddwyr.
- Gall **Cyrff Anllywodraethol** a'r gymuned ymchwil ddarparu tystiolaeth ar ddatrysiadau a sut i reoli cyfaddawdu.
- Gall **LLYWODRAETH LEOL** ymgysylltu trwy ystyried unrhyw ganfyddiadau a'u rhoi ar waith yn lleol.

Roedd yna ymdeimlad y byddai rhai ar eu colled (yn enwedig yn y diwydiannau ffermio a physgota) pan ddaw'n fater o gymryd camau sylweddol i warchod ac adfer byd natur, a bod yn rhaid cydnabod hyn a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt. Fel arall, bydd y trawsnewid yn rhy anodd iddyn nhw. Roedd rhai o aelodau'r Cynulliad yn awyddus iawn i nodi os na fyddwn yn hwyluso'r trawsnewid i'r rhai sydd ar eu colled, y gallai hynny fod yn ddigon i atal rhaglen gyfan o weithgarwch natur bositif.

## Amddiffyniadau rheoleiddio a gorfodi cryfach

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Deddfwriaeth a dynodiadau sydd eisoes yn bodoli i amddiffyn natur i gael eu gorfodi'n fwy cadarn a chyflwyno deddfwriaeth a thargedau mwy uchelgeisiol i ddangos bod natur yn cael ei werthfawrogi.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Rhaid i unigolion, sefydliadau a busnesau gael eu hatal rhag niweidio natur a'u cosbi os ydynt yn torri'r rheolau.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** flaenoriaethu natur trwy roi cyllid ac adnoddau digonol i asiantaethau rheoleiddiol (rhanbarthol, cenedlaethol, lleol) ac asiantaethau amddiffyn natur ac ystyried y cysyniad o "trosedd yn erbyn natur" (ychydig fel "trosedd yn erbyn dynoliaeth") yn cael ei gyflwyno i gyfraith, gyda chosb uchel am droseddau difrifol. Gall llywodraethau datganoledig, rhanbarthol a lleol edrych ar bolisïau a chosbau lleol ar gyfer y troseddau hyn.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** fod yn wybodus am sut mae asedau natur yn eu hardal yn cael eu hamddiffyn [yn arbennig safleoedd gwarchod dynodedig], cymryd cyfrifoldeb personol am eu gweithredoedd eu hunain o fewn y lleoedd hyn a chael eu grymuso i weithredu ar ddifrod i natur lle maent yn byw.
- Gall **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** weithio gydag awdurdodau a darparu swyddogaeth craffu.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Ystyriodd aelodau'r Cynulliad y rhesymau pam nad yw busnesau (yn gyffredinol) yn rhoi sylw digonol i amddiffyn natur. Daethant i'r casgliad mai'r rheswm am hyn yn y bôn yw oherwydd nad yw hi'n broffidiol i fusnesau wneud hynny, ac nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny gan ddeddfwriaeth ychwaith. Felly, mae angen cymhellion ac anghymhellion mwy cynhwysfawr. Mae cosbi ymddygiad annymunol yn mynd law yn llaw gyda chymell busnesau i wneud y peth iawn.

Roedd aelodau'r cynulliad yn awyddus i fynegi y dylai cosbau fod yn briodol i bob lefel lleol a rhanbarthol, ac y dylid cael dolenni adborth rhanbarthol a lleol yn hytrach na deddfwriaeth generig sy'n aneffeithiol.

Gellir gofyn i bob sector busnes wneud ei gyfraniad ei hun, o yswiriant i adeiladu tai i weithgynhyrchu. Agwedd bwysig arall yw tryloywder gweithredoedd cwmnïau. Gellir rhoi pwysau moesol a chyhoeddus ar gwmnïau trwy gyhoeddi eu perfformiad mewn amddiffyn natur. Yna gall penawdau cadarnhaol o berfformiad da ddod yn ased farchnata.



# Busnesau i werthfawrogi gweithredoedd i gefnogi adfer natur, a chael eu galluogi i greu gwerth ohonynt

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Norm newydd y gall busnesau werthfawrogi, a chael eu galluogi i greu gwerth, trwy warchod natur. Rydym yn galw am adrodd cliriach ar weithgareddau a chostau [gweithredu i ddiogelu natur], gostyngiadau treth ar gyfer ymchwil a datblygu sy'n gyfeillgar i natur a thablau cynghrair o fusnesau sy'n gyfeillgar i fyd natur

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni dorri'r cylch o flaenoriaethu elw dros natur a busnes yw'r asiant pwysicaf ar gyfer y newid hwn.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** rannu enghreifftiau o arfer da o ran bod yn gyfeillgar i natur, wrth ddal i weithredu'n broffidiol, i arwain trwy esiampl.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** ddarparu cymhellion i fusnesau drosglwyddo i arferion sy'n gyfeillgar i natur trwy gymorthdaliadau, grantiau neu seibiannau treth ar y lefel gywir o wneud penderfyniadau, gyda llywodraeth ganolog yn datganoli pŵer lle bo angen. Gall hyn gynnwys opsiynau megis nodau barcud natur. Gallai llywodraethau gyhoeddi data ar sut mae cwmnïau'n gweithredu o ran natur.
- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** newid eu patrymau defnyddio i gefnogi busnesau sy'n gyfeillgar i natur, hyd yn oed os yw'r costau iddyn NHW eu hunain yn uwch.
- Mae angen i **ELUSENNAU / CYRFF ANLLYWODRAETHOL** sy'n gweithio yn y sector natur neilltuo ymchwilwyr i weithio gyda busnesau i'w helpu i ddeall, monitro a lleihau eu heffeithiau.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Mae'r Galwad i Weithredu hwn yn ymwneud â datgloi potensial busnes i fod yn ysgogydd newid er mwyn diogelu ac adnewyddu byd natur.

Gwnaeth y potensial i fusnesau weithredu i amddiffyn byd natur greu argraff ar aelodau'r Cynulliad. Maent hefyd yn deall bod elw'n ffactor ysgogol allweddol.

Dylai busnesau gael eu gwobrwyo am wneud y peth iawn o safbwynt defnyddwyr a llywodraethau, a'u cosbi am weithredoedd sy'n dinistrio natur. Fel defnyddwyr, gallwn i gyd ddewis gweithredu'n gadarnhaol tuag at gwmnïau sy'n gwneud y peth iawn ac osgoi'r rhai sy'n achosi niwed. Gall llywodraethau hefyd gymell ac anghymell gweithredoedd busnesau.

Roedd aelodau'r Cynulliad am fynegi bod gan natur fwy na gwerth ariannol: hyd yn oed os telir cosb drom am niweidio natur, mae'r niwed wedi'i wneud o hyd. Buont yn archwilio ffyrdd newydd o ariannu gweithgareddau gwarchod natur, megis clustnodi arian a godir drwy gosbi busnesau.

# Ffermio sy'n gyfeillgar i natur

## Ailwampio systemau cymorthdaliadau ffermio i flaenoriaethu ffermio cynaliadwy a chyfeillgar i natur



GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Ailwampio'r trefniadau cymhorthdal presennol i roi cymhellion i ffermwyr sy'n ffermio'n gynaliadwy ac sy'n ymrwymo i ddad-ddofi tir nad yw'n gynhyrchiol, a chosbi'r rhai sy'n niweidio'r amgylchedd drwy beidio â ffermio'n gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys darparu cymorth, gwybodaeth a hyfforddiant gan gymheiriaid mewn dulliau newydd ac ecogyfeillgar trwy fwrsariaethau, lleoliadau, mynediad at ganfyddiadau ymchwil a buddsoddiad yn natblygiad technoleg newydd i wella arferion ffermio.
>
> Dylid darparu cymorthdaliadau ar gyfraddau gwahanol ar gyfer tir cynhyrchiol ac anghynhyrchiol a roddir ar gyfer dad-ddofi a gwella bioamrywiaeth a chyfyngu ar arferion ffermio dwys i ddiogelu ansawdd y pridd a'r dŵr.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni ddiddyfnu ffermwyr yn raddol oddi ar arferion nad ydynt yn gyfeillgar i'r amgylchedd, drwy roi cymhellion i'r rhai sydd am 'wneud y peth iawn'. Cefnogi allbwn bwyd uchel/effaith amgylcheddol isel yw un o'r defnyddiau gorau o gymorthdaliadau.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Mae aelodau'r Cynulliad yn deall bod ffermwyr yn elfen hollbwysig wrth alluogi newid i gynhyrchu bwyd sy'n gyfeillgar i natur. Maent hefyd yn deall bod arferion ffermio yn cael eu harwain i raddau helaeth gan economeg, sy'n golygu bod yn rhaid i ffermwyr gael eu cefnogi'n ariannol ac yn dechnegol er mwyn i unrhyw newid ddigwydd.

Mae aelodau'r Cynulliad eisiau strwythur cymhelliant sy'n ei gwneud yn broffidiol i wneud y peth iawn wrth barhau i gynhyrchu bwyd o'r tir, ochr yn ochr â chosbau i'r rhai sy'n niweidio byd natur. Maent yn gweld angen am syniadau newydd ac arloesedd mewn arferion ffermio a mabwysiadu technolegau newydd, sy'n golygu annog cenhedlaeth newydd o ffermwyr i fod yn rhan o'r ateb.

Roeddynt hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid ystyried gwahaniaethau mewn tirweddau a ffermio ledled y wlad, sy'n golygu bod llywodraethau datganoledig yn gyfranogwyr allweddol.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** addasu cymorthdaliadau fel y gallant wneud tri pheth ar unwaith: cynyddu cynhyrchiant bwyd, tynnu tir allan o ffermio ac i fyd natur, a lleihau effeithiau amgylcheddol. Mae angen i lywodraethau ystyried hyblygrwydd rhanbarthol wrth reoli a dosbarthu grantiau, rydym am weld pedair gwlad y DU yn cydweithio â'i gilydd a chyda llywodraethau lleol, gan ddatganoli pŵer a chyllidebau gan mai'r ardaloedd lleol sy'n adnabod eu hunain orau.
- Gall **BUSNESAU BWYD** annog y newid hwn drwy integreiddio egwyddorion Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur yn eu gweithrediadau a gallant helpu i ledaenu gwybodaeth am ddulliau ecogyfeillgar.
- Gall **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** helpu i wneud ymchwil i arferion gorau a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ffermwyr.

# Cymorthdaliadau ffermio sy'n seiliedig ar warchod natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Ymrwymiad trawsbleidiol hirdymor i sicrhau bod diogelu natur yn flaenoriaeth ar gyfer arferion ffermio yn y dyfodol ledled y DU. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid darparu cymorthdaliadau sy'n seiliedig ar warchod natur i ffermwyr i'w helpu drwy'r cyfnod pontio hwn a chymell arferion ffermio sy'n cefnogi gwarchod natur a chynhyrchu bwyd lleol.

### Mae angen hyn oherwydd...

Rhaid blaenoriaethu hawliau natur i gyd-fyw gyda ffermio wrth ddatblygu polisïau amaethyddol. Rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi mewn ymchwil ac ymgynghori ag arbenigwyr ar sut y gallwn gyrraedd cydbwysedd rhwng diogelwch bwyd a diogelu natur.

### I gyflawni hyn...

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** sicrhau bod polisïau a chymorthdaliadau i'r diwydiant amaethyddol yn galw am lai o gynhyrchion bwyd wedi'u mewnforio a chynyddu faint o fwyd a gynhyrchir yn lleol sy'n cael ei dyfu/ei fagu mewn ffyrdd sy'n gyfeillgar i natur.

### Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...

- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** ymrwymo i ffermio sy'n gyfeillgar i natur yn mynd law yn llaw â newid deiet, fel arall bydd hyn yn cynyddu effaith y DU ar newid yn yr hinsawdd ac effeithiau natur dramor. I gyd-fynd â'r newid hwn mae angen i bobl yn y DU addasu eu deiet i fwyta llai o gig os ydynt am werthfawrogi natur.
- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** fod yn barod i leihau faint o dir ar draws y DU a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd er mwyn rhoi lle i natur i ailsefydlu ei le.

### Cyd-destun o amgylch y drafodaeth

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod bod ffermwyr yn gwneud penderfyniadau yn ôl cymelliadau polisi ac economaidd. Hyd yn hyn, mae'r cymelliadau hyn wedi rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu bwyd dros unrhyw ystyriaeth arall, gydag effaith ddilynol ar natur, gan gynnwys iechyd y pridd a'r dŵr. Er y cydnabuwyd y bu newid yn y pwyslais tuag at ystyriaethau amgylcheddol mewn ffermio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roeddynt yn teimlo bod hyn yn dal yn llawer rhy ychydig ac yn rhy araf.

Daeth aelodau'r Cynulliad i'r casgliad mai'r her yw grymuso ffermwyr i wneud y peth iawn. Roeddynt yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith na fyddai polisiau newydd yn llwyddo oni bai eu bod yn gweithio i ffermwyr a natur. Nid oeddynt yn gyfarwyddol ynghylch yr union atebion, ond teimlant y dylai polisïau gynnig digon o sefydlogrwydd i annog pontio teg i wahanol ffyrdd o weithio.

Cydnabuwyd bod ffermio sy'n gyfeillgar i natur yn golygu cyfaddawdu, gydag iechyd pridd gwell o bosibl yn dod ar draul llai o gnydau ac incwm i ffermwyr. Gyda hynny mewn golwg, roedd aelodau'r Cynulliad eisiau i fywyd fod yn haws i ffermwyr. Mae hyn yn golygu gweithio gyda nhw a rhanddeiliaid eraill, er enghraifft archfarchnadoedd, trwy newid y bwydydd a gynigir i ddefnyddwyr.



## Ysbrydoli mwy o ffermwyr i weithredu dull busnes sy'n gyfeillagr i natur



GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Gwell cyfathrebu rhwng ffermwyr, a'r cyrff sy'n eu cynrychioli, i sicrhau bod ffermio cynaliadwy a chyfeillgar i natur yn cael ei hybu. Rydym eisiau mwy o ffyrdd, a gwell ffyrdd, o rannu gwybodaeth, profiad ac arfer da, yn rhanbarthol yn ogystal ag yn genedlaethol er mwyn adlewyrchu anghenion lleol ac ymgorffori mewnbwn gan wyddonwyr ac arbenigwyr.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni weithredu nawr i wyrdroi cyflymder brawychus y dirywiad mewn natur a bioamrywiaeth. Mae angen i ffermwyr allu rhannu gwybodaeth (gan fod ffermwyr yn cael eu hysbrydoli orau gan ffermwyr eraill). Bydd hyn yn arwain at arferion ffermio sy'n cefnogi natur, er enghraifft trwy wella iechyd y pridd ac afonydd.

**I gyflawni hyn...**



- Dylai **BUSNESAU BWYD** ddatblygu system achredu fewnol sy'n gwobrwyo ffermio cynaliadwy.
- Dylid cael Cynulliad Ffermwyr dros Natur i nodi hyrwyddwyr a'u cefnogi (drwy gyllid cymrodoriaeth) i ysbrydoli a chynghori ffermwyr eraill.
- Rhaid lobïo a pherswadio'r NFU i arwain y diwydiant mewn ffordd fwy cynaliadwy sy'n cefnogi bioamrywiaeth a natur. Gallai **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** gefnogi hyn trwy helpu i rannu gwybodaeth a threfnu cynlluniau gwobrwyo ar gyfer ffermwyr llwyddiannus.
- Gall **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** ddarparu cymhellion a chynorthwyo drwy leihau biwrocratiaeth ynghylch grantiau a chymorthdaliadau a thrwy dynhau deddfwriaeth i atal arfer gwael.
- Gall **LLYWODRAETH LEOL** gyflwyno rheolau a phrosiectau lleol i annog marchnadoedd ffermwyr, rhannu gwybodaeth yn lleol a hyrwyddo arfer da lleol.
- Gall **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** gefnogi fel defnyddwyr.

**Cyd-destun ar gyfer trafodaeth**

Trafododd aelodau'r Cynulliad ysgogwyr arferion ffermio anghynaliadwy, gan gynnwys cymhellion presennol sy'n fiwrocratig ac yn aneffeithlon i ffermwyr, ac roeddynt yn cydnabod bod llawer o rwystrau i ffermio sy'n gyfeillgar i natur. Mae angen cymhellion ar ffermwyr i newid, a rhaid iddynt hefyd lywio eu ffordd heibio i sefydliadau â diddordebau gwahanol, gan gynnwys busnesau mawr, y diwydiant prosesu bwyd, agendâu gwleidyddol a phobl eraill sy'n gwrthwynebu newid.

Os gellir recriwtio ffermwyr, yna mae'r potensial ar gyfer effaith yn enfawr. Gallem fwyta'n well ac yn iachach a mwynhau mwy o fwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Byddai yna chwarae teg i ffermwyr bach yn erbyn y cynhyrchwyr mawr a'r cwmnïau bwyd.

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod y rhan y mae ffermwyr eisoes yn ei chwarae yn ein diogelwch bwyd, a pha mor dda y mae ffermwyr yn adnabod ac yn caru'r tir y maent yn ei ffermio. Roeddynt yn sylweddoli bod gwybodaeth am ffermio sy'n gyfeillgar i natur eisoes yn bodoli, ond bod angen ei ddatgloi a'i rannu â mwy o ffermwyr er mwyn galluogi newid. Roeddynt yn teimlo mai colegau amaethyddol, sefydliadau ffermio a ffermwyr eu hunain, yn ogystal â chyrff anllywodraethol cefnogol, sy'n gyfrifol am y rhannu gwybodaeth hwn.

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod na ddylid disgwyl i ffermwyr wneud y newid hwn ar eu pen eu hunain, ond y dylent gael eu cefnogi gan lywodraethau, defnyddwyr a dosbarthwyr bwyd fel archfarchnadoedd.

# Cynhyrchu a Defnyddio Bwyd

## Sgwrs genedlaethol am pam y dylem newid ein deiet i gefnogi natur, a sut i wneud hynny

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Sgwrs genedlaethol ledled y DU i archwilio, cynghori ac annog ar y newid i'n deiet a sut i wneud hynny. Byddai hyn yn addysgu pobl am effaith ein bwyd a'n dewisiadau bwyd ar natur a'n hiechyd. Y nod fyddai i'r mwyafrif o bobl newid eu deiet er gwell a byddem yn anelu at leihau bwyta cig, cynnyrch llaeth a physgod o leiaf 25% erbyn 2030.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni gynyddu bioamrywiaeth a diogelwch bwyd trwy greu lle ar gyfer natur a rhyddhau tir ar gyfer cynhyrchu bwyd llai dwys. Mae angen i ni symud oddi wrth dyfu bwyd ar gyfer anifeiliaid i dyfu bwyd ar gyfer bodau dynol. Dengys ymchwil ei bod yn iachach ac yn creu llai o effaith ar y GIG.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** greu tasglu cenedlaethol i arwain sgwrs genedlaethol. Dylent wneud hyn fel menter drawsbleidiol. Ei chylch gwaith fyddai dod â negeseuon cyson ar draws pob cyfranogwr ac ailgysylltu pobl gyda bwyd a deiet.
- Ymgorffori'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Fwyd Genedlaethol (yn Lloegr) ac ymrwymiadau tebyg y gweinyddiaethau datganoledig (e.e. Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban)) a chefnogi'r gymuned ymchwil i ddarparu tystiolaeth gadarn ar effaith deiet ar yr amgylchedd ac iechyd.
- Cefnogi ffermwyr yn ariannol i hwyluso newidiadau i'r hyn maent yn eu tyfu a'u cynhyrchu i'r newid deiet hwn e.e. taliadau gwledig, ELMS os oes angen/lle bo angen.





**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Gall **LLYWODRAETH LEOL** anelu at gyfyngu ar allfeydd bwyd nad ydynt yn iach, newid y bwyd sydd ar gael mewn ysgolion ac ysbytai h.y. trwy gaffael ac arwain mentrau addysgu/ail-addysgu yn eu hardal.
- Dylai **BUSNESAU BWYD** labelu bwyd o safbwynt yr effaith amgylcheddol a helpu'r cyhoedd i newid eu harferion coginio trwy gynnig dewisiadau amgen o ran ryseitiau a chynhyrchion e.e. defnyddio ffacbys yn lle cyw iâr. Gallant recriwtio pobl enwog i gefnogi'r sgwrs/ymgyrch.
- Gall **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** gymryd rhan yn y sgwrs a gweithredu ar ôl dysgu sut i baratoi bwyd gyda chynhwysion gwahanol.

### Cyd-destun o amgylch y drafodaeth

Mae'r Galwad i Weithredu hwn yn ymwneud â'r effaith mae ein deiet presennol yn ei gael ar natur. Archwiliodd aelodau'r Cynulliad effaith ein deiet presennol a'r hyn y byddai'n ei olygu i wneud ein deiet yn fwy cyfeillgar i natur. Gan gydnabod graddfa'r ymgymeriad hwn, bu'r aelodau'n ystyried rhai o'r materion cysylltiedig yn cynnwys lles anifeiliaid, amnewid bwyd wedi'i brosesu am fwyd naturiol, sut mae ein hiechyd yn cael ei bennu gan y pethau rydym yn bwyta ac ôl-troed carbon bwyd (yn cynnwys milltiroedd bwyd). Roedd ystyriaethau eraill yn cynnwys fforddiadwyedd, yr effaith debygol ar ffermwyr a'r angen am labelu effeithiol.

Bydd galluogi'r newidiadau hyn yn gofyn i lawer o wahanol bobl a buddiannau ar hyd y gadwyn gyflenwi newid eu harferion, sy'n gallu bod yn anodd. Roedd deialog yn cael ei weld fel man cychwyn da. Roedd aelodau'r Cynulliad yn tueddu i gyfeirio at weithgarwch ledled y DU ("sgwrs genedlaethol") yn hytrach na gweithgarwch ar lefel ddatganoledig, ond roedd hyn yn bennaf yn adlewyrchu eu cred ym mhwysigrwydd cyfathrebu unedig ar raddfa fawr ynghylch y mater, yn hytrach nag angen arbennig i hyn gael ei yrru gan Lywodraeth y DU yn unig.



## Tryloywder am y ffynonellau bwyd rydym yn eu prynu, a'u heffaith ar natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd [a phob manwerthwr bwyd] fod yn dryloyw ynghylch ffynonellau ac effaith cynhyrchion ar natur drwy safon ansawdd glir.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i siopwyr fod yn wybodus fel eu bod yn cael eu hysgogi i wneud pryniannau sydd o fudd i natur. Gan fod cadwyni cyflenwi'n gymhleth byddai'n haws i ddeall gyda label safonol o ansawdd cyffredinol wedi'i ddatblygu'n annibynnol.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **BUSNESAU BWYD** uno i arloesi a gyrru datblygiad safon ansawdd dryloyw y gellir ei gosod ar becynnu fel eu cyfraniad at ddyfodol natur, ond rydym yn cydnabod efallai y bydd angen deddfwriaeth i'w wneud yn orfodol ar gyfer pob cyflenwr. Dylai gwneud hyn heb unrhyw gost uniongyrchol i ddefnyddwyr.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Gall **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** oruchwylio'r gwaith hwn trwy sicrhau bod y corff priodol yn goruchwylio'r labelu ac yn sicrhau ei ansawdd.
- Gall **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** weithio mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd a busnesau bwyd i gynorthwyo â'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn y maes labelu a gweithredu polisïau tryloyw.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Archwiliodd aelodau'r Cynulliad cymhlethdod cadwyni cyflenwi bwyd wrth iddynt basio o gynhyrchwyr cynradd i broseswyr i fanwerthwyr. Daethant i ddeall bod cadwyni cyflenwi'n anrhyloyw, ac mewn rhai achosion nid yw ymarferion anghynaladwy yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae'n anodd cadw golwg pan mae yna gymaint o gyflenwyr, yn enwedig o ystyried yr ysgogiad i gadw prisiau'n uchel.

Roeddynt yn teimlo na allai archfarchnadoedd a'u rheoleiddwyr weithredu mwyach yn y ffordd anrhyloyw hon ac yn lle hynny bod rhaid iddynt weithredu i agor cadwyni cyflenwi i'w gwneud yn fwy gweladwy a thryloyw.

Daethant i'r casgliad mai'r dull mwyaf cyfeillgar i ddefnyddwyr i wella tryloywder fyddai system labelu syml wedi'i safoni sy'n nodi cymwysterau cyfeillgar i natur cynnyrch. Rhaid i unrhyw system labelu o'r fath fod yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn hawdd i'w deall. Roeddynt yn teimlo y gallai'r system gael ei hunangyllido gan yr archfarchnadoedd, ond ei rheoli'n annibynnol er mwyn sicrhau hyder.



## Cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a manwerthu i atal eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Polisi, yn cynnwys deddfwriaeth a chymhellion [os oes angen], sy'n gorfodi pob cwmni sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a manwerthu i atal eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac i gefnogi adfer natur yn frwd. Rydym eisiau gweld yr egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yn cael ei orfodi er mwyn lleihau faint o lygrwyr sy'n cael effaith ar yr amgylchedd a'n hiechyd a sicrhau nad yw cynhyrchu, prosesu na gwerthu bwyd yn dinistrio cynefinoedd yn y DU na thramor.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Ar hyn o bryd, mae nifer o gynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr bwyd yn cael effaith negyddol ar natur, yn enwedig trwy lygru cynefinoedd naturiol. Mae angen eu dwyn i gyfrif am hyn, oherwydd y rôl fawr sydd ganddynt mewn dylanwadu ar arferion prynu a dewisiadau cwsmeriaid.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** gael eu dwyn i gyfrif am y niwed i natur maent wedi'i achosi trwy gymhwyso a gorfodi'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Mae angen eu paratoi i gymryd cyfrifoldeb pan mae rhywbeth yn mynd o'i le.
- Dylent gyhoeddi a hyrwyddo'n flynyddol eu cymwysterau amgylcheddol yn cynnwys yr hyn maent wedi'i wneud i gefnogi adnewyddu natur, nid ei hamddiffyn yn unig.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** baratoi a chyhoeddi tabl cynghrair o gwmnïau da a drwg.
- Gall **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** sicrhau bod yna ddeddfwriaeth a pholisi sy'n atgyfnerthu'r gwaith hwn ac i sicrhau nad yw costau'n cael eu pasio ymlaen yn annheg.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod bod cwmnïau bwyd yn chwarae rhan allweddol yn y gadwyn gyflenwi o gynhyrchu i ddefnyddio. Roeddynt eisiau gweld cwmnïau bwyd yn gwneud eu rhan i helpu i alluogi cynhyrchu bwyd sy'n gyfeillgar i natur.

Yn gyntaf, roeddynt yn teimlo y dylai cwmnïau bwyd gydnabod eu dylanwad a'i ddefnyddio i newid i arferion sy'n gyfeillgar i natur trwy weithgareddau marchnata a pholisïau cadwyn cyflenwi. Yn ail, roeddynt yn galw am ddeddfwriaeth i sicrhau ei bod yn ofynnol ar gwmnïau ar y cyd i weithredu polisïau amgylcheddol mwy llym a gorfodi egwyddor "y llygrwr sy'n talu' i'r rhai sy'n gweithredu mewn ffyrdd sy'n niweidio natur yn systematig.



# Masnachwyr bwyd i roi'r gorau i yrru gwastraff bwyd

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Llywodraethau i weithredu rheoliadau sy'n atal masnachwyr bwyd (archfarchnadoedd yn enwedig) rhag gyrru ymddygiad cynhyrchwyr a defnyddwyr gwastraffus sy'n golygu bod cyfran uchel o'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei daflu.
>
> Byddai cael gwared â phecynnu diangen hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid brynu cynhyrchion neu eitemau unigol yn y swm gofynnol a helpu i wneud manwerthwyr yn fwy atebol i anghenion eu cymuned.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae yna bobl sydd angen bwyd sydd ddim yn ei gael ac mae'r lefel hon o wastraff bwyd yn ddrwg i'r blaned. Rydym angen gwell systemau ar gyfer dosbarthu bwyd sydd mewn perygl o gael ei wastraffu cyn iddo gyrraedd y bin. Bydd hyn yn helpu adnoddau megis tir, dŵr, llafur ac arian i gael eu defnyddio'n well, eu dosbarthu'n effeithiol a'u defnyddio i natur ffynnu.

**I gyflawni hyn...**



- Gall **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** osod yr agenda trwy gyflwyno polisïau a rheoliadau sy'n atal gwastraff bwyd diangen.
- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** gymryd mwy o gyfrifoldeb am hyn a gyrru newid trwy weithio'n agosach a chyflenwyr lleol a chanolbwyntio ar rwydweithiau dosbarthu lleol. Mae angen iddynt gefnogi'n well dewis cwsmeriaid i brynu eitemau ffres unigol neu gynnyrch gyda llai o becynnu.
- Gall **LLYWODRAETH LEOL** helpu gyda dosbarthu bwyd dros ben, cyflwyno a gorfodi'r rheolau sy'n gwneud rhannu bwyd yn haws, galluogi i fwy o wastraff bwyd gael ei gompostio ac i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen i addysgu a chyfathrebu â'r cyhoedd.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Archwiliodd aelodau'r Cynulliad sut mae gwastraff bwyd yn cynrychioli gwastraff amser, ymdrech, deunyddiau crai, dŵr, tir, pecynnu ac arian, a sut mae'n cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Roedd hyn i weld yn arbennig o bwysig i'w ystyried ar adeg pan nad yw llawer o bobl yn gallu fforddio bwyta deiet iach.

Daethant i'r casgliad y byddai newid arferion cwsmeriaid a lleihau gwastraff bwyd yn gofyn am newidiadau i'r ffordd rydym yn cadw bwyd, newidiadau i'n hagweddau at labelu bwyd megis dyddiadau gwerthu erbyn, yn ogystal â newidiadau i'n hoffter o fwyd 'unffurf'. Byddai angen i farchnata bwyd hefyd newid i atal cynigion "prynu un, cael un am ddim" a gostyngiadau am swmp-brynu, sydd ill dau'n cyfrannu at wastraff bwyd ac yn gwneud bywyd yn anoddach i'r rheiny ar incymau llai.



## Mwy o fynediad at fwyd cynaliadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Hybiau bwyd mewn ardaloedd lleol sy'n hygyrch i bawb, i alluogi pobl i gael mynediad hawdd at fwyd cynaliadwy sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Dylai cydlynwyr hybiau bwyd weithio gyda sefydliadau cymunedol, archfarchnadoedd, ffermwyr a thyfwyr i werthu bwyd sydd wedi'i gynhyrchu mor lleol â phosib. Dylai arwyddion mewn archfarchnadoedd nodi yn lle mae bwyd wedi'i gynhyrchu a dylid annog pobl i brynu "cynnyrch lleol".

**Mae angen hyn oherwydd...**

Bydd yn gosod natur a'i berthynas gyda bwyd wrth galon y gymuned ac yn lleihau effaith "milltiroedd bwyd" ar natur. Mae ganddo hefyd y potensial i olygu bod mwy o fwyd yn mynd yn ôl i mewn i'r economi leol a bod ffermwyr yn cael eu talu pris tecach am eu cynnyrch.

Mae'r buddion ychwanegol yn cynnwys y gallai helpu i adfywio canol trefi, creu cyflogaeth a chreu dyfodol cynaliadwy wrth i bobl tyfu i fyny'n deall o le mae eu bwyd yn dod.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** yn gynhyrchwyr lleol ac archfarchnadoedd gydweithio i ddod â bwyd lleol yn uniongyrchol i gwsmeriaid a datblygu cysylltiadau newydd sy'n deg i bawb.



**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU LLEOL** flaenoriaethu gwneud tir ar gael i gymunedau ar gyfer rhandiroedd ac ardaloedd tyfu cymunedol i alluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain. Rhaid iddynt hefyd helpu i ledaenu gwybodaeth am fentrau lleol a galluogi marchnadoedd ffermwyr lleol.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cydnabod bod bwyd yn adnodd hynod anghyfartal. Yn benodol, mae bwyd lleol a gynhyrchir gan ddefnyddio dulliau sydd ddim yn ddwys wedi bod yn ddrud yn draddodiadol ac felly'n gyfyngedig. Yn y Galwad i Weithredu hwn, aeth Aelodau'r Cynulliad ati i chwilio am ffyrdd o alluogi pawb i gael bwyd sy'n gyfeillgar i natur am brisiau y gallant eu fforddio.

Cawsant eu hysbrydoli gan fodelau Partneriaeth Bwyd lle mae tyfwyr, cynhyrchwyr a dosbarthwyr yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phobl leol. Gellir gweld partneriaethau o'r fath fel mentrau economaidd-gymdeithasol lawn cymaint â mentrau amgylcheddol. Mae aelodau'r Cynulliad yn deall bod gan bob cyfranogwr ran i'w chwarae wrth wneud i'r Alwad i Weithredu hwn ddigwydd, gan gynnwys cyfrifoldeb personol defnyddwyr i gymryd sylw o effaith y bwyd y maent yn ei brynu, yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd i fwyta bwyd lleol wedi'i gynhyrchu mewn ffyrdd sy'n gyfeillgar i natur.

# Amddiffynfeydd Morol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol

## Sicrhau stociau pysgod cynaliadwy trwy leihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota, rheoleiddio dosbarthiad a monitro o bell er mwyn gorfodi safonau

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> I'r Llywodraeth a diwydiant sicrhau bod cydbwysedd natur yn y môr yn cael ei adfer.  Bydd hyn yn cynnwys gostyngiad sylweddol mewn cwotâu pysgota a'u hail-ddyrannu a defnyddio'r dechnoleg a gwybodaeth wyddonol ddiweddaraf, fel y gallwn ddiogelu bioamrywiaeth forol ac adennill stociau pysgod lleol i bwynt sy'n galluogi pysgotwyr i ddal y cynnyrch cynaliadwy mwyaf posibl mewn unrhyw ardal.
>
> Bydd hefyd yn golygu sicrhau bod bwyd môr yn cael ei gyrchu a'i ddosbarthu'n gynaliadwy.
>
> Rydym yn argymell cyflwyno monitro o bell (REM) gorfodol ar unwaith i orfodi safonau a rheoliadau. Dylid cyflawni hyn [talu amdano] drwy gronfa a ddelir gan y Llywodraeth sy'n cynnwys cyfraniadau o ddirwyon y gadwyn cyflenwi bwyd am beidio â chydymffurfio o ran cwotâu a threthiant sy'n gysylltiedig â diwydiant.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni roi terfyn ar y disbyddiad ac adfer byd natur yn ein moroedd, neu bydd yna bwynt di-droi'n-ôl lle na fydd yna ddiwydiant pysgota na chyfle ar gyfer bywoliaeth leol, a bydd yr ecosystem forol gyfan yn cael ei cholli.  Mae angen i ni sicrhau bod gan bobl ddewisiadau bwyd gwell a bod bwyd môr yn parhau i fod yn ddewis bwyd iach a hygyrch i bawb!



**I gyflawni hyn...**

- Dylai **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** gryfhau ac ehangu rheoleiddio, gan gynnwys gorfodi monitro electronig o bell a gosod targedau ar gyfer lefelau dal cynaliadwy a gwahardd dulliau dinistriol. Mae angen i Lywodraethau gymell y diwydiant pysgota i bysgota'n gynaliadwy.
- Mae angen i **FUSNESAU BWYD** ganolbwyntio ar fodloni gofynion o fewn y farchnad leol ac annog defnyddwyr i fwyta cynhyrchion pysgod cynaliadwy, hyd yn oed os ydynt yn llai cyfarwydd iddynt. Dylent fod yn addysgu'r cyhoedd am fanteision bwyta pysgod cynaliadwy, a hyrwyddo yn weithredol darddiad cynhyrchion bwyd môr, a hyrwyddo a chefnogi pysgota lleol trwy gadwyni cyflenwi integredig a byrrach.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** fod yn barod i amrywio eu deiet er mwyn cefnogi'r hyn y gellir ei bysgota'n lleol.
- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** weithio ochr yn ochr â diwydiant i'w helpu i wybod beth i'w wneud a darparu tystiolaeth ac atebion i'r rhanddeiliaid allweddol.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Cafodd Galwad i Weithredu ynghylch lleihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota (gyda 28 pleidlais) a Galwad i Weithredu arall ynghylch yr angen i'r holl fwyd môr gael ei gyrchu a'i ddosbarthu'n gynaliadwy (gyda 22 pleidlais), a thrydydd Galwad i Weithredu'n ymwneud yn benodol â monitro electronig o bell i ddiogelu stociau pysgod (gyda 24 pleidlais) i gyd eu cyfuno mewn un Galwad i Weithredu. Efallai ei bod gwerth nodi yr ystyriwyd bod elfen amddiffyn morol y Galwad i Weithredu hwn yn flaenoriaeth uwch na'r elfen bwyd a deiet.

Bu aelodau'r Cynulliad yn ystyried sut mae data cadarn a gwyddoniaeth yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y mesurau sydd eu hangen i ddiogelu ein hamgylchedd morol, gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth. Clywsant fod niferoedd pysgod wedi dirywio a buont yn archwilio'r rhesymau pam. Yn y pen draw, daethant i'r casgliad bod yn rhaid i ni leihau'r nifer o bysgod sy'n cael eu dal a bod cyfle i ddefnyddio gwyddoniaeth a data i gyrraedd cynnyrch pysgota cynaliadwy a rhoi'r gorau i ddisbyddu stociau.


Roedd pryder am effeithiau gorbysgota'n fyd-eang, ac yn enwedig am ddulliau dinistriol ar gyfer cynaeafu pysgod fel llusgrwydo, yn ogystal â rhwystredigaeth nad yw'r mater yn gwella er gwaethaf y mesurau diogelu sydd ar waith.

Bu aelodau'r Cynulliad yn ystyried sut mae economeg y diwydiant pysgota yn cael ei phwysoli tuag at y rhanddeiliaid mwy, sy'n anghymesur o gyfrifol am y broblem o ddalfeydd mawr. Mae yna goreograffi cymhleth rhwng cefnogi'r cychod llai a'r cymunedau y maent yn eu cynnal, ond sy'n cael trafferth mabwysiadu technegau pysgota newydd yn seiliedig ar wyddoniaeth, ac sy'n cael eu heffeithio'n fwy gan gyfyngiadau'r glannau. Gall cychod mawr iawn ddefnyddio dulliau gwyddonol yn haws ond cânt effaith fwy andwyol ar stociau pysgod.

Mae angen cymhellion a chefnogaeth ar y ddau, y mae'n rhaid eu teilwra i yrru'r ddau tuag at bysgota yn y ffordd gywir. Efallai mai cymorth yn y gymuned yw'r ffordd i ysgogi newid yn y cymunedau cychod llai. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu diwydiannau dyframaethu newydd fel gwymon.

Ystyriwyd hefyd effaith y galw ar bysgota. Cafodd un o'r heriau craidd ar gyfer gwneud pysgota'n fwy cyfeillgar i natur ei grynhoi'n dda gan un grŵp: "pell o'r golwg, pell o'r meddwl - nid ydym yn meddwl am yr effaith ar gefnforoedd oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ei weld". Gallai symud i fathau mwy lleol a defnyddio technoleg briodol ein galluogi i fwyta mwy o bysgod yn gynaliadwy a chyflawni ecosystemau iach.

Wrth sicrhau diwydiant pysgota mwy cynaliadwy, cydnabu Aelodau'r Cynulliad y potensial ar gyfer cyfaddawdu gan gynnwys yr effaith ar gymunedau sy'n dibynnu ar bysgota. Roeddynt eisiau gweld trawsnewidiad teg i'r diwydiant pysgota, gan sicrhau y byddai pwyslais cynyddol ar fioamrywiaeth a dim difrod pellach i ardaloedd arfordirol hefyd yn galluogi pobl i ennill bywoliaeth o'r môr. Rhoddwyd pwyslais ar fusnesau pysgota yn symud tuag at arferion mwy cynaliadwy a hyrwyddo busnesau bach, annibynnol sy'n darparu bwyd yn lleol.



## Sefydlu Parciau Cenedlaethol Morol



GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Greu cyfres o Barciau Cenedlaethol Morol, gan ddefnyddio strwythurau parciau cenedlaethol presennol ac ymgorffori ardaloedd a warchodir ar hyn o bryd. Byddai'r rhain yn cael eu dynodi fel 'parthau dim cymryd' ac yn gymysgedd o safleoedd arfordirol ac ar y môr, wedi'u dewis i gynyddu bioamrywiaeth a lleihau effeithiau pysgota mewn ardaloedd dynodedig.
>
> Dylent gael eu goruchwylio gan y gymuned wyddonol i fonitro effeithiau llygredd tir a môr a'r galw am bysgota ar stociau pysgod ac iechyd morol. Dylai'r gwaith monitro hwn gael ei ariannu mewn ffordd gyfunol gan lywodraethau, cyrff anllywodraethol, y gymuned ymchwil academaidd a diwydiant pysgota'r sector preifat [i gefnogi cynaliadwyedd diwydiant], a'i reoli fel awdurdod lleol annibynnol gyda chylch gorchwyl i gynyddu bioamrywiaeth yn yr ardal 30% erbyn 2030.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen i ni uwchraddio o gael ardaloedd morol gwarchodedig i gynyddu bioamrywiaeth, diogelu stociau pysgod ac adfer ein gwelyau môr mewn ffordd gynaliadwy. Mae angen i hyn gael ei danategu gan reoleiddio cryf a rheolaeth gyson.

**I gyflawni hyn...**




- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** nodi safleoedd allweddol ledled y wlad a deddfu i roi statws Parc Cenedlaethol iddynt.
- Gall **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd a llywio prosiectau ymchwil ac addysg yn ymwneud â'r Parciau. Gallant hefyd ddod yn geidwaid y Parciau.
- Gall **UNIGOLION A CHYMUNEDAU**, yn enwedig cymunedau lleol, gynrychioli llais lleol pwerus yn y Parciau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar warchod natur a dod â buddion yn lleol.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Teimlai aelodau'r Cynulliad y gall dynodiadau fel Parciau Cenedlaethol Morol fod yn fecanwaith defnyddiol i ganolbwyntio ymdrechion ar leihau effeithiau ar yr amgylchedd morol o ffynonellau lluosog. Nid oeddynt yn gyfarwyddol ynghylch ar ba ffurf y dylai'r Parciau Morol Cenedlaethol fod, ond cawsant eu hysbrydoli gan swyddogaethau parciau cenedlaethol ar y tir.

Gwnaethant amlygu'r angen i fynd y tu hwnt i'r dynodiadau presennol i gynnig mwy o ffocws ac felly gwell amddiffyniadau, er enghraifft drwy gyflwyno parthau dim-cymryd mewn rhai ardaloedd, ac i Lywodraeth y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i ddynodi 30% o foroedd yn ardaloedd gwarchodedig erbyn 2030.

Teimlant y byddai dynodiadau cryfach yn y meysydd hyn yn dwyn ynghyd y potensial i wyddoniaeth ac ymchwil groesi polisi morol, diwydiant a gweithredu cymunedol, er iddynt nodi hefyd nad yw'r cyfrifoldeb ar unrhyw un gymuned leol, ond ar ranbarthau datganoledig a phob cymuned yn y DU.



# Rheoli Dyfrffyrdd a Dalgylchoedd

## Sefydlu fframwaith rheoli dŵr ledled y DU sy'n amddiffyn ac yn adfer iechyd ein dyfrffyrdd

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Adfer yr holl afonydd a gwlyptiroedd ar fyrder i statws ecolegol iach, wedi'i ysgogi gan Fframwaith Rheoli Dŵr gyda chymhellion ar gyfer cydymffurfio a chosbau am beidio â chydymffurfio (yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu). Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA)/ Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) neu gyrff perthnasol eraill ddylai fod yn gyfrifol am fonitro, cynnal a chadw ac atebolrwydd ar gyfer y fframwaith hwn.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae system ddŵr gadarn yn hanfodol i ddiogelu ecosystem iach, nawr ac yn y dyfodol, ac i gyfrannu at wrthdroi newid yn yr hinsawdd. Mae angen i ni felly sicrhau bod gennym afonydd a gwlypdiroedd iach ar gyfer adfer bywyd gwyllt, i gwrdd â'n hanghenion o ran defnyddio dŵr a darparu lleoedd ar gyfer difyrrwch.



**I gyflawni hyn...**



- Mae angen i **LYWODRAETHAU LLEOL** a **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** gydweithio i adnabod safleoedd â blaenoriaeth ledled y wlad a rhoi adnoddau i asiantaethau gweithredol i gynllunio gweithredu, ochr yn ochr â chymunedau lleol, i ysgogi newid.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Daeth aelodau'r Cynulliad i'r casgliad bod gorfodi rheoleiddiol yn rhan hanfodol o sicrhau dŵr glân. Gall rheoliadau gwmpasu ystod o lygrwyr dyfrffyrdd, o rheiny sy'n llygru mewn lleoliadau domestig i ffermio a diwydiant. Fodd bynnag, teimlwyd bod y rheoliadau gorfodi presennol yn rhy wan i atal ymddygiad a allai niweidio a llygru cyrff dŵr.

Mae yna strwythur ar waith eisoes drwy'r Fframwaith Dŵr ac roedd aelodau'r Cynulliad yn teimlo y byddai hwn yn fecanwaith priodol ar gyfer trefnu'r gwaith yma. Gwnaethant enwi Asiantaeth yr Amgylchedd a'i asiantaethau cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig fel yr asiantaethau gweithredol priodol i wneud y gwaith yma. Bydd hyn yn gofyn am fwy o gyllid, a allai ddod o ffynonellau amgen.

## Cydweithredu ar draws ardaloedd dalgylch afon i sicrhau gwelliannau sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am…**



> [Camau ar y cyd i gyflawni] gwelliannau iechyd ecolegol sylweddol i ddalgylchoedd afonydd yn seiliedig ar dargedau hir dymor sy'n rhwymol yn gyfreithiol, gyda goblygiadau ar gyfer unrhyw dargedau sy'n cael eu methu. Mae angen i bartneriaid [awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, cymunedau, cwmnïau dŵr ac asiantaethau'r llywodraeth] ddatblygu prif gynllun a rennir ar gyfer adnewyddu sy'n cynnwys gwell rheolaeth a thriniaeth o garthion, dileu cemegau niweidiol yn enwedig mewn rolau nad ydynt yn hanfodol, gwell arferion amaethyddol i leihau dŵr ffo i afonydd, lleihau llifogydd ac sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar natur.

### Mae angen hyn oherwydd…

Mae'n hanfodol bod pob parti'n cydweithio i reoli dalgylchoedd cyfan os ydym am greu cynefinoedd iach ar gyfer natur ac ar gyfer lles dynol, hamdden a rhyngweithio â natur.

### Cyd-destun o amgylch y drafodaeth

Roedd aelodau'r Cynulliad yn gweld iechyd afonydd fel rhywbeth hanfodol i ystod eang o fuddiannau yn cynnwys amwynderau cyhoeddus, iechyd rhywogaethau, iechyd cynefinoedd, glendid dŵr i'w yfed ac fel ased ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roeddynt hefyd yn sylweddoli bod afonydd yn asedau pwysig ar gyfer rheoli llifogydd. Roeddynt eisiau gweld mwy o fuddion o ddalgylchoedd afonydd iach yn cynnwys ymdrochi diogel, cynyddu bioamrywiaeth a gwell rheoli llifogydd a sychder.

Mae'r rhwystrau posib i reoli dalgylchoedd yn effeithiol yn cynnwys graddfa'r mater ac a oes posib gwneud rhywbeth am natur wasgaredig y broblem (e.e. y cemegion sy'n cael eu gwasgaru trwy weithgareddau bywyd pob dydd). Mae'r rhan fwyaf o afonydd wedi'u diraddio, llawer yn ddifrifol, a bydd cost gweithredu yn uchel. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn mewn modd effeithiol, roedd aelodau'r Cynulliad eisiau gorchymyn cydweithrediad nifer o bartion o fewn dull hir dymor.

### I gyflawni hyn…

- Dylai **LLYWODRAETHAU LLEOL** arwain ar ddod â phartneriaid perthnasol ynghyd i ddatblygu cynllun, gan mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb cynllunio o fewn eu hardaloedd yn ogystal â llwybrau at gymunedau lleol i'w hannog nhw i gyfrannu.

### Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn…

- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** ddeall a chefnogi newidiadau i ddefnydd tir a mynediad at fannau agored sy'n cefnogi dad-ddofi ac adfer natur. Mae angen iddynt gael cyfleoedd i gyfrannu at reoli ac amddiffyn eu hafonydd a dalgylchoedd fel eu bod yn deall eu cydgysylltiadau a sut i'w helpu nhw.
- Mae **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** angen defnyddio eu harbenigedd o ran yr hyn sy'n cefnogi adnewyddiad natur i gael pobl i gymryd rhan mewn prosiectau 'Gwyddoniaeth Dinasyddion' (wedi'i ysbrydoli gan yr enghreifftiau afon o'r gronfa ddata ysbrydoliaeth) a meithrin perchnogaeth gymunedol o'u lleoedd ar gyfer natur.

# Buddsoddiad ar frys mewn seilwaith dŵr gwastraff y DU i roi terfyn ar garthffosiaeth yn mynd i mewn i'n hamgylchedd naturiol

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Strategaeth genedlaethol hirdymor i greu system dŵr gwastraff sy'n [lleihau'r risg y bydd carthion yn mynd i mewn i'n hamgylchedd naturiol] ac sy'n cefnogi adferiad ac adnewyddiad natur trwy gynnal fframweithiau a safonau perthnasol.
>
> Dylai'r gwaith o gyflawni hyn gael ei oruchwylio gan gorff annibynnol sy'n cynrychioli'r cyhoedd (a sefydlwyd gan lywodraethau canolog neu ddatganoledig), gyda phwerau ymchwiliol i arolygu, gosod a gorfodi sancsiynau troseddol [ac ariannol] ar lygrwyr mewn ffyrdd sy'n codi arian i'w fuddsoddi mewn seilwaith.



**Mae angen hyn oherwydd...**

Nid yw ein seilwaith carthffosiaeth yn addas i'r diben ac mae angen ei foderneiddio. Mae yna lawer gormod o ollyngiadau dŵr a charthffosiaeth o fewn y system sy'n llygru ein dyfroedd ac yn niweidio natur a lles pobl. Mae angen buddsoddiad sylweddol arnom yn seilwaith carthffosiaeth y DU i greu systemau rheoli gwastraff mwy effeithlon sy'n diogelu natur ac nad yw'n llygru ein dŵr.

**I gyflawni hyn...**

- Rhaid i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** weithio gyda rheoleiddwyr dŵr i hyrwyddo safonau* a gorfodi'r rheoliadau. Rhaid iddynt fynnu bod cwmnïau dŵr yn buddsoddi mwy o'u helw mewn uwchraddio seilwaith yn ogystal â darparu cyllid. Ni all hyn ddod allan o bocedi defnyddwyr.
- Rhaid i **GYRFF ANLLYWODRAETHOL** ymgyrchu i gael mynediad at ddŵr glân a chynorthwyo gydag ymchwil i effeithiau ac atebion.

**er enghraifft safonau diwydiant WINEP yn Lloegr, WQNEP yng Nghymru, canlyniadau yn Fframwaith Dŵr SEPA yn yr Alban.*

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Fel gyda'r Cais i Weithredu blaenorol, ceisiodd aelodau'r Cynulliad sicrhau dŵr glân ar gyfer hamdden, defnydd a bywyd gwyllt, ond y tro hwn drwy ganolbwyntio'n benodol ar y seilwaith sydd ei angen i drin ein dŵr gwastraff yn effeithiol ac i ailwampio'r system annigonol sydd ar waith ar hyn o bryd. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon ynghylch sut mae rheoli dŵr gwastraff presennol yn effeithio ar fioamrywiaeth, glanweithdra, pysgodfeydd a microbïom pridd a dyfrffyrdd.

Cydnabuwyd bod angen eglurhad pellach ar gwestiynau'n ymwneud â chyfrifoldeb ac atebolrwydd. Fe wnaeth aelodau'r Cynulliad hefyd ystyried faint o arian y byddai ei angen i uwchraddio ein seilwaith dŵr gwastraff yn iawn, gan gydnabod y risg y gallai'r gost ddisgyn yn anghymesur ar y rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf.



## Newid sylfaenol i arferion ac agweddau ynghylch defnydd o ddŵr domestig

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Pob defnydd o ddŵr yn y cartref i gael ei brisio [a'i fesur] a chydnabod canlyniadau camddefnydd [oherwydd y bydd yn cael ei fesur a'i dalu amdano'n uniongyrchol gan y defnyddiwr].



**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen agwedd sylfaenol a newid arferion — yn ariannol ac yn gymdeithasol — ynglŷn â sut rydym yn defnyddio dŵr, gan gynnwys yr hyn yr ydym yn ei ganiatáu i fynd i lawr draeniau. Os oes gan bawb fesurydd dŵr rydym yn gwybod faint o ddŵr rydym yn ei ddefnyddio, oherwydd ni allwn reoli'r hyn nad ydym yn ei fesur.

Nid yw mesuryddion yn rhywbeth i'w ofni, ond yn arf ar gyfer ymwybyddiaeth ac addysg fel y gall pobl ystyried lle gallant arbed wrth ddefnyddio dŵr (fel mesurydd clyfar).

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Clywodd aelodau'r Cynulliad lawer iawn am gymhlethdodau rheoli dŵr gwastraff, a daethant i'r casgliad yn y pen draw mai'r ateb gorau yw osgoi llygredd yn y lle cyntaf trwy atal camddefnydd o ddŵr gwastraff yn y cartref. Gwnaethant dynnu sylw at faterion fel meddyginiaethau, cemegau, brasterau, plastigion a chynhyrchion eraill a all, o'u rhoi i lawr y draen, achosi problemau o ran cyfleustodau dŵr ac yn y pen draw i natur.

Roeddynt yn teimlo bod angen diwylliannol ehangach yn y DU i newid ein gwerthfawrogiad o ddŵr a'i werthfawrogi fel yr adnodd prin, gwerthfawr ydyw. Gallai hynny olygu rheoli defnydd dŵr yn well a mwy o gadwraeth dŵr. Gwelodd aelodau'r Cynulliad angen dybryd am well gwybodaeth y gall pobl ei defnyddio i wneud penderfyniadau gwell, yn ogystal â manteision posibl cysylltu materion yn ymwneud â phrinder dŵr â thrin dŵr gwastraff. Gallai hyn gynnwys ei gwneud yn orfodol i gael systemau rheoli dŵr da ar waith mewn adeiladau newydd. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at yr agwedd cyfiawnder cymdeithasol, gan awgrymu y dylid gosod tariffau cymdeithasol ar gyfer y rhai llai cefnog.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETH LEOL** ym mhob rhan o'r DU weithio gyda chyflenwyr dŵr i sefydlu a gweithredu system gyson ar gyfer cyflwyno mesuryddion dŵr i eiddo domestig a chyflwyno biliau dŵr domestig nad yw'n gysylltiedig â'r Dreth Gyngor.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** ddod yn fwy ymwybodol o'r defnydd o ddŵr ac effeithiau gwastraffu dŵr, nid yn unig fel cost ariannol ond oherwydd ei gostau i'r amgylchedd. Mae angen i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu defnydd o ddŵr a'r hyn y maent yn ei roi i lawr y draeniau. Mae angen i gartrefi ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio dŵr llwyd ac offer arbed dŵr.

# Mynediad Lleol at Natur

## Mannau gwyrdd wedi'u rheoli'n lleol sy'n cefnogi natur i ffynnu





GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Rhwydwaith o fannau gwyrdd lleol bioamrywiol sy'n canolbwyntio ar iechyd, sy'n eiddo i'r bobl ac yn cael ei redeg gan y bobl, ar gyfer y bobl. Rydym yn galw ar i bobl leol fod yn rhan o ddechrau'r broses hon mewn cynghrair ag elusennau lleol a chyrff anllywodraethol bywyd gwyllt fel bod perchnogaeth yn dechrau gyda'r gymuned ac rydym yn creu ardaloedd sy'n 'goridorau bywyd gwyllt' effeithiol, yn gwella bioamrywiaeth, yn galluogi mwy o gynhyrchu bwyd yn lleol ac yn dod â chymunedau yn nes at natur.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Nid oes gan lawer o bobl fynediad at leoedd gwyrdd lleol le maent yn byw ac rydym angen cynyddu cysylltiadau at natur a mynediad at natur lle mae bywyd gwyllt yn brin.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Roedd aelodau'r Cynulliad yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y Galwad i Weithredu hwn, gan ei fod yn ymwneud â galluogi a dathlu gweithredu lleol. Gwnaethant dynnu sylw at agweddau cadarnhaol cymunedau'n gweithredu ei hunain ac yn galluogi cydweithredu ar draws amrywiaeth gyfan cymdeithas. Pe bai cymunedau ledled y DU yn cymryd cyfrifoldeb am guradu man gwyrdd, yna byddai cyfle rhwydweithio enfawr ar gael a byddai amrywiaeth enfawr o weithgareddau a chanlyniadau yn bosibl. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau'n ymwneud â bwyd lleol, gerddi cymunedol, bioamrywiaeth, coginio, addysg plant, hapusrwydd cymunedol a mwy o leoedd gwyrdd lleol sy'n eiddo i gymunedau ac yn gyfrifoldeb iddynt.

Mae'n bwysig bod pobl yn mwynhau'r profiad o gymryd rhan, felly ystyriodd aelodau'r Cynulliad sut i gael pobl i gymryd rhan ac agweddau ymarferol cynnal gweithgareddau megis mynediad i leoedd, cynnal a chadw a rheoli, offer ac adnoddau a hyfforddiant.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** weithio gyda chymunedau lleol ac awdurdodau lleol i nodi lleoedd sydd ddim yn cael eu defnyddio digon y gellir eu defnyddio ar gyfer y diben hwn. Dylent fuddsoddi mewn dod â'r gymuned ynghyd a darparu cyllid sbarduno i grwpiau i roi hwb i brosiectau lleol.
- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** mawr sy'n gweithio ledled y DU sefydlu a rhoi cyhoeddusrwydd i brosiectau lleol sy'n gweithio tuag at wella dyfodol natur i ysbrydoli pobl i weithredu ac arddangos y gellir cyflawni newid trwy weithredu lleol.
- Gall **LLYWODRAETH LEOL** ddarparu cyllid i brosiectau, helpu grwpiau lywio'r rheolau a'r rheoliadau a darparu tir yn uniongyrchol i helpu prosiectau i ddechrau arni.
- Gall **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** gymryd rhan trwy ddechrau gweithredu a sicrhau bod ymgysylltu'n lledaenu.
- Gall **BUSNESAU BWYD** ddarparu noddi ar gyfer offer a rhoi hadau a phlanhigion i gymunedau lleol.

# Rhoi o leiaf 12% o'r holl seilwaith adeiladu newydd ac ôl-osodiadau gael ei neilltuo i gefnogi bioamrywiaeth a chysylltu pobl â natur ar gyfer eu hiechyd a'u lles



GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i leiafswm o 12% o'r holl seilwaith adeiladu newydd [arwynebedd tir] ac ôl-osodiadau [lleoedd cyhoeddus] gael eu rhoi i natur a chefnogi bioamrywiaeth, a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at fyd natur bob dydd (e.e. amser y tu allan yn ystod y cwricwlwm a chyflogaeth). Dylai'r ddeddfwriaeth hon gael ei llywio gan arbenigedd perthnasol (e.e. ecolegwyr yn gweithio gyda pheirianwyr) a dylai buddsoddi a rheoli parhaus fod yn seiliedig ar arbenigedd. Bydd gwneud hyn yn gwella'r amgylchedd ac yn ei wneud yn rhan amlwg o fywydau pobl.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae angen mynediad at fyd natur ar bawb, waeth ble maen nhw'n byw neu'n gweithio, i'w helpu i ddadflino'n feddyliol, i gael ffordd iach o fyw ac i wella cynhyrchiant yn y gwaith.

**I gyflawni hyn...**

- Rhaid i **LYWODRAETH LEOL** ddefnyddio eu grymoedd cynllunio i orfodi'r dyraniad lleiaf hwn. Mae angen iddynt hefyd sicrhau'r arbenigedd perthnasol, cydlynu grwpiau cymunedol lleol, ystyried sut mae penderfyniadau gwyrdd yn rhan o benderfyniadau cynllunio, ymchwilio i'r hyn y mae cymunedau lleol ei eisiau ar gyfer eu mannau a'u gweithgareddau gwyrdd a naturiol, annog cyfarfodydd cerdded a gwirfoddoli mewn gweithgareddau gwyrdd a natur (gydag amser yn cael ei roi gan gyflogwyr, yn ystod oriau gwaith) a chyfrannu at gost cynnal a chadw mannau gwyrdd lleol.
- Rhaid i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** basio deddfwriaeth wedi'i llywio gan arbenigedd ecolegol perthnasol.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Mae pobl yn hapusach ac yn iachach pan fyddant yn cael mynediad at natur yn rheolaidd. Roedd aelodau'r Cynulliad yn gwerthfawrogi'r cysylltiad rhwng byd natur ac iechyd a lles pobl, ac eisiau i fwy o bobl brofi byd natur. Mae'r Galwad i Weithredu hwn yn cynnig ffordd bendant a diriaethol o gysylltu natur a lles personol, gyda datblygwyr ac awdurdodau lleol wedi'u harwain yn briodol gan wyddoniaeth ac arbenigedd.

Teimlai aelodau'r Cynulliad y gall integreiddio mannau bioamrywiol mewn ardaloedd adeiledig alluogi gerddi cymunedol a pharciau sy'n dod â byd natur at ein stepen drws, tra bod gosod gofyniad lleiaf o 12% o ddefnydd tir ar gyfer natur a bioamrywiaeth yn cynnig targed penodol a heriol i anelu ato. Roeddynt hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol galluogi pobl i fod ym myd natur, er enghraifft drwy ofyn i gyflogwyr hwyluso mwy o amser yn cael ei dreulio ym myd natur, neu gan ymarferwyr meddygol yn annog neu'n rhagnodi amser ym myd natur.

## Adnabod mynediad at natur fel hawl dynol

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Hawl cyfreithiol i fynediad teg at natur [fel hawl dynol] ac i hynny gael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth aer glân a bod yna gyllid ar gael i'w wireddu. Bydd hyn yn cefnogi pobl i [gysylltu â], natur a'i gwerthfawrogi a'i chefnogi ac yn gwella lles, iechyd a hapusrwydd pobl.



**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae llawer o bobl ledled y DU wedi'u datgysylltu oddi wrth natur o ganlyniad i le maent yn byw neu amgylchiadau bywyd eraill ac nid ydynt yn cydnabod y buddion ymarferol, economaidd a chymdeithasol mae natur yn ei ddarparu i'r DU. Nid yw mynediad i natur yn gyfartal ar draws y wlad ac mae rhai cymunedau'n colli allan ar y buddion hyn, yn enwedig os ydynt yn byw mewn ardaloedd trefol tlotach (lle mae nifer mawr o leiafrifoedd ethnig yn byw) neu os oes ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i deithio i ardaloedd lle mae natur i'w gweld. Mae hefyd yn ymddangos bod llywodraethau yn flaenorol wedi blaenoriaethu gwella amgylcheddau naturiol mewn ardaloedd o'r wlad sy'n fwy cefnog.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** gyhoeddi deddfwriaeth sy'n cydnabod mynediad i natur fel hawl dynol, gydag amodau sy'n amddiffyn adfer natur yn y DU rhag niwed posib wedi'i achosi gan bobl yn defnyddio mannau naturiol.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETH LEOL** sicrhau bod yna leoedd gwyrdd sy'n gyfoethog o natur ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod yna safleoedd dŵr croyw ar gael i bawb, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae angen iddynt ddefnyddio eu pwerau awdurdod cynllunio gydag amddiffyn natur a chynyddu bioamrywiaeth mewn cof ym mhob ardal.
- Gall **CYRFF ANLLYWODRAETHOL** helpu i wella mynediad i gefn gwlad gyda'u hasedau eu hunain a hefyd buddsoddi mwy mewn dod â natur i ardaloedd trefol.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Roedd aelodau'r Cynulliad yn codi eu lleisiau am yr angen am fynediad teg i natur, a sicrhau bod pawb, ni waeth ble maent yn byw neu pa mor gyfoethog ydynt, yn cael mynediad. Roeddynt yn teimlo bod pob gan bobl o wahanol gymunedau brofiadau gwahanol iawn o natur, yn dibynnu ar sut maent yn ei chyrchu ac yn rhyngweithio â hi. Teimlant fod natur yn hawl sylfaenol.

Cydnabuwyd hefyd os nad yw pobl yn cael cyfleoedd i gysylltu â natur, maent yn llai tebygol o'i gwerthfawrogi ac felly cefnogi Galwadau i Weithredu eraill, gan wneud galluogi mynediad at natur yn rhan hanfodol o'r Cynllun y Bobl cyfan.

Daeth aelodau'r Cynulliad i'r casgliad y dylai'r hawl i gael mynediad i natur gael ei hymgorffori mewn deddfwriaeth. Byddai deddfwriaeth o'r fath yn gofyn i nifer o gyrff perthnasol, o awdurdodau lleol i ddatblygwyr i ystyried sut i ddod â natur yn agosach at bawb.

Cydnabuwyd hefyd bod hyn yn gofyn am gyfaddawdu, gan y gallai rhai ardaloedd ddioddef o bosib wrth i fwy o bobl ymweld i gael mynediad at natur, gan greu "mannau poeth" a allai effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd naturiol uniongyrchol.



# Defnyddio adnoddau'n effeithiol

## Gwybodaeth am gyflwr natur yn y DU i fod ar gael yn haws ac yn cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**



> Gwybodaeth sy'n seiliedig ar ffeithiau sy'n berthnasol yn lleol/rhanbarthol am natur i fod ar gael yn haws ac yn cael eu hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd yn y DU fel bod gan y cyhoedd well gwybodaeth am gyflwr natur y DU.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae 'grym mewn gwybodaeth' ac mae'n galluogi i bawb wneud penderfyniadau gwybodus am benderfyniadau'n ymwneud â natur.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **ELUSENNAU A CHYRFF ANLLYWODRAETHOL** arwain ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol o ansawdd uchel i'r cyhoedd ac archwilio sut i ddarparu mwy o fynediad at natur ac eiddo e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dylent weithio gyda gwyddonwyr naturiol a chymdeithasol i gynhyrchu tystiolaeth/gwybodaeth gynyddol o pam fod natur yn bwysig a'i gwneud yn fwy hygyrch a dealladwy.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETH GENEDLAETHOL** sicrhau bod gan natur rhan fwy blaenllaw wrth y bwrdd/ar yr agenda a sicrhau bod gan bawb mynediad sydd ar gael yn rhwydd i natur.
- Dylai **UNIGOLION A CHYMUNEDAU** gael eu grymuso a chael adnoddau i amddiffyn a gofalu am natur yn lleol a chynnwys cymunedau lleol yn y broses.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Teimlai aelodau'r Cynulliad y byddai pobl yn gwerthfawrogi natur fwy petaent yn gwybod beth oedd yn digwydd a'r hyn sydd yn y fantol. Byddai pobl nid yn unig yn ymddwyn yn wahanol, ond hefyd yn galw ar lywodraethau ac eraill i ymddwyn yn wahanol hefyd.

Teimlwyd bod dealltwriaeth ddofn o natur yn brin ymhlith gwleidyddion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gall ffeithiau a gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth fod yn sylfaen i well dealltwriaeth, cyn belled ag y bo modd eu lledaenu a'u deall yn iawn. Mae hyn yn golygu cyflwyno pobl i fwy na phenawdau unigol ac yn hytrach hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach a mwy manwl o'r materion.

Her (a chyfle) allweddol yw sicrhau bod y wybodaeth hon yn berthnasol ac yn ddealladwy i sefyllfaoedd gwahanol bobl, gan ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn newid eu hymddygiad.

# Sail dystiolaeth eglur a hygyrch wedi'i dilysu i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Sylfaen dystiolaeth ddilys, dryloyw a hygyrch, sy'n tynnu ar ymchwil cyhoeddus a phreifat y mae'n rhaid ei defnyddio i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar adnewyddu a diogelu natur yn y DU fel ein bod yn hyderus y bydd penderfyniadau'n cael yr effaith fwyaf priodol.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Ar hyn o bryd, nid yw tystiolaeth yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau ac mae'n cael ei herio.

**I gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** sicrhau bod tystiolaeth a adolygir gan gymheiriaid yn llywio polisi'r llywodraeth a bod deddfwriaeth ar gyfer hyn. Dylent greu corff gyda phwerau priodol i oruchwylio a chyllido'r broses dystiolaeth.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Gall **LLYWODRAETH LEOL** ddarparu dehongliad fel bod tystiolaeth yn ystyried anghenion lleol. Gall eraill gymryd rhan trwy rannu'r "hyn sy'n gweithio" ac arfer gorau/effeithiau.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Drwy gydol proses y Cynulliad, roedd y cyfranogwyr yn ystyried yn gyson rôl gwybodaeth, data a thystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i ddiogelu ac adfer byd natur. Maent yn deall bod llawer o benderfyniadau ynghylch sut, ble, ac ar ba lefel i weithredu yn dechnegol ac yn gofyn am dystiolaeth gadarn, ond yn aml nid yw llunwyr polisi a llunwyr penderfyniadau eraill yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth ddibynadwy na sut i'w dehongli ar gyfer eu hamgylchiadau eu hunain. Roeddynt hefyd yn teimlo, unwaith y bydd y dystiolaeth ar gael, y dylid gweithredu arni yn hytrach na'i hanwybyddu neu ei herio'n ddiddiwedd.

Archwiliodd aelodau'r Cynulliad rôl mecanwaith a fyddai'n galluogi penderfyniadau ar sail tystiolaeth i ddod yn fwy normal a derbyniol mewn cymdeithas. Gallai hyn gynnwys sail gyfreithiol, neu rywbeth mwy anffurfiol, yn dibynnu ar gyd-destun y penderfyniad. Heb esboniad trylwyr o seilwaith ymchwil y DU, mae hwn yn parhau i fod yn Alwad i Weithredu egwyddorol yn hytrach nag wedi'i dargedu, ond mae'n un sy'n bwysig i aelodau'r Cynulliad.



# Mwy o ffocws ar adnewyddu wrth siarad â'r cyhoedd am ddyfodol natur

GALWAD I WEITHREDU

**Er mwyn amddiffyn ac adfer natur yn effeithiol yn y DU, rydym yn galw am...**

> Adolygu'r iaith a ddefnyddir gan arbenigwyr, llunwyr polisi a phenderfyniadau i gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch natur. Trwy ganolbwyntio ar **adnewyddu** ac nid **adfer** yn unig, rydym yn edrych tua'r dyfodol ac nid y gorffennol.

**Mae angen hyn oherwydd...**

Mae adnewyddu natur yn rhywbeth i bawb, nid yr ychydig yn unig. Mae angen newid yr iaith i helpu **pawb** i gyrchu gwybodaeth fel eu bod yn gallu bod yn wybodus ac wedi'u grymuso a bydd pobl yn cael eu tywys i wneud penderfyniadau gwell.

**I gyflawni hyn...**

- Dylai **LLYWODRAETHAU CENEDLAETHOL** arwain y newid trwy weithio gyda rhanddeiliaid, yn enwedig addysg a thrwy ei hasiantaethau i ddefnyddio iaith newydd [hygyrch] wrth lunio penderfyniadau a pholisïau.

**Camau ychwanegol y mae angen eu cymryd i helpu i gyflawni hyn...**

- Mae angen i **LYWODRAETH LEOL** weithredu fel pont rhwng rhanddeiliaid a chymunedau i gyfathrebu'r newid hwn mewn iaith, cefnogi gweithredu lleol ac annog mwy o ymglymiad cyhoeddus.
- Gall **BUSNESAU** helpu gyda'r iaith maent yn defnyddio wrth farchnata a defnyddio iaith sy'n arwain ffocws newydd tuag at natur a defnyddio'r gair "Adnewyddu" mewn ymarfer a chyfathrebu.

**Cyd-destun o amgylch y drafodaeth**

Archwiliodd aelodau'r Cynulliad sut mae iaith cadwraeth ac amgylcheddaeth wedi methu â denu diddordeb y cyhoedd. Daethant i'r casgliad bod rhan o hyn oherwydd jargon a chanfyddiad o gadwraeth fel golwg ar y byd sy'n wynebu yn ôl, yn hytrach na un sy'n edrych tuag at ddyfodol o adnewyddu.

Yn hytrach roeddynt am weld dull sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n defnyddio iaith blaen a syml i ddenu diddordeb pobl a'u cefnogi nhw i weld yr agenda hon yn wahanol: canolbwyntio llai ar "gywilyddio eco" a mwy ar agor llygaid pobl i rôl natur a'r holl ffordd mae'n croestorri gyda bywyd pob dydd. Nid oes angen i ni fod yn arbenigwyr, y cyfan sydd ei angen arnom yw digon o wybodaeth a chyfle i weithredu.

Yr her drosfwaol yw gweithio allan sut i wella ymgysylltu â materion cymhleth a dyrys sy'n cydblethu'n agos â'n dyheadau ffordd o fyw.



# 05. Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Mae'r adran hon yn disgrifio gweledigaethau ar gyfer dyfodol natur wedi'u creu ar y cyd gan aelodau'r cynulliad, yn ogystal â themâu trawsbynciol yn deillio o'u trafodaethau.



## 5.1 Datganiadau Gweledigaeth

Mae'r Galwadau i Weithredu a ddisgrifir yn yr adran flaenorol yn adlewyrchiad clir a chywir o farn ystyriol Aelodau'r Cynulliad. Dyma eiriau aelodau'r Cynulliad eu hunain ac maent yn cynrychioli oriau lawer o waith caled, trafod a myfyrdod.

Gellir deall y meddylfryd y tu ôl i'r geiriau hynny ymhellach trwy ddarllen y Galwadau i Weithredu yng nghyd-destun y **datganiadau gweledigaeth** a luniwyd gan Aelodau'r Cynulliad hefyd, maent yn cael eu rhannu isod.

Mae'r datganiadau gweledigaeth yma hefyd yng ngeiriau aelodau'r Cynulliad eu hunain ac wedi'u drafftio ar y cyd mewn ymateb i'r datganiad 'ysgogi'.



## Y DEYRNAS UNEDIG YN Y DYFODOL, LLE MAE NATUR YN CAEL EI GWARCHOD, EI HADFER A'I HADNEWYDDU'N EFFEITHIOL...

“Mae natur yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu gan bawb. Defnyddir dull cydweithredol, hir dymor tuag at flaenoriaethu natur wrth wneud pob penderfyniad. Mae hyn wedi creu byd hapusach ac iachach sydd wedi'i rymuso gyda natur wedi'i chysylltu â bywyd pob dydd. Mae hyn wedi gosod sylfaen ar gyfer lles pob bywyd yn y dyfodol.”



“Mae yna gydbwysedd rhwng anghenion dynol ac annynol, ac rydym yn cymryd cyfrifoldeb unigol a chyfunol i wella, cynnal a galluogi natur i ffynnu. Mae'r daith rydym wedi bod arni wedi greddfu natur yn ein hymwybyddiaeth. Bellach mae'r cydbwysedd hwn yn ail natur i ni ac mae'n fforddiadwy i ni a natur.Anrheg natur i ni yw ein gwneud yn fwy cysylltiedig fel cymdeithas. Mae gan bob un ohonom well hwyliau a lles ac mae cenedlaethau'r dyfodol wedi'u hysbrydoli.”



“Mae bodau dynol a natur mewn cytgord ac mae pobl ledled y wlad yn profi natur ar stepen eu drws. Mae pobl yn ymwybodol o'r ansawdd aer gwell a'r amrywiaeth helaeth o rywogaethau maent yn dod ar eu traws pob dydd. Mae gwleidyddion, elusennau,
cyrff anllywodraethol a gwyddonwyr yn cydweithio mewn ffyrdd gwybodus i sicrhau bod bywyd gwyllt sy'n ffynnu yn rhan flaenllaw o bob penderfyniad.Rydym yn deall ein bod angen natur i ffynnu, er budd bywydau pob un ohonom.”




**“Mae adnewyddu natur ar sail tystiolaeth yn ganolog i addysg gydol oes ac yn cynnwys profiadau bywyd go iawn. Mae cymhwysiad ymarferol adferiad natur yn cael ei integreiddio ar draws cenedlaethau a diwylliannau; creu atgofion wedi'i yrru gan awch am wybodaeth ein plant.”**



“Rydym yn gallu treulio amser mewn natur bob dydd, boed hynny’n chwarae, yn gweithio neu’n treulio amser lle’r rydym yn byw. Rydym yn cael addysg am fuddion natur ar gyfer lles meddyliol a chorfforol yn ystod pob cam o’n bywyd ac yn deall trwy amddiffyn natur, mae natur yn ein helpu ni.Rydym yn amddiffyn, gwella ac adnewyddu cynefinoedd ac ecosystemau i’r safonau ecolegol uchaf. Trown at natur oherwydd ei buddion anweladwy ar ein hiechyd a’n lles.”



“Mae natur yn cael ei blaenoriaethu, ei gwarchod, ei gwerthfawrogi a’i gofalu amdani. Mae yna rywogaethau toreithiog ac mae natur yn ffynnu. Mae pawb yn chwarae eu rhan mewn gofalu am natur ac mae hyn wedi digwydd oherwydd bod y llywodraeth wedi gweithredu, ac oherwydd eu bod yn fwy gwybodus, mae pobl wedi codi eu lleisiau ac wedi dod yn llais dros natur.”





# 5.2 Themâu Trawsbynciol: yr Awyrgylch yn yr Ystafell

Yn ychwanegol at ddrafftio'r Galwadau i Weithredu a'r datganiadau gweledigaeth, dangoswyd ychydig o themâu trawsbynciol i aelodau'r Cynulliad ar ddiwrnod olaf y Cynulliad. Roedd y themâu hyn yn crynhoi'r meddyliau, geiriau a'r syniadau oedd wedi'u nodi wrth iddynt drafod manylion Cynllun Natur y Bobl.

Roedd aelodau'r Cynulliad yn cytuno bod y themâu trawsbynciol arfaethedig yn adlewyrchu cyfres gyffredinol o egwyddorion a lywiodd datblygiad y Galwadau i Weithredu, er bod rhai aelodau'n pwysleisio bod y themâu braidd yn generig ac ni ddylent gael eu defnyddio yn lle'r Galwadau i Weithredu.

Rhennir y themâu isod. Nid ydynt yn cael eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth: yn hytrach, maent yn rhoi blas o'r awyrgylch yn yr ystafell.

Mae sylwadau air am air wedi'u cymryd o drafodaethau a chyd-destun o amgylch y datganiadau gweledigaeth.

## MAE GRYM MEWN GWYBODAETH

Mae angen i ni ddeall natur a gwybod sut i'w hamddiffyn.

**Mewn byd fel hyn...**

> Mae buddion corfforol a meddyliol natur yn cael eu deall yn glir gan bawb, gweithredir arnynt, ac mae yna dystiolaeth glir a chadarn ar gael sy'n dangos hyn."

> Mae amser rheolaidd mewn natur, [yn ogystal â] gwybodaeth a gwerthfawrogiad [o rôl natur yn cael ei] ymgorffori yng nghwricwlwm ysgolion trwy gydol bywyd yn yr ysgol."

> Mae bywyd gwyllt a rhywogaethau'n ffynnu. Bydd plant yn yr ysgol yn cael eu hamgylchynu gan natur a bywyd gwyllt, nid iardiau concrid. Bydd amser chwarae'n cynnwys archwilio bywyd gwyllt a mannau gwyrdd ac ymweliadau ysgol ag afonydd a moroedd glân.

## MYNEDIAD CYFARTAL AT NATUR

A gwneud yn siŵr bod pawb yn cael llais yn y newid.

**Mewn byd fel hyn...**

> Mae pawb yn gwybod sut i gyrchu natur ac yn lle, ac mae bob un ohonom yn hyderus i wneud hynny."

> Mae gennym drafnidiaeth reolaidd am ddim rhwng ardaloedd trefol a gwledig [i] sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal a hygyrch at natur."

> Mae gennym fwy o goridorau natur ac mae yna fannau gwyrdd mewn amgylcheddau trefol, felly mae gan bawb fynediad hawdd at natur. Mae deddfwriaeth cynllunio wedi newid felly mae mynediad at natur yn rhan o seilwaith newydd."

> Mae cyflogwyr yn rhoi lle ac amser i'w gweithwyr gael mynediad at natur. O ganlyniad mae iechyd meddwl a chynhyrchiant pobl wedi gwella."

## LLE BLAENLLAW I NATUR

Dylid rhoi lle blaenllaw i natur, ei hyrwyddo ym mhob penderfyniad a dylai'r bobl mewn grym boeni am natur.

**Mewn byd fel hyn...**

> Mae pobl yn deall bod eu hawl i gael mynediad at natur yn eilaidd i hawl natur i ffynnu."



## CYNLLUNIO NEWID MEWN FFYRDD SY'N DEBYGOL O WEITHIO

Os ydym yn gofyn i gyfranogwyr newid i amddiffyn natur, mae angen i ni feddwl am sut i wneud y newid yn gyraeddadwy iddyn nhw (hyd yn oed os nad yw'n hawdd).

**Mewn byd fel hyn...**

> "Bwyd fforddiadwy sy'n gyfeillgar i natur yw sail deiet pawb. Mae ffermwyr yn defnyddio dulliau cynaliadwy, yn cynhyrchu llai o gig a mwy o blanhigion ac mae pobl yn dewis bwydydd tymhorol. Mae tir yn cael ei adnewyddu ar gyfer natur ac mae pobl yn iachach."



## GORFODI RHEOLAU A RHEOLIADAU


Peidio â gadael drwgweithredwyr oddi ar y bachyn, creu craffu annibynnol.

## RHAID I NI ROI SYLW I'R MESURIADAU CYWIR

Defnyddio'r dystiolaeth a'r meddwl gorau i werthfawrogi adnoddau natur mewn ffyrdd sy'n golygu y gallwn fesur ein llwyddiant, creu dangosyddion perfformiad allweddol a dwyn ein hunain i gyfrif.

## CANOLBWYNTIO A'R ARLOESI A'R DYFODOL

Er bod angen adfer rhannau o natur, dylai'r DU yn ei chyfanrwydd geisio adnewyddu ein perthynas gyda natur, yn ogystal ag adfer a gwella bioamrywiaeth.



06.

# Effaith Cynulliad Natur y Bobl

Mae'r adran hon yn adrodd ar yr adborth mae aelodau'r Cynulliad wedi'i roi i ni ynghylch tri maes: yn gyntaf, am y profiad o gymryd rhan yn y broses; yn ail, eu barn am weithredu Cynllun Natur y Bobl ac effaith cyffredinol y Cynulliad; ac yn drydydd, yr effaith hirdymor y mae wedi'i gael ar eu safbwyntiau a'u hymddygiad eu hunain. Er y bydd asesu effaith gyffredinol y Cynulliad yn broses fwy hirdymor, mae'r adran hon yn casglu ynghyd adborth uniongyrchol aelodau'r Cynulliad, y gellir ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol.



# 6.1 Gwerthusiad o broses y Cynulliad

Ar ddiwedd pob penwythnos, gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad roi adborth ar sut brofiad oedd bod yn rhan o broses y Cynulliad. Ni ddewisodd pob aelod o'r Cynulliad lenwi'r ffurflenni gwerthuso a gwelwyd gostyngiad yn y cyfraddau cwblhau yn ystod y ddau benwythnos ar-lein. Rhwng y penwythnos cyntaf a'r pedwerydd penwythnos fodd bynnag, cynyddodd nifer y bobl oedd yn rhoi amser i werthuso eu profiadau yn y Cynulliad o 82 i 91 o bobl.

## ROEDD AELODAU'R CYNULLIAD YN GADARNHAOL AM EU PROFIAD AR Y CYFAN

Pan ofynnwyd iddynt sgorio eu profiad cyffredinol o gymryd rhan yn y penwythnos olaf, rhoddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr farciau llawn o 5 allan o 5, gyda 5 yn rhoi 'Rhagorol' ac 1 yn ei labelu fel 'Ofnadwy.'

**Ar y cyfan, sut fyddech chi'n sgorio eich profiad o gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cynulliad?**

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

Ar draws y pedwar penwythnos, roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn nodi bod y profiad yn gyffredinol wedi bod yn gadarnhaol, ac yn rhoi sgôr o rhwng 4 a 5:

- **Penwythnos 1 — 96%**
- **Penwythnos 2 — 92%**
- **Penwythnos 3 — 98%**
- **Penwythnos 4 — 94%**

Penwythnos 2 oedd yr eithriad, gyda 61% o'r ymatebwyr yn rhoi sgôr o 4 i'r profiad. Efallai y gellir esbonio hyn yn rhannol gan rhai o'r anawsterau technegol a brofwyd gan aelodau'r Cynulliad wrth iddynt symud ar-lein.

Mae hyn hefyd yn adlewyrchu dynameg proses y Cynulliad: ffurfio grŵp newydd a dod o hyd i nodweddion cyffredin yn ystod y penwythnos cyntaf, gwrando ar dystiolaeth a thrafod yn ystod y penwythnosau yn y canol, a theimlo'n fwy hyderus yn y broses wrth gyrraedd consensws ar y penwythnos olaf.

Roedd opsiwn testun rhydd wedi'i gysylltu â'r cwestiwn hwn. Ar draws yr holl benwythnosau ychwanegwyd cyfanswm cyfunol o 253 o sylwadau yn egluro pam fod pobl wedi dewis eu sgôr. Mae hyn yn cynrychioli 80% o'r rhai a gwblhaodd y gwerthusiad. O gofio bod y cwestiwn hwn bob amser yn ddewisol, mae hyn yn dangos lefel uchel o barodrwydd i rannu barn, yn enwedig ar Benwythnos 1.

Roedd dadansoddiad o'r teimlad cyffredinol ar draws y pedwar penwythnos, fel a ganlyn:

- **Cadarnhaol - 79%**
- **Negyddol - 6%**
- **Y ddau - 15%**
- **Niwtral - 0%**

Roedd y rhan fwyaf o'r ffactorau cadarnhaol a dynnwyd sylw atynt gan yr aelodau ar Benwythnos 1 yn ymwneud â'r broses, a ganmolwyd am fod wedi'i threfnu'n dda gyda chyfuniad cryf o broffesiynoldeb a chynnwys dysgu diddorol. Cyfeiriodd aelodau'r Cynulliad at ba mor gyfeillgar, diogel, hwyliog, amrywiol a diddorol oedd y profiad.

> Hynod ysgogol ac roedd hi'n braf cwrdd â llawer o bobl ddiddorol a chyfeillgar. Roedd hi hefyd yn braf cael cymaint o wahanol safbwyntiau oedd weithiau'n wrthwynebol yn dod gan y cyd-aelodau. Byddwn wedi bod yn bryderus pe bai yna unfrydedd barn ar y pwynt hwn, gan y gallai fod wedi awgrymu bod amrywiaeth annigonol o grwpiau cymdeithasol yn cael eu cynrychioli yn y ffordd y dewiswyd cyfranogwyr."

> Dysgais cymaint am yr amgylchedd a sut y gallai camau syml gan unigolion annog eraill i ddilyn eu hesiampl. Roedd yna hefyd siaradwyr rhagorol ac roedd yr hwyluswyr yn dda iawn am egluro pob agwedd ar y cwestiynau y gofynnwyd i ni eu hystyried."

> Roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn am gwrdd â chymaint o bobl ddieithr, ond roedd pawb yn gyfeillgar iawn. Roedd y cyfleusterau, y bwyd a'r llety o'r safon uchaf hefyd. Roedd yn brofiad dymunol iawn. Roedd y staff i gyd yn hyfryd hefyd."

**Cafwyd sylwadau negyddol am y broses hefyd.** Roedd nifer fach iawn yn teimlo'n ansicr ynghylch sut y byddai'r Cynulliad yn cael dylanwad yn y byd go iawn, ac am natur y dystiolaeth a gyflwynwyd.

> Roeddwn yn aneglur am farn gyffredinol ffermwyr/tirfeddianwyr am ein newidiadau awgrymedig. A oedden nhw wedi'u cynrychioli yn y Cynulliad?"

> Mae geiriau'n braf iawn, ond does yna fawr o gysylltiad â gweithredu."

**Cynigiodd rhai o'r aelodau adborth cadarnhaol a negyddol;** weithiau mewn perthynas â theimlo wedi'u llethu, wedi'u rhuthro gan amseroedd tynn, dryswch ynghylch taliadau teithio neu'n gysylltiedig â'r lleoliad a'r bwyd a ddarparwyd.

> Fe wnes i fwynhau'n ofnadwy, ond teimlais wedi fy llethu braidd gan y nifer o'r bobl a'r holl ffigyrau a gyflwynwyd. Weithiau nid oedd yna unrhyw sleidiau, ac roedd y cyflwynwyr yn dweud cymaint, byddwn wedi gweld ychydig o sleidiau yn ddefnyddiol, gan eu bod yn siarad mor gyflym roeddwn yn ei chael yn anodd cymryd nodiadau. Dydw i ddim y person mwyaf cymdeithasol ac rwy'n gweld cwrdd â phobl ychydig yn anodd, felly roedd newid grwpiau bob dydd yn heriol i mi."

> Roedd yn llethol i mi ac roeddwn allan o fy man cyfforddus gan fod y rhan fwyaf o'r bobl yno yn llawer mwy gwybodus am warchod natur."



# PROFIAD Y CYFRANOGWYR O DRAFODAETHAU GRŴP BACH: TAITH O DRAFOD



Holwyd aelodau'r Cynulliad am eu profiad o gymryd rhan yn y trafodaethau mewn grwpiau bach bob penwythnos.

Roedd pa mor gyfforddus oedd pobl wrth fynegi eu barn yn amlwg yn uchel ar ddechrau'r broses ar Benwythnos 1. Gostyngodd ychydig ar Benwythnos 2, yn bennaf oherwydd newid o fod wyneb yn wyneb i fod ar-lein. Fodd bynnag, cynyddodd hyn ar Benwythnos 3 ac roedd ar ei uchaf erbyn y penwythnos olaf, gyda'r aelodau wedi treulio amser gyda'i gilydd dros bedair sesiwn.

> **Roeddwn yn teimlo braidd yn anghyfforddus am siarad yn ystod y trafodaethau grŵp oherwydd yr agwedd ar-lein — mae'n lletchwith pan mae dau berson yn ceisio siarad ar unwaith, ond rheolodd yr hwylusydd hynny'n dda."**

Fe wnaethom hefyd ofyn i aelodau'r Cynulliad a oeddynt wedi newid eu barn o ganlyniad i wrando ar eraill. Gwelwyd y ganran uchaf o bobl a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn ar Benwythnos 4. Nid yw hyn yn syndod, gan ei fod yn dangos sut y bu i aelodau'r Cynulliad fyfyrio'n ôl ar eu taith o drafod ar draws pob penwythnos.

**Mae'r ddwy set ddata yn dangos llwyddiant y broses o ran galluogi aelodau'r Cynulliad i gymryd rhan yn effeithiol a dysgu oddi wrth ei gilydd.**

**Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus yn y trafodaethau grŵp bach i fynegi fy marn**

| Penwythnos 1 | | | Penwythnos 2 | | | Penwythnos 3 | | | Penwythnos 4 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Nif. | % | C1a | Nif. | % | C1a | Nif. | % | C1a | Nif. | % |
| Cytuno'n gryf | 41 | 50% | Cytuno'n gryf | 37 | 45% | Cytuno'n gryf | 39 | 66% | Cytuno'n gryf | 74 | 81% |
| Cytuno | 37 | 45% | Cytuno | 38 | 46% | Cytuno | 17 | 29% | Cytuno | 15 | 16% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 4% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 5% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 1% |
| Anghytuno | 0 | 0% | Anghytuno | 2 | 2% | Anghytuno | 0 | 0% | Anghytuno | 1 | 1% |
| Anghytuno'n gryf | 1 | 1% | Anghytuno'n gryf | 1 | 1% | Anghytuno'n gryf | 2 | 3% | Anghytuno'n gryf | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **59** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **91** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

| Newidiodd fy marn ar ôl gwrando ar eraill | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penwythnos 1 | | | Penwythnos 2 | | | Penwythnos 3 | | | Penwythnos 4 | | |
| **C2** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** |
| Cytuno'n gryf | 13 | 16% | Cytuno'n gryf | 11 | 13% | Cytuno'n gryf | 8 | 14% | Cytuno'n gryf | 16 | 18% |
| Cytuno | 33 | 40% | Cytuno | 30 | 37% | Cytuno | 22 | 38% | Cytuno | 39 | 44% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 22 | 27% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 29 | 35% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 22 | 38% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 24 | 27% |
| Anghytuno | 10 | 12% | Anghytuno | 10 | 12% | Anghytuno | 5 | 8% | Anghytuno | 10 | 11% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% | Anghytuno'n gryf | 2 | 2% | Anghytuno'n gryf | 1 | 2% | Anghytuno'n gryf | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **59** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **91** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

Dylid nodi, fodd bynnag, bod nifer bach o'r cyfranogwyr wedi'i chael yn anoddach i gyfrannu mewn trafodaethau grŵp bach oherwydd eu bod yn teimlo bod un neu fwy o'u cyd-aelodau cynulliad yn dominyddu'r trafodaethau.

**Dydw i ddim yn gwybod sut i gael drwodd i'r bobl sydd ddim eisiau rhoi cyfle i bobl eraill siarad. Efallai dylai'r hwyluswyr ddweud wrthynt am "fod yn ddistaw" fel bod pobl eraill yn gallu cyfrannu. A fyddai'n bosib eu "tawelu" nhw ar zoom?!!"**

Roeddwn i'n teimlo bod tri neu bedwar o bobl, yn cynnwys fi fy hun mae'n debyg, yn rheoli'r drafodaeth ac yn cyfrannu mwyaf. **Biti na roddwyd mwy o ymdrech i annog y bobl iau yn y grŵp i siarad."**



| Roeddwn yn ei chael hi'n anodd cyfrannu oherwydd bod un neu fwy o bobl yn fy ngrwpiau bach yn dominyddu'r trafodaethau | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penwythnos 1** | | | **Penwythnos 2** | | | **Penwythnos 3** | | | **Penwythnos 4** | | |
| **C2** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** |
| Cytuno'n gryf | 6 | 7% | Cytuno'n gryf | 7 | 9% | Cytuno'n gryf | 7 | 12% | Cytuno'n gryf | 6 | 7% |
| Cytuno | 3 | 4% | Cytuno | 5 | 6% | Cytuno | 2 | 3% | Cytuno | 3 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 19 | 23% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 9% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 | 18% |
| Anghytuno | 30 | 37% | Anghytuno | 36 | 44% | Anghytuno | 23 | 40% | Anghytuno | 43 | 48% |
| Anghytuno'n gryf | 24 | 29% | Anghytuno'n gryf | 24 | 29% | Anghytuno'n gryf | 21 | 36% | Anghytuno'n gryf | 22 | 24% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **58** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **90** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

Roedd hyn yn wir yn achos 11% o'r aelodau yn Wythnos 1 a 10% yn Wythnos 4.

Yn nodedig, cynyddodd y canran i 15% ar Benwythnos 2 a 16% ar Benwythnos 3. Mae hyn yn cyd-fynd â dwysedd yr allbwn a lefel y trafod yn ystod rhan ganol y broses. Mae hefyd yn adlewyrchu sut y cyrhaeddodd pobl sefyllfa fwy cytûn erbyn Penwythnos 4, pan wnaethant alinio o gwmpas eu hargymhellion.

Roedd prinder amser i drafod materion yn ystod pob penwythnos yn fater a dynnwyd sylw ato gan ganran sylweddol o aelodau'r Cynulliad. Roedd hyn ar ei anterth ar Benwythnos 1 a Phenwythnos 3, pan oedd 28% a 36% o'r cyfranogwyr yn y drefn honno'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf "bod yna ddigon o amser i drafod y materion yn iawn". Mae hyn yn cyfateb â phrif gamau'r mewnbwn a'r trafod.

Roedd y teimlad bod yna ddim digon o amser ar ei isaf ar y ail benwythnos. Profwyd hyn gan 23% o bobl, sy'n awgrymu bod yr amseru ar-lein wedi gweithio'n dda i'r mwyafrif. Gostyngodd hefyd i 22% ar y penwythnos olaf, pan fu grwpiau bach yn cydweithio i gyrraedd cytundeb ar eu hallbynnau terfynol.

> **Amser oedd y broblem fwyaf. Efallai byddai modd edrych ar y cyflwyniadau gartref cyn y cyfarfod. Gellid anfon cwestiynau at Involve ac yna gallai'r cyflwynydd eu trafod yn y cyfarfod."**



| Roedd yna ddigon o amser i drafod y materion yn iawn | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penwythnos 1 | | | Penwythnos 2 | | | Penwythnos 3 | | | Penwythnos 4 | | |
| C2 | Nif. | % | C1a | Nif. | % | C1a | Nif. | % | C1a | Nif. | % |
| Cytuno'n gryf | 18 | 22% | Cytuno'n gryf | 17 | 22% | Cytuno'n gryf | 11 | 19% | Cytuno'n gryf | 22 | 24% |
| Cytuno | 24 | 29% | Cytuno | 32 | 39% | Cytuno | 14 | 24% | Cytuno | 34 | 38% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 17 | 21% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 14 | 17% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 | 21% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 14 | 16% |
| Anghytuno | 19 | 23% | Anghytuno | 16 | 20% | Anghytuno | 20 | 34% | Anghytuno | 17 | 19% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% | Anghytuno'n gryf | 2 | 2% | Anghytuno'n gryf | 1 | 2% | Anghytuno'n gryf | 3 | 3% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **58** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **90** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

## YMATEB CADARNHAOL IAWN I'R HWYLUSWYR

Gofynnwyd y cwestiwn hwn mewn perthynas â'r tri phenwythnos cyntaf yn unig. Mae'r ymatebion yn adrodd stori gadarnhaol iawn am ba mor effeithiol oedd rôl yr hwylusydd. Naw o bobl yn unig allan o 233 [4%] a gwblhaodd y gwerthusiad a roddodd sgôr o 'canolig' i'r hwyluswyr. Ni ddewisodd neb yr opsiwn o 'ddim yn grêt' neu 'gwael' ar unrhyw gam o broses y Cynulliad.

> **Mae'n swydd anodd iawn! Gwnaed argraff fawr arnaf. A dydw i ddim wedi dod ar draws neb sydd wedi fy ngwylltio??"**

Yn nodedig, roedd ychydig o bobl o'r farn bod rhai o'r hwyluswyr yn ceisio dylanwadu ar eu grŵp gyda'u syniadau eu hunain. Roedd hyn ychydig yn fwy o broblem [i 13% o bobl] ar y penwythnos cyntaf nag erbyn y trydydd penwythnos [i 10% o bobl].

> **Os rhywbeth, gallai'r hwylusydd y tro hwn, o'i gymharu â fy mhrofiad blaenorol, fod wedi rhoi mwy o gyfarwyddyd i'r grŵp, yn hytrach na gadael i unrhyw un ddweud beth oedd ar eu meddwl - a oedd ambell waith yn arwain at gyfnodau o dawelwch."**



**Rôl yr hwylusydd yw cefnogi'r grŵp i gael sgyrsiau adeiladol - a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i siarad a chael gwrandawiad, ac i gadw ffocws y drafodaeth ar y dasg. Pa mor effeithiol oedd yr hwyluswyr yn eich barn chi?**

| Penwythnos 1 | | | Penwythnos 2 | | | Penwythnos 3 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **C2** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** |
| Gwych | 55 | 67% | Cytuno'n gryf | 49 | 60% | Cytuno'n gryf | 36 | 61% |
| Da | 25 | 30% | Cytuno | 28 | 35% | Cytuno | 20 | 34% |
| Canolig | 2 | 2% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 5% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 5% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **82** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **81** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **59** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

## Y CYNULLIAD FEL AMGYLCHEDD CYFFREDINOL GADARNHAOL I GEFNOGI DYSG A THRAFODAETH

Ar draws y tri phenwythnos cyntaf, gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad i ba raddau roedd y Cynulliad yn llwyddo fel amgylchedd ar gyfer dysg a thrafodaeth yn eu barn nhw. Gofynnwyd casgliad gwahanol o gwestiynau ar y penwythnos olaf, gan dynnu ar ddysg a mewnwelediad ar draws yr holl sesiynau.

Dengys y canlyniadau, i'r mwyafrif o'r cyfranogwyr yno, y bu bob un o'r tri phenwythnos yn amgylchedd addas i hybu dysg. Roedd lleiafrif bach o'r farn mai boddhaol ydoedd, a dywedodd un unigolyn nad oedd yn brofiad cefnogol yn ystod Penwythnos 3.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd pa mor sicr oeddynt bod y wybodaeth a gawsant drwy gyflwyniadau a chynnwys yn deg a chytbwys rhwng y gwahanol safbwyntiau. Ym Mhenwythnos 1, roedd 17% o'r cyfranogwry yn ansicr, ond gostyngodd hyn i 9% yn ystod Penwythnosau 2 a 3. Ansicrwydd yw'r gostyngiad hwn ynghylch y wybodaeth yn caniatau ar gyfer cynnydd mewn hyder a meddwl critigol, sef elfen greiddiol o'r broses.

Yn gyffredinol, sgoriodd pobl y ddysg a gawsant o'r cyflwyniadau a chynnwys y Cynulliad yn uchel, gyda chyfartaledd o 82% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r cwestiwn gwerthuso ar draws y tri phenwythnos cyntaf.



# ROEDD CYMRYD RHAN YN Y CYNULLIAD YN BROFIAD EITHRIADOL O GADARNHAOL YN GYFFREDINOL



Ar y penwythnos olaf ychwanegwyd un adran newydd i'r gwerthusiad, gan wahodd pobl i fyfyrio ar eu profiad yn y Cynulliad yn gyffredinol. Roedd y cwestiynau'n ceisio mesur teimladau ac ymddygiadau aelodau'r Cynulliad wedi iddynt fod trwy broses y Cynulliad. Dengys y canlyniadau fod y profiad wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol i'r mwyafrif.

Ar gyfer y tri chwestiwn cyntaf (gweler y tabl isod) roedd canran cyfartalog o 98% o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n llwyr gyda datganiadau'r gwerthusiad. Mae hyn yn dystiolaeth glir o fwynhad a balchder yn y broses, gyda 100% o'r cyfranogwyr yn dweud wrth ffrindiau a theulu am eu rhan yn y Cynulliad.

| **1. Roedd cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl yn brofiad dymunol** | | | **2. Rwy'n falch fy mod wedi bod yn rhan o'r Cynulliad** | | | **3. Rwyf wedi dweud wrth fy ffrindiau/teulu/pobl eraill fy mod wedi bod yn rhan o'r Cynulliad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penwythnos 1** | | | **Penwythnos 2** | | | **Penwythnos 3** | | |
| | **Nif.** | **%** | | **Nif.** | **%** | | **Nif.** | **%** |
| Cytuno'n llwyr | 66 | 73% | Cytuno'n llwyr | 72 | 79% | Cytuno'n llwyr | 70 | 78% |
| Cytuno | 23 | 25% | Cytuno | 15 | 16% | Cytuno | 20 | 22% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 1% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Anghytuno | 0 | 0% | Anghytuno | 3 | 3% | Anghytuno | 0 | 0% |
| Anghytuno'n Llwyr | 0 | 0% | Anghytuno'n Llwyr | 0 | 0% | Anghytuno'n Llwyr | 0 | 0% |
| Ddim yn siŵr | 1 | 1% | Ddim yn siŵr | 1 | 1% | Ddim yn siŵr | 0 | 0% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **91** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **91** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **90** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

Pan ofynnwyd am eu rhesymau dros eu sgoriau, rhoddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr atebion cadarnhaol neu eithriadol o gadarnhaol. Nododd amryw pa mor drefnus oedd y penwythnos, gyda sylwadau'n cynnwys:

> Roedd y gwaith trefnu a'r hwyluso yn wych - gan ein galluogi i gasglu syniadau clir i'w rhoi ar waith yn dilyn llawer iawn o waith meddwl. Awgrymiadau (ac angerdd) gan grŵp amrywiol iawn o bobl."

> Wedi ei drefnu'n dda, yn ddefnyddiol ac yn teimlo bod y penwythnos wedi cael effaith arbennig.

> Wedi ei drefnu'n dda iawn, ac roedd yr hwyluswyr o gymorth mawr. Roedd y trafodaethau yn deg a chytbwys iawn hefyd, gan drin ag anghydfodau mewn ffordd aeddfed iawn.

> Yn ôl yr arfer roedd hi'n llawn i'r ymylon, ond wedi ei drefnu'n eithriadol o dda. Roedd llawer o waith i fynd trwyddo ond llwyddodd yr hwyluswyr i gadw pawb ar y trywydd cywir, fel arfer. Roedd hi'n braf cael cwrdd â phawb yn y cnawd unwaith eto.

**Cydweithredu** oedd yn bennaf gyfrifol am y sgoriau cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys cael hwyl a bod gyda phobl newydd wrth archwilio gwerthoedd cyffredin. Mwynhaodd yr ymatebwyr gwrdd â phobl gan werthfawrogi hynny, a gweithio gyda phobl na fyddent yn gweithio â nhw fel arfer. Er enghraifft:

> Wedi mwynhau siarad gyda chasgliad mor amrywiol o bobl, ynghylch pwnc mor bwysig..."

> Wedi cwrdd â phobl ddiddorol o gwmpas y DU a roddodd eu barn a gwrando ar eraill."

> Roedd yn brofiad cydweithredol gwych gydag amryw o bobl a oedd yn angerddol iawn. Wedi cael amser da er gwaethaf difrifoldeb y pwnc."

> Bu'n benwythnos prysur ond llawn goruchwyliaeth wych i adael pobl i rannu syniadau ac ati. I ddod ynghyd fel un llais."

> Roedd yn werth chweil o ran balchder wrth i mi allu cyfrannu, a llesiant a gefais yn sgil cwrdd â llawer o bobl newydd o'r un anian."

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y **broses** yn un esmwyth ac wedi ei gynnal yn dda, yn enwedig o ran sut y llwyddwyd i gasglu ynghyd yr holl waith ar draws y pedwar penwythnos. Roedd y rhesymau'n cynnwys y wybodaeth a gafwyd, ac ansawdd y wybodaeth honno, a'r hwyluso a'r eglurdeb a ddarparwyd. Bu pobl yn disgrifio pa mor falch, cadarnhaol a diolchgar yr oeddynt o gael gwahoddiad i gymryd rhan.

> Daethpwyd â phopeth ynghyd. Fforwm mor werth chweil ac ysbrydoledig. Diolch."

> Roedd y penwythnos hwn yn ddatblygiad cryno pleserus o bopeth a ddysgom ac a weithiom arno dros y penwythnosau blaenorol, roedd wir yn teimlo bod pawb wedi cael y lefel gywir o brofiad i allu trafod yn gyfforddus a rhannu eu barn ar y pynciau hyn."

> Mae'r penwythnos hwn wedi dod â'n holl waith ynghyd dros y 3 penwythnos diwethaf. Bu'n llawn gwybodaeth, ac mae mynd dros yr holl bynciau wedi bod yn wych."

Roedd aelodau'r cynulliad o'r farn bod **gweledigaeth y pwnc** yn ddifyr iawn, gan amlygu pwysigrwydd natur. Llwyddodd bod yn rhan o'r Cynulliad a'r cynnwys a gyflwynwyd i ysbrydoli pobl i gydweithio gan wneud iddynt deimlo y gallant wneud gwahaniaeth.

> Daeth i'r amlwg faint o wahaniaeth allwn ni fel pobl ei wneud. Roedd y gymuned a adeiladom yn wych.

> Wedi llwyddo i greu ymwybyddiaeth ynghylch pa mor bwysig yw natur."

Dywedodd pobl eraill fod y digwyddiad yn un cyfeillgar, cynhwysol a chynhyrchiol.

> Roedd yr egni mor gadarnhaol, ac roedd y trafodaethau'n rymusol."

> Bu'n brofiad mor anhygoel. Mae pawb ynghlwm wedi bod mor gynhwyso a chymaint o gymorth."

> Roedd yn gynhyrchiol iawn yn fy marn i. Criw gwych o bobl hefyd."

> Roedd y cyfarfodydd yn gynhwysol ac yn gynhyrchiol iawn. Roedd popeth mor gynnes a chyfeillgar wrth i ni ddod i adnabod ein gilydd yn eithaf da dros y 4 penwythnos!"

## OPTIMISTIG, OND YN BWYLLOG, YNGHYLCH POTENSIAL Y CYNULLIAD I GAEL EFFAITH AR Y BYD YN EHANGACH.

O ran yr ail gasgliad o gwestiynau, ynghylch potensial y Cynulliad i wneud gwir wahaniaeth yn fyd-eang, nid oedd pobl mor sicr. Yma, mae'r ganran gyfartalog o bobl sy'n cytuno neu'n cytuno'n llwyr gyda datganiadau'r gwerthusiad, yn gostwng i 89%

Cytunodd 98% o'r ymatebion neu gytuno'n llwyr ei bod hi'n bwysig cael cynllun ar gyfer natur. Cytunodd 93% o aelodau'r Cynulliad hefyd, neu gytuno'n llwyr, bod cael cynllun ar gyfer natur a ysgrifennir gan bobl o bob cefndir, yn cynnig galwad pwerus i fynnu newid.

Fodd bynnag, roedd ffigwr is o 77% yn hyderus y bydd cynllun ar gyfer natur yn gwneud gwahaniaeth. Er bod hwn yn fwyafrif arwyddocaol, mae'n werth nodi y daw gwerth Cynllun Natur y Bobl o'i weithrediad, a heb ddilyniant effeithiol, bydd aelodau'r Cynulliad yn teimlo nad yw eu hymdrechion wedi gwneud gwahaniaeth.



| 4. Mae'n bwysig bod yna gynllun ar gyfer natur | | | 5. Mae cael cynllun ar gyfer natur wedi'i ysgrifennu gan bobl o bob cefndir yn ei wneud yn alwad pwerus ar gyfer newid | | | 6. Rwy'n hyderus y bydd y cynllun ar gyfer natur yn gwneud gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penwythnos 4 | | | Penwythnos 4 | | | Penwythnos 4 | | |
| **C2** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** | **C1a** | **Nif.** | **%** |
| Cytuno'n llwyr | 83 | 92% | Cytuno'n llwyr | 70 | 77% | Cytuno'n llwyr | 34 | 40% |
| Cytuno | 5 | 6% | Cytuno | 15 | 16% | Cytuno | 31 | 37% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 1% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 3% | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 | 13% |
| Anghytuno | 1 | 1% | Anghytuno | 2 | 2% | Anghytuno | 3 | 4% |
| Anghytuno'n Llwyr | 0 | 0% | Anghytuno'n Llwyr | 0 | 0% | Anghytuno'n Llwyr | 1 | 1% |
| Ddim yn siŵr | 0 | 0% | Ddim yn siŵr | 1 | 1% | Ddim yn siŵr | 4 | 5% |
| **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **90** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **91** | 100% | **Cyfanswm y Gwerthusiadau** | **84** | 100% |

*D.S. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio pob penwythnos ac ni wnaeth pawb gwblhau arolwg gwerthuso. O'r rhai a wnaeth, ni atebwyd pob cwestiwn, sy'n egluro'r anghysondeb yn y data.*

# 6.2 Agwedd Aelodau'r Cynulliad tuag at gymryd rhan yng Nghynllun Natur y Bobl

Gan ddatblygu ar y gobeithion a fynegodd aelodau'r Cynulliad y byddai'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth, ar ddiwedd y penwythnos olaf gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr rannu eu barn am barhau i fod ynghlwm â'r prosiect Wild Isles ehangach a gweithredu fel hwyluswyr ar gyfer Cynllun Natur y Bobl.

Cynigwyd amrywiaeth o gyfleoedd posibl i fesur diddordeb aelodau'r Cynulliad yng nghwahanol fathau o ymglymiad parhaus. Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio syniadau eraill am ffyrdd yr hoffent barhau i fod ynghlwm. Llenwyd yr arolwg yn ddienw, felly nid oedd yn ymrwymo unigolion i weithredoedd penodol o gwbl. Cwblhaodd 96 o aelodau'r Cynulliad y rhan hon o'r arolwg.



## DIDDORDEB MEWN GWEITHREDU YMARFEROL PARHAUS

Pan ofynnwyd iddynt i barhau i archwilio ffyrdd i amddiffyn ac adfer natur gartref, yn y gwaith neu'r gymuned leol, dywedodd y rhan fwyaf o bobl (84%) y byddai ganddynt ddiddordeb, gyda 10% arall yn dweud efallai y byddai ganddynt ddiddordeb.

**Canfod yr hyn y gallwch chi ei wneud eich hunan i amddiffyn ac adfer natur gartref, yn y gwaith neu yn eich cymuned leol**

| | Byddai gennyf ddiddordeb | Efallai y byddai gennyf ddiddordeb | Ni fyddai gennyf ddiddordeb | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 81 | 10 | 2 | 3 |

## PETH DIDDORDEB MEWN CYMRYD RHAN MEWN LOBÏO EHANGACH

Pan ofynnwyd am gysylltu â swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol i helpu i ennill cefnogaeth tuag at amddiffyn ac adfer natur, dywedodd 54% o'r ymatebwyr y byddai ganddynt ddiddordeb a dywedodd 24% efallai y byddai ganddynt ddiddordeb.

**Cysylltu â swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol, ac eraill, i helpu i ennill cefnogaeth tuag at amddiffyn ac adfer natur.**

| | Byddai gennyf ddiddordeb | Efallai y byddai gennyf ddiddordeb | Ni fyddai gennyf ddiddordeb | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 52 | 33 | 7 | 4 |

## LLAI O AELODAU YN FODLON SIARAD Â'R CYFRYNGAU, ER Y CYNYDDODD HYN WRTH I'R CYNULLIAD FYND RHAGDDO



Cafwyd ystod ehangach o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 44% o gyfranogwyr yn mynegi diddordeb clir a 24% yn mynegi diddordeb posibl mewn siarad â newyddiadurwyr a'r cyfryngau i helpu i ennill cefnogaeth tuag at Gynllun Natur y Bobl. I'r gwrthwyneb, dywedodd bron i draean o aelodau'r Cynulliad nad oedd ganddynt ddiddordeb ymwneud â'r cyfryngau. Wedi dweud hynny, pan gynigwyd cefnogaeth gan gynrychiolwyr o'r tair elusen sy'n noddi yn ogystal â'r cynnig o gefnogaeth barhaus, datblygodd mwyfwy o bobl ddiddordeb wrth i brose y Cynulliad fynd rhagddi.

**Siarad â newyddiadurwyr a'r cyfryngau i helpu i ennill cefnogaeth tuag at Gynllun Natur y Bobl**

| | Byddai gennyf ddiddordeb | Efallai y byddai gennyf ddiddordeb | Ni fyddai gennyf ddiddordeb | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 42 | 23 | 27 | 4 |

## PETH DDIDDORDEB MEWN CODI YMWYBYDDIAETH CYFOED-I-GYFOED



Cafwyd patrwm cyffelyb o ymatebion mewn perthynas â'r opsiwn o ddysgu sut mae cynnal cyfarfod anffurfiol i roi cyfle i eraill ddysgu am rai o'r materion a godwyd yn y Cynulliad, a'u trafod. Er y dywedodd dros ddau draean o aelodau'r Cynulliad y byddai ganddynt ddiddordeb (43%) neu efallai y byddai ganddynt ddiddordeb (24%), dywedodd ychydig yn is na thraean (28%) na fyddai ganddynt ddiddordeb. Yn yr un modd â'r opsiwn o ymwneud â'r cyfryngau, awgryma arsylwadau empirig yn y digwyddiad y byddai angen syniad mwy eglur ar gyfranogwyr o beth fyddai ynghlwm â hynny a'r gefnogaeth ar gael, er mwyn dod yn fwy cyfarwydd â'r opsiwn 'cyfarfodydd' ac felly datblygu mwy o ddiddordeb ynddo.

**Dysgu sut mae cynnal cyfarfod anffurfiol i roi cyfle i eraill ddysgu am rai o'r materion a godwyd yn y Cynulliad, a'u trafod**

| | Byddai gennyf ddiddordeb | Efallai y byddai gennyf ddiddordeb | Ni fyddai gennyf ddiddordeb | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 41 | 23 | 27 | 5 |

## CADW MEWN CYSYLLTIAD:

Roedd gan aelodau'r Cynulliad agwedd gadarnhaol at gadw mewn cysylltiad â'r naill a'r llall ar-lein ac oddi ar-lein, er enghraifft drwy aduniad "blwyddyn yn ddiweddarach", gyda 73% yn dweud y byddai ganddynt ddiddordeb yn y syniad hwn. Dywedodd 20% arall efallai y byddai ganddynt ddiddordeb.

**Cwrdd gyda chyd-aelodau'r Cynulliad, ar-lein neu oddi ar-lein, er enghraifft ar gyfer aduniad blwyddyn yn ddiweddarach**

| | Byddai gennyf ddiddordeb | Efallai y byddai gennyf ddiddordeb | Ni fyddai gennyf ddiddordeb | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 70 | 19 | 4 | 3 |

## CYFLWYNODD AELODAU EU SYNIADAU EU HUNAIN HEFYD

Roedd y cwestiwn olaf yn gwahodd aelodau'r Cynulliad i rannu awgrymiadau o gyfleoedd eraill y byddai ganddynt ddiddordeb ynddynt.

- Roedd gan ddau unigolyn awydd olrhain cyfleoedd gwirfoddol, un yn wirfoddolwr ar gyfer prosiectau cyffelyb a'r llall mewn grŵp penodol i sefydlu label safonau bwyd.
- Mynegodd bedwar unigolyn ddiddordeb mewn sut ellir hyrwyddo'r gwaith, yn cynnwys podlediad Cynllun y Bobl (dau awgrym) a deunyddiau eraill ar gyfer hyrwyddo ar amrywiol lwyfannau cyfryngau.

> **"Creu podlediad gydag aelodau eraill y Cynulliad i drafod y Cynulliad a sut all eraill wneud mwy."**

- Awgrymodd pum unigolyn ffyrdd o gadw mewn cysylltiad, gan gynnwys Facebook (dau awgrym) a pharti Nadolig blynyddol, a chynulliadau a chyfarfodydd rheolaidd neu barhaol (dau awgrym).

> **"Bod yn rhan o 'Gynulliad Natur y Bobl' parhaol a datblygu cysylltiadau lleol/rhanbarthol."**

- Roedd saith unigolyn eisiau derbyn y diweddaraf o ran cynnydd, o bersbectif y gweithredoedd y mae cyfranogwyr yn eu cymryd a chynnydd ehangach hefyd ynghlwm â'r datganiadau a adnabuwyd yng Nghynllun y Bobl.

> **"Yn achos 'Seiliedig ar dystiolaeth', a allem ni ddod i wybod am brosiectau sy'n gweithio yn ystod y flwyddyn nesaf? A hefyd cysylltiadau â deddfwriaeth cyrff anllywodraethol sy'n cael eu trafod - beth sy'n cael ei basio - er budd Natur."**

> **"Ble mae'r datganiadau yn mynd? A allwn ni weld adborth ar gynigion. Y wybodaeth uchod ar ffurf sgwrs syml: e.e. newyddiaduron; pa bapurau etc..."**

> **"Negeseuon e-bost rheolaidd yn nodi cynnydd, trafferthion ac unrhyw wybodaeth ynghylch ffyrdd parhaus o gymryd rhan."**

> **"Gwybodaeth reolaidd drwy'r fewnrwyd ynghylch sut mae'r cynllun yn llwyddo."**



# 6.3 Yr effaith ar aelodau'r Cynulliad

Nid pwrpas Cynulliad Natur y Bobl oedd gofyn i aelodau'r Cynulliad newid unrhyw beth ynghylch yr hyn maent yn ei feddwl neu yn ei wneud yn eu bywydau eu hunain. Fodd bynnag, o ymchwil flaenorol[3] gwelir y gall cymryd rhan mewn cynulliad dinasyddol fel Cynulliad Natur y Bobl arwain at bobl yn gwneud y mathau hyn o newidiadau. Arweiniodd hyn at chwilfrydedd ynghylch a fyddai cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl yn effeithio ar agweddau ac ymddygiadau y rhai a gymerodd ran.

I asesu hyn, gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad gwblhau arolygon byr ac union yr un fath fwy neu lai ar ddechrau'r penwythnos cyntaf ac ar ddiwedd y penwythnos olaf.

Cwblhawyd arolwg Penwythnos 1 gan 105 o aelodau'r Cynulliad (DS dim ond 103 o gyfranogwyr oedd yn weddill drwy'r Cynulliad cyfan), tra cwblhawyd arolwg Penwythnos 4 gan 95 ohonynt.

Ar yr un pryd[4], cynhaliodd YouGov bleidlais ar rai o gwestiynau'r arolwg[5]. Pwrpas y bleidlais oedd cymharu atebion aelodau'r Cynulliad gyda rhai y cyhoedd, i fesur unrhyw newidiadau a fyddai wedi digwydd p'run bynnag o ran ysbryd y cyhoedd, gan felly ganfod i ba raddau y byddai cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl wedi newid barn aelodau'r Cynulliad.

O ganlyniadau'r arolwg gwelwyd bod cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl wedi arwain at newidiadau yng ngwybodaeth aelodau'r Cynulliad ynghylch natur a'u barn o ran pwy all wneud gwahaniaeth i ac sydd â chyfrifoldeb dros, warchod ac adfer natur yn y DU.

Awgryma'r canlyniadau hefyd bod cymryd rhan yn y Cynulliad wedi newid y graddau y mae aelodau'r Cynulliad yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â natur. Lle ceir data pleidleisio cymariaethol YouGov, gellir dod i gasgliad yn hyderus bod y newidiadau hyn wedi digwydd oherwydd cyfranogiad aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Natur y Bobl, gan nad oedd yr un o'r newidiadau hyn wedi dod i'r amlwg ymysg y cyhoedd yn gyffredinol.

Nid yw cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl wedi cael effaith ar ymddygiadau gwleidyddol mwy cyffredinol aelodau'r Cynulliad hyd yma.



[3] https://involve.org.uk/sites/default/files/field/attachemnt/CAUK%20Eval%20AM%20Report%20FINAL.pdf

[4] Cynhaliwyd y ddau arolwg YouGov rhwng 11-14 Tachwedd 2022 a rhwng 3-6 Chwefror 2023 yn y drefn honno.

[5] Cafwyd sampl o 1733 o oedolion o'r DU yn yr arolwg YouGov cyntaf. Cafwyd sampl o 2115 o oedolion o'r DU yn yr ail arolwg.

# CYNNYDD MEWN GWYBODAETH AM NATUR

Gofynnom i aelodau'r Cynulliad i hunan-adrodd eu gwybodaeth am natur yn yr arolygon. Gofynnom gwestiynau ffeithiol iddynt hefyd i weld a oedd eu gwybodaeth wedi newid.

Yn gyffredinol, hunan-adroddodd aelodau'r Cynulliad gynnydd yn eu gwybodaeth am natur yn ystod y Cynulliad. Ar ddechrau'r Cynulliad, dywedodd 34% o'r cyfranogwyr eu bod yn gwybod 'tipyn' neu 'gryn dipyn' am natur yn y DU. Erbyn diwedd y Cynulliad, roedd hyn wedi cynyddu i 67%. Ar yr un pryd, roedd y nifer o aelodau'r Cynulliad a ddywedodd eu bod yn gwybod 'prin ddim' am natur yn y DU, wedi disgyn o 18% i 3%.

**Tabl 1: Faint, os o gwbl, fyddech chi'n ei ddweud yr ydych chi'n ei wybod am natur yn y DU?**

| Opsiynau ateb | Penwythnos 1 | Penwythnos 4 |
|---|---|---|
| Rwy'n gwybod llawer am natur yn y DU | 5% | 13% |
| Rwy'n gwybod cryn dipyn am natur yn y DU | 29% | 54% |
| Rwy'n gwybod ychydig bach am natur yn y DU | 39% | 24% |
| Rwy'n gwybod prin ddim am natur yn y DU | 18% | 3% |
| Nid wyf yn gwybod / ansicr | 6% | 1% |
| Heb ymgysylltu | 3% | 5% |

Fel grŵp, mae'r tri chwestiwn ffeithiol a ofynnom i aelodau'r Cynulliad hefyd yn ategu eu cred bod eu gwybodaeth am natur wedi cynyddu.

Roedd cyfanswm y ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' (yr ateb cywir) gyda'r datganiad "Mae fy ngwlad wedi colli canran uwch o'i natur a bywyd gwyllt na bron pob gwlad arall yn y byd", wedi codi o 30% ym Mhenwythnos 1 i 67% ym Mhenwythnos 4. Ar yr un pryd, bu i'r ganran a 'anghytunodd yn gryf' neu 'anghytunodd' ostwng o 20% i 8%, a disgynnodd y ganran a ddywedodd nad oeddynt yn gwybod, o 23% i 1%.



**Tabl 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae fy ngwlad wedi colli canran uwch o'i natur a bywyd gwyllt na bron pob gwlad arall yn y byd."**

| Opsiynau ateb | Penwythnos 1 | Penwythnos 4 |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 11% | 34% |
| Cytuno | 19% | 33% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 23% | 20% |
| Anghytuno | 14% | 7% |
| Anghytuno'n gryf | 6% | 1% |
| Nid wyf yn gwybod | 23% | 1% |
| Heb ymgysylltu | 4% | 4% |

Mae'r ddau gwestiwn ffeithiol arall yn cynnig data llai defnyddiol, gan fod y rhan helaeth o aelodau'r Cynulliad eisoes wedi cynnig atebion cywir i'r cwestiynau hyn ym Mhenwythnos 1. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' gyda "mae angen natur arnom gan ddibynnu arni" rhwng Penwythnos 1 a Phenwythnos 4 (84-87%). Dim ond gwahaniaeth bach oedd yn y ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' gyda "rydym yn rhan o natur": cododd hyn rhyw fymryn o 80% ym Mhenwythnos 1 ac 89% ym Mhenwythnos 4.



## FE NEWIDIODD Y FARN AR BWY ALLAI WNEUD GWAHANIAETH WRTH ADFER A GWARCHOD NATUR

Newidiodd barn aelodau'r Cynulliad ynghylch faint o wahaniaeth allai gwahanol gyfranogwyr ei wneud i'r ymdrechion i adfer a gwarchod natur yn DU, yn ystod y Cynulliad. Gofynnwyd iddynt am saith cyfranogwr gwahanol: Llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol, busnesau, elusennau a sefydliadau eraill (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF), unigolion ymysg y cyhoedd a chymunedau lleol.

**Erbyn diwedd y Cynulliad:**

- Yn gyffredinol, teimlai'r aelodau y gallai'r holl gyfranogwyr wneud mwy o wahaniaeth i'r ymdrechion i adfer a gwarchod natur nag a wnaethant ar ddechrau'r Cynulliad. Gwelodd bob un o'r saith cyfranogwr gynnydd rhwng 14% (elusennau) a 34% (busnes) yn y nifer o aelodau'r Cynulliad a oedd o'r farn y gallent wneud 'gwahaniaeth mawr'.
- Roedd aelodau'r Cynulliad yn credu'n gryf y gallai Llywodraeth y DU (86%) a llywodraethau datganoledig (78%) wneud 'gwahaniaeth mawr'. Roedd hyn o'i gymharu â 43% a 66% ar gyfer y cyfranogwyr eraill. Er mai'r ddau gyfranogwr yma oedd y rhai y credai aelodau'r Cynulliad yn gyson y gallent wneud y gwahaniaeth mwyaf, roedd y gwahaniaeth rhwng y cyfranogwyr hyn ac eraill yn llawer iawn is ym Mhenwythnos 1.
- Dim ond 5% yn llai o aelodau'r Cynulliad deimlai y gallai llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol, busnesau ac elusennau wneud dim ond 'ychydig iawn o wahaniaeth' neu 'ddim gwahaniaeth o gwbl'. Yr unig gyfranogwr lle gwelwyd bod hyn yn wir oedd ym Mhenwythnos 1 ar gyfer elusennau. Ar gyfer y gweddill, roedd ffigyrau cymharol Penwythnos 1 yn amrywio o 9% (llywodraethau datganoledig) i 20% (llywodraeth leol a busnesau).

Mae pleidlais YouGov yn dangos na fu newid ym marn y boblogaeth ehangach ar y cwestiynau hyn, yn ystod y Cynulliad. Golyga hyn y gallwn fod yn hyderus fod y newidiadau a adroddwyd arnynt uchod yn deillio o gyfranogiad aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Natur y Bobl.

Un elfen na welwyd newid ynddi yn ystod y Cynulliad oedd bod aelodau'r Cynulliad, yn gyffredinol yn parhau i fod ychydig yn llai hyderus ynghylch gallu unigolion neu gymunedau lleol i effeithio ar y newid o'i gymharu â chyfranogwyr eraill. Dywedodd 16% o aelodau'r Cynulliad a ymatebodd i arolwg Penwythnos 4, eu bod yn credu y gallai unigolion wneud 'ychydig yn unig' neu 'ddim' gwahaniaeth wrth ymdrechu i adfer a gwarchod natur yn y DU, tra roedd y ffigwr ar gyfer cymunedau lleol yn 13%. Fodd bynnag, mae hyn yn cymharu â ffigyrau o 34% a 25% ym Mhenwythnos 1, gan ddangos newid barn sylweddol o gadarnhaol. Mae hefyd yn llawer iawn is na'r ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd, erbyn Penwythnos 4, o'r farn y gallai unigolion a chymunedau lleol wneud gwahaniaeth mawr (43% a 44%) neu wahaniaeth arwyddocaol (38% a 40%).

**Tabl 3: Faint o wahaniaeth yn eich barn chi, os o gwbl, all y bobl neu'r grwpiau canlynol ei wneud i'r ymdrechion i adfer a gwarchod natur yn DU?**

| | Gwahaniaeth mawr | Gwahaniaeth arwyddocaol | Ychydig o wahaniaeth yn unig | Dim gwahaniaeth o gwbl | Nid wyf yn gwybod | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth y DU** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 68% | 17% | 10% | 1% | 0% | 5% |
| Penwythnos 4 | 86% | 8% | 2% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 18% | -9% | -8% | -1% | 0% | -2% |
| **Llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 49% | 34% | 9% | 0% | 4% | 5% |
| Penwythnos 4 | 78% | 19% | 0% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 29% | -15% | -9% | 0% | -4% | -2% |
| **Llywodraeth leol** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 43% | 30% | 20% | 0% | 2% | 6% |
| Penwythnos 4 | 59% | 35% | 3% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 16% | 5% | -17% | 0% | -2% | -3% |
| **Busnesau** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 32% | 43% | 17% | 3% | -2% | 3% |
| Penwythnos 4 | 66% | 25% | 5% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 34% | -18% | -12% | -3% | -2% | 0% |
| **Elusennau a sefydliadau eraill (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF)** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 46% | 46% | 3% | 0% | 1% | 5% |
| Penwythnos 4 | 60% | 36% | 2% | 0% | 0% | 2% |
| Gwahaniaeth | 14% | -10% | -1% | 0% | -1% | -3% |
| **Aelod unigol o'r cyhoedd** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 24% | 36% | 30% | 4% | 2% | 5% |
| Penwythnos 4 | 43% | 38% | 15% | 1% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 19% | 2% | -15% | -3% | -2% | -2% |
| **Cymunedau lleol** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 28% | 43% | 24% | 1% | 1% | 4% |
| Penwythnos 4 | 44% | 40% | 13% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 16% | -3% | -11% | -1% | -1% | -1% |

# BARN WEDI NEWID AR BWY SYDD Â CHYFRIFOLDEB AM WARCHOD AC ADFER NATUR

- Newidiodd barn aelodau'r Cynulliad ynghylch faint o gyfrifoldeb sydd gan wahanol gyfranogwyr am warchod ac adfer natur yn DU, yn ystod y Cynulliad. Unwaith eto, gofynnwyd iddynt am saith cyfranogwr gwahanol: Llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol, busnesau, elusennau a sefydliadau eraill (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF), unigolion ymysg y cyhoedd a chymunedau lleol.
- Yn gyffredinol daeth aelodau'r Cynulliad i'r casgliad ar ddiwedd y Cynulliad fod gan y cyfranogwyr hyn fwy o gyfrifoldeb am adfer a gwarchod natur yn y DU, na'u barn ar ddechrau'r arolwg. Erbyn diwedd y Cynulliad, roedd y ganran o aelodau'r Cynulliad a deimlai fod gan y cyfranogwyr 'gyfrifoldeb mawr' wedi cynyddu 24% (busnesau), 16% (llywodraeth leol), 12% (cymunedau lleol), 11% (llywodraethau datganoledig), 10% (unigolion), 9% (elusennau) a 5% (llywodraeth y DU).
- Cafwyd y newid mwyaf mewn barn ynghylch cyfrifoldeb busnesau. Cododd y ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd o'r farn fod gan fusnesau 'gyfrifoldeb mawr' am adfer a gwarchod natur 24% fel y disgrifiwyd uchod, tra roedd y ganran a oedd o'r farn mai 'bach' oedd y cyfrifoldeb neu 'ddim o gwbl' wedi gostwng o 16% i 0%.
- Mae pleidlais YouGov yn dangos na fu newid ym marn y boblogaeth ehangach ar y cwestiynau hyn, yn ystod y Cynulliad. Awgryma hyn bod y newidiadau a adroddwyd arnynt uchod yn deillio o gyfranogiad aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Natur y Bobl.
- Yr hyn na newidiodd yn ystod y Cynulliad oedd y cyfranogwyr a oedd â'r cyfrifoldeb mwyaf ym marn aelodau'r Cynulliad am warchod ac adfer natur. A'r cyfranogwyr hyn oedd llywodraeth y DU, ac yna llywodraethau datganoledig i ddilyn ac yna llywodraeth leol.
- Roedd y nifer helaeth o aelodau'r Cynulliad o'r farn hefyd o gychwyn cyntaf y Cynulliad, fod gan bob un o'r cyfranogwyr 'gyfrifoldeb arwyddocaol' i adfer a gwarchod natur. Ym Mhenwythnos 1, teimlai rhwng 80% a 94% o aelodau'r Cynulliad fod gan bob cyfranogwr 'gyfrifoldeb arwyddocaol' i adfer a gwarchod natur. Y ffigyrau cymharol ar gyfer Penwythnos 4 oedd 85% 98%.



**Tabl 4: Faint o wahaniaeth yn eich barn chi, os o gwbl, sydd gan y bobl neu'r grwpiau canlynol am adfer a gwarchod natur yn DU?**

| | Cyfrifoldeb mawr | Cyfrifoldeb arwyddocaol | Ychydig o gyfrifoldeb yn unig | Dim cyfrifoldeb o gwbl | Nid wyf yn gwybod | Heb ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth y DU** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 84% | 10% | 2% | 1% | 0% | 3% |
| Penwythnos 4 | 89% | 7% | 0% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 5% | -3% | -2% | -1% | 0% | 0% |
| **Llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 73% | 16% | 2% | 1% | 4% | 4% |
| Penwythnos 4 | 84% | 14% | 0% | 0% | 0% | 2% |
| Gwahaniaeth | 11% | -2% | -2% | -1% | -4% | -2% |
| **Llywodraeth leol** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 57% | 36% | 3% | 1% | 0% | 3% |
| Penwythnos 4 | 73% | 22% | 2% | 0% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 16% | 14% | -1% | -1% | 0% | 0% |
| **Busnesau** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 42% | 38% | 15% | 1% | 1% | 3% |
| Penwythnos 4 | 66% | 29% | 0% | 1% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 24% | -9% | -15% | 0% | -1% | 0% |
| **Elusennau a sefydliadau eraill (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF)** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 50% | 38% | 8% | 1% | 0% | 3% |
| Penwythnos 4 | 59% | 31% | 7% | 1% | 0% | 2% |
| Gwahaniaeth | 9% | -7% | -1% | 0% | 0% | -1% |
| **Aelod unigol o'r cyhoedd** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 37% | 44% | 15% | 0% | 1% | 3% |
| Penwythnos 4 | 47% | 38% | 11% | 1% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 10% | -6% | -4% | 1% | -1% | 0% |
| **Cymunedau lleol** | | | | | | |
| Penwythnos 1 | 36% | 52% | 8% | 0% | 0% | 4% |
| Penwythnos 4 | 48% | 39% | 7% | 1% | 0% | 3% |
| Gwahaniaeth | 12% | -13% | -1% | 1% | 0% | -1% |

## CYNNYDD BACH MEWN YMDDYGIADAU'N GYSYLLTIEDIG Â NATUR

Gofynnwyd i aelodau'r Cynulliad, tua pa mor aml yr oeddent wedi cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau'n ymwneud â natur dros y 12 mis diwethaf. Gan fod Cynulliad Natur y Bobl wedi para pedwar mis yn unig, nid oeddem yn sicr a fyddem yn gweld newid arwyddocaol yn yr atebion hyn rhwng dechrau a diwedd y Cynulliad. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn trin y canlyniadau hyn yn ofalus, oherwydd fe allent adlewyrchu sut yr hoffai aelodau'r Cynulliad gyfleu eu gweithrediadau, yn hytrach na newidiadau i'r gweithrediadau eu hunain. Yn olaf, lle mae'r newidiadau mewn canrannau'n is, ac o ystyried y nifer isel o aelodau'r Cynulliad a oedd ynghlwm, rhaid i ni fod yn bwyllog a gofalus o ran dibynadwyedd ystadegol y canlyniadau — yn enwedig lle nad oes data i'w gymharu o gynulliadau eraill.

**Wedi dweud hynny, mae'r arolygon yn awgrymu cynnydd yn rhai o'r ymddygiadau yn ymwneud â natur, a oedd yn destun ein cwestiynau yn y Cynulliad. Cynyddodd y ganran o aelodau'r Cynulliad a adroddodd 'yn aml' wrth wneud y gweithgareddau canlynol o:**

- Darllen gwybodaeth am y byd naturiol (e.e. ar-lein, mewn llyfrau, mewn papurau newydd) (12%)
- Siarad am natur neu fywyd gwyllt gyda theulu neu ffrindiau (11%)
- Gwylio neu wrando ar raglenni natur ar y teledu neu ar y radio (8%)
- Mynd ati i helpu natur neu fywyd gwyllt yn eich gardd, rhandir, balconi neu fan arall awyr agored sy'n perthyn i chi (7%)

Mae hyn yn unol ag adborth cyffredinol gan gynulliadau dinasyddion eraill, yn enwedig o ran aelodau'r Cynulliad yn cychwyn dysgu gwybodaeth am bwnc y Cynulliad a siarad amdano ymhellach gyda theulu a ffrindiau yn ystod cyfnod y Cynulliad. Mae hefyd yn cael ei gefnogi gan ddata arolwg "un flwyddyn yn ddiweddarach" gan brosesau cynulliadau dinasyddion eraill, sy'n dangos aelodau'r Cynulliad yn gwneud newidiadau i'w bywydau eu hunain er mwyn cefnogi newid.[6]

Gwelwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth yn y ganran o aelodau'r Cynulliad a oedd wedi "cysylltu â gwleidydd ynghylch adfer a gwarchod natur neu fywyd gwyllt" neu a oedd wedi "cyfrannu at sefydliad amgylcheddol neu natur." Mae angen rhagor o waith dadansoddi ynghylch data a gasglwyd am "arwyddo deiseb ynghylch adfer neu warchod natur a bywyd gwyllt" a "gwneud gwaith di-dâl gwirfoddol i gefnogi natur neu fywyd gwyllt yn eich ardal leol" er mwyn profi ei ddibynadwyedd.

## DIM NEWID (HYD YMA?) I AGWEDDAU AC YMDDYGIADAU GWLEIDYDDOL CYFFREDINOL AELODAU'R CYNULLIAD

Ceir rhai awgrymiadau mewn llenyddiaeth y gallai cymryd rhan mewn cynulliadau dinasyddion a gomisiynwyd gan sefydliadau democrataidd ffurfiol, fel seneddau, gael effaith ar farn aelodau'r Cynulliad ar y system wleidyddol a'u hymddygiadau gwleidyddol.[7] Ni chomisiynwyd Cynulliad Natur y Bobl gan y sefydliadau hyn ac efallai, ac sydd i'w ddisgwyl efallai, nid yw canlyniadau'r arolwg felly'n dangos (hyd yma) unrhyw effaith ar ymddygiadau gwleidyddol cyffredinol aelodau'r Cynulliad. Roedd y ganran o aelodau'r Cynulliad sy'n dweud eu bod wedi gwneud y canlynol dros y deuddeg mis diwethaf tua'r un fath ar ddiwedd y Cynulliad ag yr oedd ar y cychwyn:

- Wedi arwyddo deiseb
- Wedi mynychu protest neu rali
- Cysylltu â gwleidydd (e.e. AS, AS San Steffan, MLA, MSP neu Gynghorydd Lleol)
- Wedi prynu neu droi cefn ar gynnyrch neilltuol am resymau gwleidyddol, moesol neu amgylcheddol
- Pleidleisio mewn etholiad
- Wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol
- Gwirfoddoli neu gynnig help di-dâl

Mae'r effaith y gallai cymryd rhan yng Nghynulliad Natur y Bobl fod wedi ei gael ar farn aelodau'r Cynulliad ar y system wleidyddol yn ansicr o'r ymatebion i'r arolwg. Mae peth awgrym bod y ganran o aelodau'r Cynulliad a 'gytunodd yn gryf' gyda'r datganiad "Nid yw gwleidyddion yn poeni beth yw barn pobl fel fi", wedi gostwng yn ystod y Cynulliad. Fodd bynnag, gan oedd hwn yn un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn y bleidlais YouGov, mae'n amhosib bod yn sicr a gafodd hyn ei achosi gan gyfranogiad yn y Cynulliad ynteu a ydyw'n duedd ar draws y boblogaeth gyfan. Mae angen profion pellach hefyd o'r canlyniadau i gadarnhau dibynadwyedd y canfyddiadau hyn.



[6] https://involve.org.uk/sites/default/files/field/attachemnt/CAUK%20Eval%20AM%20Report%20FINAL.pdf

[7] https://involve.org.uk/sites/default/files/field/attachemnt/CAUK%20Eval%20AM%20Report%20FINAL.pdf

# 6.4 Casgliad: Effaith y Cynulliad

Dengys canlyniadau'r arolwg y cafodd aelodau'r Cynulliad brofiad cadarnhaol yn gyffredinol wrth gymryd rhan yn y Cynulliad, ac y llwyddodd i newid eu barn a'u gwybodaeth bersonol. Tra dylid sicrhau'r partneriaid darparu eu bod wedi creu proses bleserus a llawn egni ar gyfer pawb a oedd ynghlwm, rhaid i brofiad cynulliad dinasyddol fynd ymhellach na phrofiadau cadarnhaol y dydd. Wedi dweud hynny, gellir hefyd ystyried profiad cadarnhaol aelodau'r Cynulliad fel procsi ar gyfer Cynulliad cadarnhaol a chynhwysol. Yn amlwg, clywyd amryw o wahanol leisiau a barn aelodau'r Cynulliad yw bod y cyfraniadau wedi'u gwerthfawrogi, sy'n dangos bod y Cynulliad wir wedi ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau, gan wneud ei argymhellion yn gwbl adlewyrchol o'r ystod barn yn y DU heddiw.

O'i gymharu â'r sampl rheoli, roedd cymryd rhan yn y Cynulliad yn cael effaith ar wybodaeth Aelodau'r Cynulliad o natur, eu barn am bwy ddylai fod yn rhan o ddiogelu ac adfer natur yn y DU, ac ar eu cyfranogiad eu hunain mewn gweithgareddau'n ymwneud â natur. Cafodd effaith hefyd ar eu cyfranogiad mewn rhai gweithgareddau yn ymwneud â natur.

Mae'r canlyniadau hyn ond yn cwmpasu yr effaith ar aelodau'r Cynulliad yn ystod y Cynulliad ei hun. Byddai arolwg "blwyddyn yn ddiweddarach" yn ein galluogi i weld a yw'r newidiadau hyn yn cael eu cynnal dros gyfnod hirach ai peidio, a pha newidiadau eraill sy'n digwydd, nawr bod aelodau'r Cynulliad wedi cwblhau eu proses Cynulliad cychwynnol.

Mae'r canlyniadau hefyd yn amlygu'r potensial i gefnogi aelodau'r Cynulliad i gael rhan fwy blaenllaw mewn gweithredoedd a gweithgareddau'n ymwneud â natur, gan gynnwys eiriolaeth ac ymgyrchu o fewn y Cynulliad. Maent yn awgrymu bod Cynulliad Natur y Bobl wedi newid rhai elfennau o ran sut mae aelodau'r Cynulliad yn ystyried natur, a'r ymdrechion i'w hadfer a'i gwarchod: maent yn optimistig, ond yn bwyllog wrth feddwl sut y gellir rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Gosodwyd y llwyfan ar gyfer gwaith ymgyrchu ehangach a gellir gwerthuso rôl aelodau'r Cynulliad mewn hyn yn ystod y misoedd nesaf.



# Atodiadau

## **Atodiad 1:** Pwy gymerodd ran yn y Cynulliad?

### RECRIWTIO A DETHOL

Ymgymerwyd â'r gwaith o recriwtio cyfranogwyr gan y Sefydliad Sortition, menter gymdeithasol, nid er elw, sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo prosesau cydgynghorol teg, tryloyw, cynhwysol ac effeithiol drwy sicrhau cynrychiolaeth gywir a hapsamplu yn ystod y broses recriwtio. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pob trigolyn mewn un ardal fod â'r un tebygolrwydd o gael gwahoddiad i gymryd rhan. Roedd elfennau allweddol y dull fel a ganlyn:

- Ar ddiwedd mis Medi 2022, anfonwyd 33,000 o wahoddiadau i gymryd rhan i aelwydydd ledled y DU.  Dewiswyd yr aelwydydd ar hap o'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF), y gronfa ddata cyfeiriadau post mwyaf cyflawn a chyfoes yn y DU.  Cyhoeddwyd y gwahoddiad mewn amlen addysgiadol a deniadol a oedd wedi'i dylunio'n arbennig (gyda brand Partneriaeth Cynllun Natur y Bobl) i dynnu sylw at y cynnwys, ac roedd yn cynnwys taflen Cwestiynau Cyffredin a chod cofrestru unigol i'w ddefnyddio i ddatgan diddordeb mewn ymuno â'r Cynulliad.
- Defnyddiwyd y Mynegai Amddifadedd Lluosog i adnabod ardaloedd cod post gyda lefelau uwch o amddifadedd. Dewiswyd mwy o gyfeiriadau o'r ardaloedd hyn yn ôl y gyfran. Roedd hyn yn golygu, mewn gwirionedd, bod 80% o'r cyfeiriadau a ddewiswyd yn rhai o'r Ffeil Cyfeiriad Cod Post llawn (gan gynnwys ardaloedd sy'n cynnwys amddifadedd) a'r 20% sy'n weddill o ardaloedd cod post sydd â sgôr dengradd Mynegai Amddifadedd Lluosog o 1-3 (yr ardaloedd mwyaf difreintiedig). Nod cyflwyno mwy o wahoddiadau yn ôl canran i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd lleihau effeithiau sgiwio ymatebion tuag at gyfranogwyr mwy proffesiynol neu sydd wedi cael mwy o addysg.
- Anfonwyr nifer fechan o wahoddiadau i gartrefi gofal a chanolfannau preswyl hefyd, er mwyn galluogi unrhyw un yn y cyfleusterau hyn i ddewis gwneud cais i gymryd rhan.
- Roedd unrhyw un a oedd n 16 oed neu'n hŷn a oedd yn byw (neu'n aros) mewn cyfeiriad a oedd wedi cael gwahoddiad yn gallu cofrestr ei ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y Cynulliad.
- Rhoddwyd dau opsiwn hawdd i ddarpar gyfranogwyr gofrestru eu diddordeb: ar-lein, neu dros y ffôn. Fel rhan o'r broses gofrestru, casglwyd data demograffig ac agweddol er mwyn sicrhau dosbarthiadau a gwaharddiadau perthnasol (e.e. unigolion sydd â swydd mewn swyddfa etholedig neu sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan blaid wleidyddol).
- O'r gronfa o ymatebwyr a oedd â diddordeb, ymgymerwyd ag ail gam dethol ar hap, haenedig, yn cyfateb i'r data diweddaraf a oedd ar gael ar chwe dimensiwn: oedran, rhywedd, ethnigrwydd, daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol trefol/gwledig, a lefel eu cytundeb â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n rhan o natur".
- Ar ôl cwblhau'r broses o ddethol aelodau'r Cynulliad, anfonwyd gwybodaeth bellach at y grŵp a ddewiswyd, a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gefnogi eu cyfranogiad i Involve.

Gwnaeth cyfanswm o 277 aelod o'r cyhoedd gais i fod yn rhan o'r Cynulliad, gan gadarnhau eu bod ar gael ar gyfer pob dyddiad ac amser gofynnol. Roedd hon yn gyfradd ymateb is ar gyfartaledd nag a gyflawnir yn nodweddiadol gan y dull hwn, sef ychydig o dan 1%.

Roedd y llythyr gwahodd hefyd yn cynnwys cynnig o gydnabyddiaeth ariannol o £800 ar gyfer cyfrannu. Roedd hyn wedi'i gynllunio i ysgogi unigolion nad oedd ganddynt efallai ddiddordeb yn y mater, neu a fyddai wedi bod yn llai tebygol yn draddodiadol o wirfoddoli ar gyfer menter o'r fath, i wneud cais, gan wella amrywiaeth tebygol y safbwyntiau a fydd yn rhan o'r trafodaethau.

Er ein bod yn cydnabod nad yw pob Cynulliad yn cynnig cydnabyddiaeth ariannol i gyfranogwyr, rydym yn ei ystyried i fod yn arfer da. Yn ogystal ag arddangos bod eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad yn cael ei werthfawrogi, mae'r gydnabyddiaeth ariannol yn helpu i sicrhau bod ystod amrywiol o gyfranogwyr (e.e. unigolion ar incwm isel neu anghyson, unigolion di-waith neu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu) yn gallu cydbwyso' 'costau cyfle' cyfranogiad.

## CEFNOGI CYFRANOGWYR I GYMRYD RHAN: EDRYCH YN FANYLACH AR Y BROSES O ENNILL CEFNOGAETH



Er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r Cynulliad yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfodydd, ac yn debygol o wneud hynny hefyd, aeth Involve ati i ymgymryd â phroses 'ennill cefnogaeth'. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyswllt e-bost cychwynnol i gyflwyno'r tîm, er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Cynulliad y wybodaeth ymarferol a phrosesu a oedd ei hangen arnynt i deimlo'n barod a'u bod yn gallu gofyn am unrhyw gymorth ychwanegol y gall fod ei angen arnynt er mwyn gallu cymryd rhan.
- Os nodwyd bod angen cymorth ar aelod o'r Cynulliad, ymgymerwyd ag asesiad ymarferol er mwyn cefnogi'r gwaith o roi trefniadau ar waith, gan gynnwys gofal plant, gofynion gwesty neu ddietegol, cymorth gyda theithio neu ddarparu cyfrifiadur addas neu gysylltiad â'r we er mwyn gallu cymryd rhan yn y sesiynau ar-lein
- Trafodwyd sgiliau digidol hefyd, ac yn ystod y penwythnos cyntaf yn Birmingham, roedd pobl a oedd yn llai hyderus am y cyfarfodydd ar-lein yn cael cyfle i ddod â'u dyfeisiau gyda nhw i roi cynnig ar Zoom a gofyn unrhyw gwestiynau am gael mynediad at y cyfarfodydd ar-lein, a chymryd rhan ynddynt.
- Roedd tîm bach o staff cymorth aelodau'r Cynulliad pwrpasol ar gael yn ystod y cyfarfodydd Cynulliad, a rhwng y cyfarfodydd, i gynorthwyo aelodau'r Cynulliad gyda materion technegol a materion nad oeddynt yn rhai technegol yn ôl y gofyn.
- Roedd hefyd ardal adnoddau a rennir ar-lein ar gael i aelodau'r Cynulliad lle roeddynt yn gallu cyrchu adnoddau a oedd yn ymwneud â'r Cynulliad, gan gynnwys sleidiau a fideos o gyflwyniadau siaradwyr, cronfa ddata o wybodaeth o'r Sgwrs Genedlaethol, awgrymiadau defnyddiol ar gyfer telegynadledda, gwybodaeth ehangach am newid yn yr hinsawdd a chynnig atebion i geisiadau penodol am wybodaeth mewn perthynas â meysydd penodol nad oeddynt ar gael yn ystod sesiynau'r Cynulliad.



# TARGEDAU DEMOGRAFFIG

Mae'r tabl canlynol, 'Proffil Demograffig o Aelodau a Thargedau Poblogaeth Genedlaethol', yn dangos pa mor agos mae aelodau'r Cynulliad yn alinio â chyfraddau'r boblogaeth genedlaethol ar gyfer y meini prawf a sefydlwyd gan y partneriaid cyflwyno.

| | Targed recriwtio (% o'r boblogaeth) | Y nifer sydd ei angen i fodloni targedau (110 Aelod) | Nifer yn dechrau'r Cynulliad (107 Aelod) | Nifer yn cwblhau'r Cynulliad (103 Aelod) |
|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | | | | |
| Benyw | 50.6% | 56 | 55 (51%) | 52 (50.5%) |
| Gwryw | 49.4% | 54 | 52 (49%) | 51 (49.5%) |
| Anneuaidd neu Arall | - | | | |
| **Oed**[8] | | | | |
| 16-19 | 5.4% | 6 | 7 (6.5%) | 7 (6.8%) |
| 20-24 | 7.6% | 9 | 8 (7.5%) | 7 (6.8%) |
| 25-44 | 32.2% | 35 | 35 (32.7%) | 34 (33.0%) |
| 45-64 | 31.8% | 35 | 32 (29.9%) | 31 (30.1%) |
| 65+ | 23% | 25 | 25 (23.4%) | 24 (23.3%) |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 7.2% | 9 | 8 (7.5%) | 8 (7.8%) |
| Du neu Affricanaidd neu Garibïaidd neu Ddu Brydeinig | 3.2% | 5 | 7 (6.5%) | 7 (6.8%) |
| Cymysg neu Grwpiau aml-ethnig | 1.6% | 3 | 3 (2.8%) | 3 (2.9%) |
| Gwyn Prydeinig | 80% | 82 | 77 (72%) | 76 (73.8%) |
| Gwyn arall | 6.4% | 8 | 8 (7.5%) | 6 (5.8%) |
| Grŵp ethnig arall | 1.7% | 3 | 4 (3.7%) | 3 (2.9%) |
| **Daearyddiaeth** | | | | |
| Gogledd ddwyrain | 4% | 5 | 3 (2.8%) | 3 (2.9%) |
| Gogledd orllewin | 11% | 12 | 12 (11.2%) | 12 (11.7%) |
| Swydd Efrog a'r Humber | 8.2% | 9 | 9 (8.4%) | 9 (8.7%) |
| Y dwyrain canolbarth | 7.2% | 8 | 8 (7.5%) | 8 (7.8%) |
| Y gorllewin canolbarth | 8.9% | 10 | 9 (8.4%) | 9 (8.7%) |
| Dwyrain Lloegr | 9.3% | 10 | 10 (9.3%) | 10 (9.7%) |
| Llundain | 13.4% | 12 | 13 (12.1%) | 11 (10.7%) |
| De ddwyrain | 13.7% | 13 | 12 (11.2%) | 12 (11.7%) |
| De orllewin | 8.4% | 9 | 9 (8.4%) | 9 (8.7%) |
| Cymru | 4.7% | 7 | 7 (6.5%) | 6 (5.8%) |
| Yr Alban | 8.2% | 10 | 10 (9.3%) | 9 (8.7%) |
| Gogledd Iwerddon | 2.8% | 5 | 5 (4.7%) | 5 (4.9%) |

[8] Ffynhonnell ar gyfer targedau recriwtio SYG

| | Targed recriwtio (% o'r boblogaeth) | Y nifer sydd ei angen i fodloni targedau (110 Aelod) | Nifer yn dechrau'r Cynulliad (107 Aelod) | Nifer yn cwblhau'r Cynulliad (103 Aelod) |
|---|---|---|---|---|
| **Trefol / Gwledig[9]** | | | | |
| Trefol | 84% | 85 | 83 (77.6%) | 79 (76.7%) |
| Gwledig | 16% | 25 | 24 (22.4%) | 24 (23.3%) |
| **Lefel addysg** | | | | |
| Dim cymhwyster a Lefel 1 | 36.3% | 40 | 29 (27.1%) | 27 (26.2%) |
| Lefel 2 a Lefel 3 | 36.5% | 40 | 35 (32.7%) | 34 (33.0%) |
| Lefel 4 ac uwch | 27.2% | 30 | 43 (40.2%) | 42 (40.8%) |
| **Ymgysylltu gyda Natur: 'Rwy'n teimlo'n rhan o natur'** | | | | |
| Cytuno'n llwyr | 12.3% | 14 | 19 (17.8%) | 18 (17.5%) |
| Cytuno'n gryf | 15.9% | 17 | 24 (22.4%) | 24 (23.3%) |
| Cytuno | 32.3% | 35 | 44 (41.1%) | 42 (40.8%) |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno / Ddim yn gwybod | 28.4% | 32 | 14 (13.1%) | 13 (12.6%) |
| Anghytuno | 11.3% | 12 | 6 (5.6%) | 6 (5.8%) |

[9] Ffynhonnell: Banc y Byd

# DIFFINIADAU A NODIADAU ALLWEDDOL AR GYFER Y DATA POBLOGAETH

**Niferoedd cyffredinol ar gyfer y Cynulliad**

- Caiff canrannau eu defnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn at ddibenion egluro a chymharu yn unig. Mewn grŵp mor fach â hwn, nid yw canrannau'n dal llawer o arwyddocâd ystadegol, ac mae'n werth cofio bod un person yn cyfrif am ychydig yn is na 1%.
- Er bod Cynulliad Natur y Bobl yn cael ei ddisgrifio i gynnwys 100 aelod, cafodd 110 person eu recriwtio'n wreiddiol er mwyn caniatáu ar gyfer unigolion yn tynnu'n ôl yn ystod y broses oherwydd salwch, newid mewn amgylchiadau a/neu bobl yn penderfynu nad oeddynt eisiau cymryd rhan mwyach.
- Mynychodd 107 o'r 110 aelod o recriwtiwyd y cyfarfodydd Cynulliad cyntaf. Roedd rhaid i dri person dynnu'n ôl yn yr wythnos cyn y cyfarfod, ac roedd yn rhy hwyr canfod aelodau i'w disodli. Roeddem yn rhagweld rhywfaint o athreulio yn dros gyfnod o fisoedd wrth weithio gyda'r cyhoedd ac rydym yn ystyried hon i fod yn gyfradd gadw uchel.

**Rhywedd**

Roedd y targedau rhywedd ar gyfer recriwtio'n ddeuol, yn tynnu ar ddata'r cyfrifiad presennol nad oedd yn nodi opsiynau amgen, ond roedd darpar aelodau'n gallu hunan-uniaethu fel anneuaidd yn eu Mynegiant o Ddiddordeb, ac roeddynt yn cael cyfle cyfartal o gael eu dewis, er nad oedd targed wedi'i osod. (Ffynhonnell ar gyfer targedau recriwtio: SYG)

**Ethnigrwydd**

Gwnaethpwyd dewis bwriadol yn y cyfnod recriwtio i or-recriwtio grwpiau ethnig a dangynrychiolir yn draddodiadol yn ystod y broses ddethol gychwynnol (wedi'i weithredu drwy broses o dalgrynnu'r canrannau am i fyny ac ychwanegu 1). Roedd hyn yn golygu bod cyfradd is o aelodau a oedd yn uniaethu fel "Gwyn Prydeinig" yn rhan o'r sampl a recriwtiwyd. (Ffynhonnell ar gyfer targedau recriwtio: Amcangyfrifon SYG)

**Daearyddiaeth**

Gwnaethpwyd dewis bwriadol yn y cyfnod recriwtio i or-recriwtio pobl a oedd yn byw yn y gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn cael eu 'clywed' ledled y Cynulliad yn gyffredinol. O ganlyniad i hynny, roedd canran is o'r gynrychiolaeth o Lundain a de ddwyrain Lloegr, hwb poblogaeth mwyaf y DU. (Ffynhonnell ar gyfer targedau recriwtio: Amcangyfrifon SYG)

**Trefol/Gwledig**

Er mai 16% o boblogaeth y DU yn unig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, penderfynwyd or-recriwtio aelodau o'r ardaloedd hyn er mwyn sicrhau bod llais gwledig i'w glywed drwy gydol y cam ystyried, gan arwain at darged o 23% o aelodau'r Cynulliad yn dod o ardaloedd gwledig.

**Lefel addysg**

Caiff y lefel uchaf o gymhwyster sydd gennych chi ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol. (Ffynhonnell ar gyfer targedau recriwtio: Cyfrifiad 2011 SYG)

- **Lefel 1:** (tystysgrif gadael ysgol yn 16 oed) Gradd O, Gradd Safonol, Clwstwr Mynediad 3, Canolradd 1 neu 2, TGAU, CSE, Uwch Dystysgrif neu gyfwerth; GSVQ Sylfaenol neu Ganolradd, SVQ lefel 1 neu 2, Modiwl SCOTVEC, Crefft City and Guilds neu gyfwerth; Cymwysterau ysgolion eraill nad ydynt eisoes wedi'u crybwyll (gan gynnwys cymwysterau tramor)
- **Lefel 2:** (tystysgrif gadael ysgol yn 18 oed) SCE Gradd Uwch, Uwch, Uwch Datblygedig, CSYS, Safon Uwch, Lefel UG, Tystysgrif Uwch Bellach neu gyfwerth; GSVQ Uwch, SVQ lefel 3, ONC, OND, Diploma Cenedlaethol SCOTVEC, Crefft Uwch City and Guilds neu gyfwerth
- **Lefel 3:** (cymhwyster ôl-ysgol nad yw'n gymhwyster Prifysgol) HNC, HND, SVQ lefel 4 neu gyfwerth; Cymwysterau ôl-ysgol ond cyn Addysg uwch eraill nad ydynt wedi'u crybwyll eisoes (gan gynnwys cymwysterau tramor)
- **Lefel 4 ac uwch:** (Gradd Drydyddol/Prifysgol neu uwch) Gradd, cymwysterau Ôl-raddedig, Meistr, PhD, SVQ lefel 5 neu gyfwerth; Cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifeg); Cymwysterau Addysg Uwch eraill nad ydynt wedi'u crybwyll (gan gynnwys cymwysterau tramor)

**Cwestiwn ymgysylltu**

Ymgysylltu gwyddoniaeth ymarferol gydag 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol 'Rwy'n teimlo'n rhan o natur'?' Gofynnwyd hyn er mwyn helpu i gael cydbwysedd o safbwyntiau a gwybodaeth pobl am natur, fel bod modd cyflwyno ystod o safbwyntiau ar ddechrau'r Cynulliad.

# **Atodiad2:** Proses y Cynulliad

**Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r broses a'r fethodoleg, gyda throsolwg o beth ddigwyddodd bob penwythnos, a'r siaradwyr gwadd a'u pyncia, a disgrifiad cryno o sut aeth aelodau'r Cynulliad ati i lunio eu Galwadau i Weithredu a datganiadau gweledigaeth.**

Cynhaliwyd Cynulliad Natur y Bobl dros bedwar penwythnos rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023.



## PENWYTHNOS UN

**Beth yw natur a pham bod angen ei hamddiffyn?**
11-13 Tachwedd 2022, Birmingham

Yn ystod y penwythnos cyntaf, cyflwynwyd y cyfranogwyr i'r cysyniad o gynulliad dinasyddion: sut mae'n gweithio, beth i'w ddisgwyl gan y pedwar penwythnos a beth fyddai'n digwydd i Gynllun Natur y Bobl o ganlyniad i'w hamser a'u hymrwymiad i'r prosiect.

Cyrhaeddodd aelodau'r Cynulliad ddydd Gwener i groeso, cyflwyniadau a chyfle i archwilio'r Ardal Arddangos, cyn mwynau swper gyda'i gilydd gyda'r nos. Ar ddydd Sadwrn, cafodd aelodau'r Cynulliad drosolwg o beth yw natur a pham ei fod yn bwysig. Gwnaethant ddarganfod yr ysgogiadau y tu ôl i golled bioamrywiaeth a sut mae'r rhain wedi effeithio ar natur yn y DU. Cawsant hefyd eu cyflwyno i'r prif 'actorion' (e.e. y Llywodraeth, y diwydiant, cyrff anllywodraethol) y bydd Cynllun Natur y Bobl yn creu argymhellion iddynt, er mwyn deall pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â cholled natur.

Ar ddydd Sul, dysgodd aelodau'r Cynulliad am sut all meddwl hir dymor helpu i gyflwyno'r cysyniad o stiwardiaeth amgylcheddol i genedlaethau ddod i wrando ar drosolwg o ddatrysiadau presennol i'r argyfwng natur. Yn olaf, trafodwyd tegwch, cydraddoldeb a throsglwyddiad cyfiawn, er mwyn sicrhau bod aelodau'r Cynulliad yn ystyried effeithiau a goblygiadau eu penderfyniadau ar bobl a bywoliaethau dros yr wythnosau nesaf.

**Cyflwyniadau a siaradwyr**

Cyflwyniad i beth yw natur a pham ddylem ei hamddiffyn/ pam ei bod yn bwysig?

Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Nathalie Seddon, Prifysgol Rhydychen (Arweinydd Academaidd)
- Tony Jupiter, Cadeirydd, Lloegr Naturiol
- Dr Radhika Borde, Prifysgol Leeds

Sut wnaethom gyrraedd yma? Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Syr John Lawton, Llywydd Ymddiriedolaeth Natur Sir Efrog ac Is-lywydd RSPB

Pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r newid? Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Ruchir Shah, Ymddiriedolaeth Natur yr Alban

Gosod yr olygfa ar gyfer gweledigaeth: celfyddyd y posibilrwydd. Cyflwyniadau cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Ella Saltmarshe, The Long Time Project
- Yr Athro William Sutherland, Prifysgol Caergrawnt
- Dr Radhika Borde, Prifysgol Leeds

## PENWYTHNOS DAU

**Amddiffyn ac Adfer Natur**
3-4 Rhagfyr 2022, ar-lein

Yn ystod yr ail benwythnos, roedd aelodau'r Cynulliad yn gallu creu darlun o faint hanesyddol a phresennol cynefinoedd a rhywogaethau'r DU, yn ogystal â'u maint posibl yn y dyfodol, a sut mae'r rhain yn cydblethu â gweithgaredd dynol. Gwnaethant ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n ysgogi'r golled natur, pa fframweithiau amddiffyn sydd ar waith, a pha mor effeithiol ydyn nhw.

Ystyriodd aelodau'r Cynulliad effaith y twf mewn trefoli a'r datgysylltiad cysylltiedig oddi wrth natur, a sut allwn ddatrys hyn drwy gynlluniau polisi a chynllunio. Yn ogystal â chlywed am heriau o'r fath, archwiliodd cyfranogwyr "celfyddyd y posibilrwydd" drwy brosiectau adfer ac amddiffyn llwyddiannus, ac ystyried sut gellir datblygu ymdrechion o'r fath mewn ffordd deg a chyfiawn, gydag ystyriaethau pendant o'r cyfnewidiadau wrth law.

Ar ôl pob sesiwn dystiolaeth, aeth aelodau'r Cynulliad ati i drafod mewn grwpiau llai, gyda'r nod o gytuno ar ddau fewnwelediad neu gasgliad ynghylch y materion mwyaf arwyddocaol, yn eu barn nhw, i fynd i'r afael â nhw o fewn pob pwnc.

**Cyflwyniadau a siaradwyr**

Cyflwyniad i Fesurau Diogelu - sut caiff tir ei ddefnyddio ar hyn o bryd, pa mesurau diogelu sydd ar waith, a pham nad ydynt yn gweithio. Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Nathalie Seddon, Prifysgol Rhydychen (Arweinydd Academaidd)
- Richard Benwell, Wildlife and Countryside Link
- Nadia Shaikh, Ymgynghorydd Natur Llawrydd

Pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r newid? Cyflwyniad gan:

- Sara McGuckin, Pennaeth Gwyddorau Naturiol, NI Environment Agency
- Tom Tew, Nature Space
- COAST - Arran
- Sam a Claire Beaumont, Gowbarrow Hall Farm, Ullswater

Archwilio achosion a datrysiadau datgysylltiad oddi wrth natur. Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Miles Richardson, Prifysgol Derby
- Maxwell Ayamba, Sheffield Environment Movement
- Gillian Dick, Cyngor Dinas Glasgow
- Nigel Symes, RSPB, Barratt Homes Kingsbrook
- Kat Deeney, Cyngor Dinas Plymouth

Enghreifftiau o sut i adfer natur. Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Rosemay Hails, Cyfarwyddwr Natur a Gwyddoniaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Philip Price, Seawilding (Yr Alban)
- James Rainey, Uwch Ecolegydd, Trees for Life
- Tim Ferrero, Wilder Solent, Ymddiriedolaeth Natur Hampshire ac Ynys Wyth

## PENWYTHNOS TRI

**Cynnal Pobl a Natur**
14-15 Ionawr 2023, ar-lein

Wrth adeiladu ar yr wythnos flaenorol, roedd y trafodaethau hyn yn archwilio sut rydym yn defnyddio'r tir, dŵr croyw a'r môr i fodloni ein hanghenion sylfaenol, gyda ffocws arbennig ar gynhyrchu bwyd. Roedd aelodau'r Cynulliad yn ystyried sut mae ein deiet yn effeithio ar natur, yn y DU a thu hwnt, ac yna archwilio'r cyfnewidiadau rhwng manteisio i'r eithaf ar gynhyrchu bwyd, amddiffyn ac adfer natur, sicrhau bwyd fforddiadwy a chynnal bywoliaethau. Cawsant glywed am y gwaith sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddatblygu camau a all ysgogi gwelliannau ar raddfa llawer mwy.

Cafodd aelodau'r Cynulliad hefyd glywed am bwysau arall rydym yn ei osod ar natur: yn benodol, ein hangen am ddŵr, yr effaith mae hyn yn ei gael ar yr amgylchedd a sut allwn ni amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw yn well.

Er mwyn cloi'r sesiwn, ac i osod y cyd-destun ar gyfer trafodaethau'r penwythnos olaf, canolbwyntiodd y Cynulliad ar yr economeg sy'n sail i'r holl faterion hyn. Dysgodd aelodau'r Cynulliad sut rydym yn gwneud penderfyniadau ariannol ar hyn o bryd, a'r effaith mae hyn yn ei gael ar natur, ynghyd â modelau amgen a allai gofnodi'n well yr hyn mae natur yn ei gynnig, a sut y gellid talu am argymhellion a gweithredoedd posibl mewn egwyddor.

Fel y penwythnos blaenorol, trafododd aelodau'r Cynulliad mewn grwpiau llai ar ôl pob sesiwn dystiolaeth er mwyn pennu eu prif fewnwelediadau a chasgliadau. Ymgasglwyd tua 200 o gasgliadau o'r fath o'r sesiynau trafod yn 28 thema, a gafodd eu defnyddio fel sail i greu Galwadau i Weithredu yn ystod y penwythnos olaf.

**Cyflwyniadau a siaradwyr**

- Yr Athro Pete Smith, Prifysgol Aberdeen (Arweinydd Academaidd)
- Sue Pritchard, Prif Weithredwr, y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- Aled Jones, Llywydd NFU Cymru
- Martin Lines, Ffermydd Tir  r Swydd Caergrawnt a Chadeirydd Rhwydwaith Ffermwyr Er Lles Natury DU
- Helen O'Keefe, Crofftiwr Ifanc y Flwyddyn

Trosolwg o'r prif heriau 'natur' a wynebwyd mewn pysgodfeydd a dyframaeth: man cystadlu (cyfeirio at amgylchedd morol gorlawn), gorddefnyddio stociau targed ac effeithiau ar rywogaethau/cynefinoedd. Tynnu sylw at y drefn reoleiddio a chymhorthdal gyfredol.

- Yr Athro Paul Kemp, Prifysgol Southampton

Pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r newid? Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Hannah Fennell, Cymdeithas Pysgodfeydd Orkney
- Helen McLachlan, RSPB yr Alban
- Rhianna Rees (Cymdeithas Gwyddorau Morol yr Alban -Academi Gwymon)

Cyflwyniad i heriau strwythurol ehangach sy'n effeithio ar fwyd a'i gynhyrchiant. Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Pete Smith, University of Aberdeen (Arweinydd Academaidd)

Materion ehangach mewn perthynas â chynhyrchu a dosbarthu bwyd Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:


- Mark Lea, Green Acres Farm
- Anna Turrell, Sustainability Director, Tesco
- Hannah Norman, Food Sense Wales (delivery partner for SFP Wales)

Dŵr: o safbwynt angen, safbwynt rheoli dŵr a safbwynt o'r gwaelod i fyny. Cyflwyniad cyn cynnal trafodaethau Cynulliad gan:

- Yr Athro Steve Ormerod, Ysgol Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd
- Yvette de Garis, Pennaeth Ymgysylltiad Amgylcheddol, Thames Water
- Mark Lloyd, Prif Swyddog Gweithredol, yr Ymddiriedolaeth Afonydd

Economeg Bioamrywiaeth - sut caiff natur ei ofalu amdano (neu ddim) o fewn y model economaidd presennol, canlyniad hynny ac argymhellion allweddol yr adolygiad Dasgupta a throsolwg o bwy sy'n talu a sut:

- Dr. Matthew Agarwala, Economegydd, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Bennett, Prifysgol Caergrawnt
- Yr Athro Ian Bateman, Athro Economeg Amgylcheddol, Prifysgol Caerwysg



## PENWYTHNOS PEDWAR

**Gweledigaeth Aelodau'r Cynulliad a'r Galwadau i Weithredu terfynol**
3-5 Chwefror, Birmingham

Roedd y penwythnos terfynol yn canolbwyntio ar drafod, heb fragor o wybodaeth gan yr arbenigwyr. Ar ôl cyrraedd y lleoliad ar y nos Wener, cafodd aelodau'r Cynulliad groeso cynnes, cyn cymryd cipolwg cychwynnol ar dasgau'r penwythnos, ac adolygu detholiad o enghreifftiau ysbrydoledig o'r Sgwrs Genedlaethol. Wrth i'r penwythnos fynd rhagddo, roedd aelodau'r Cynulliad yn cael eu hatgoffa o'r casgliadau y gwnaethant eu llunio yn ystod Penwythnosau 2 a 3, a oedd wedi'u rhannu mewn clystyrau o 28 maes eang ar gyfer gweithredu.

**Gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer dyfodol y DU**

Er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer y Galwadau i Weithredu penodol, aeth aelodau'r Cynulliad ati i gydweithio i osod gweledigaeth ar gyfer sut beth all bywyd yn y DU fod pe bai natur yn cael ei amddiffyn, adnewyddu ac adfer yn effeithiol. Dechreuodd y broses hon ym Mhenwythnos 1, lle sefydlwyd dyheadau am yr hyn y gallai Cynllun Natur y Bobl ei gyflawni, a daeth i ben ym Mhenwythnos 4 wrth i'r Cynulliad lunio datganiadau gweledigaeth.

Cafodd aelodau daith delweddu o ddyfodol y DU, lle mae Cynllun y Bobl wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, er mwyn ymgorffori eu hunain mewn ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar y dyfodol datrys eu dyheadau unigol ar gyfer natur a pherthynas pobl gyda natur. Aethant wedyn ati i ymgymryd â phroses ddrafftio ar y cyd er mwyn sefydlu tir cyffredin.

Wrth ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol natur-gadarnhaol yn y DU, canolbwyntiodd aelodau'r Cynulliad ar saith thema allweddol a nodwyd o drafodaethau cynharach:

1. Addysg ac ymwybyddiaeth am natur
2. Mynediad at natur
3. Tyfu bwyd gyda natur
4. Byw mewn cytgord â natur
5. Natur fel llesiant ac iechyd
6. Bioamrywiaeth rhywogaethau / bywyd gwyllt sy'n ffynnu
7. Blaenoriaethu natur mewn penderfyniadau

**Llunio Galwadau i Weithredu**

Cafodd aelodau'r Cynulliad eu gwahodd i ddewis pa bwnc oedd yn well ganddynt ei drafod a'i drawsnewid yn Alwad i Weithredu manwl. Cafodd y gwaith hwn ei wneud mewn dau gam, gyda 14 mater yn cael sylw ym mhob rownd.

Roedd gan bob grŵp fynediad at fanylion trafodaethau blaenorol, ystod o arbenigedd yn yr ystafell a hwylusydd bwrdd a oedd yn helpu i gynnal y drafodaeth. Ar ôl creu cynigion drafft, aeth aelodau'r Cynulliad o gwmpas yr ystafell i glywed am gynigion gan fyrddau eraill, gan ychwanegu mewnwelediad ac awgrymiadau ar hyd y ffordd. Dychwelodd pob grŵp i'w bwrdd er mwyn integreiddio'r mewnwelediadau newydd a mireinio eu Galwad i Weithredu terfynol erbyn y noson honno. Roedd aelodau'r Cynulliad wedyn yn darllen yr Alwad i Weithredu terfynol yn uchel.

# **Atodiad 3:** Y Grŵp Cynghori

**Cafodd yr arweinwyr academaidd ar gyfer natur, yr hinsawdd a systemau bwyd eu dewis fel ymchwilwyr arbenigol, hynod gymwys, uchel eu parch ac annibynnol sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn o bob maes pwnc, ynghyd â'r gallu i wneud gwyddoniaeth yn hygyrch i'r cyhoedd.**

Dewiswyd aelodau eraill y Grŵp Cynghori yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad o bynciau perthnasol i Gynulliad Natur y Bobl, yn cynnwys y diwydiant bwyd, ffermio, cadwraeth natur, iechyd, cyfranogiad, amrywiaeth a thegwch, ymgysylltu cymunedol a llywodraethau cenedlaethol ar draws y pedair cenedl.

**Roedd 18 aelod yn y Grŵp Cynghori. Rôl Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl oedd:**

- Darparu cyngor a chraffu i lywio'r dystiolaeth a gyflwynwyd i Gynulliad Natur y Bobl, er mwyn helpu i greu proses gadarn ac atebol i'r cynulliad dinasyddion;
- Adolygu'r adnoddau a'r deunyddiau a gyflwynwyd i Gynulliad Natur y Bobl a darparu cymorth i sicrhau bod hon yn broses ledled y DU go iawn gyda phersbectif o'r pedair cenedl;
- Helpu i leoli gwaith Cynulliad Natur y Bobl yng nghyd-destun dadleuon ehangach, datblygiadau a naratifau ynghylch agweddau'r cyhoedd tuag at yr her driphlyg o fwyd a diwygio ffermio, y llwybr tuag at sero net a childroi colled bioamrywiaeth;
- Cysylltu rhaglen ehangach Cynllun Natur y Bobl â'r mentrau perthnasol sydd wedi bod, sy'n dal i fynd rhagddynt, ac sydd i ddod yn y dyfodol, megis galluogi rhannu dysg a datblygu rhwydweithiau i gefnogi effaith y rhaglen;
- Cynghori a chefnogi'r tîm darparu i sicrhau bod y broses yn hygyrch a theg i bawb sy'n mynychu;
- Hyrwyddo Cynulliad Natur y Bobl a'i allbynnau.

# ARWEINWYR ACADEMAIDD



### Yr Athro Nathalie Seddon

ARWEINWYR ACADEMAIDD:

Natur a Hinsawdd

Athro Bioamrywiaeth, Prifysgol Rhydychen

Mae Nathalie Seddon yn Athro Bioamrywiaeth ac yn Gyfarwyddwr Sefydlu'r Fenter 'Datrysiadau yn seiliedig ar Natur' yn yr Adran Fioleg, Prifysgol Rhydychen. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr y Fenter 'Agile' ac yn gyd-arweinydd y Leverhulme Centre for Nature Recovery.



### Yr Athro Pete Smith

ARWEINWYR ACADEMAIDD:

Hinsawdd/Pridd/Amaethyddiaeth

Athro Priddoedd a Newid Byd-eang, Prifysgol Aberdeen

Mae Pete Smith yn Athro Priddoedd a Newid Hinsawdd yn Sefydliad Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol ym Mhrifysgol Aberdeen (yr Alban, y DU) ac yn Gyfarwyddwr Gwyddoniaeth yng Nghanolfan Rhagoriaeth Newid Hinsawdd yr Alban (ClimateXChange). Ymhlith ei ddiddordebau mae lliniaru newid hinsawdd, priddoedd, amaethyddiaeth, systemau bwyd, modelu gwasanaethau ecosystem a datrysiadau yn seiliedig ar natur.

# AELODAU'R GRŴP CYNGHORI



### Dr Meriwether Wilson

Cyd-gyfarwyddwr, Ocean Leaders, Prifysgol Caeredin

Mae Dr Meriwether Wilson yn Uwch-ddarlithydd (Athro Cyswllt) mewn Gwyddoniaeth Forol a Pholisi ym Mhrifysgol Caeredin. Mae ei gwaith ymchwil, a'i gweithgareddau addysgu ac arwain yn canolbwyntio ar agweddau gwyddoniaeth, polisi a chymdeithas ecosystemau morol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar fioamrywiaeth, llywodraethiant y môr, economi las ac addasu'r hinsawdd ar gyfer ynysoedd ac yn ymwneud â'r rheini ar raddfa leol a byd-eang, yn ogystal â chymunedau.



### Tom Chigbo

Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad, TPXimpact (FutureGov gynt)

Mae Tom yn drefnwr cymunedol ac ymgyrchwr profiadol sy'n frwd dros botensial bodau dynol i lywio eu cymunedau a'u gwasanaethau cyhoeddus. Ers dros ddegawd, mae wedi gweithio gydag awdurdodau lleol, cyrff y GIG, heddluoedd, grwpiau ffydd, addysg a chymunedol ledled y DU i sicrhau bod pobl gyffredin yn cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chyflawni newid.



### Dr Becca Lovell

Uwch-ddarlithydd, Ysgol Feddygol
Prifysgol Caerwysg

Mae Dr Becca Lovell wedi'i lleoli yn yr European Centre for Environment and Human Health, Collaborating Centre on Natural Environments and Health, Sefydliad Iechyd y Byd, yn Ysgol Feddygol Prifysgol Caerwysg. Mae Becca yn canolbwyntio ar werthuso, cyfosod a throsi tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng iechyd ac iechyd er polisi ac ymarfer.



### John Watkins

Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONBs)

Ymunodd John â'r Gymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fel eu Prif Swyddog fis Gorffennaf 2021 ac yntau wedi bod yn Bennaeth Polisi ar gyfer Economi'r Dyfodol yn Llywodraeth Cymru. Yma, arweiniodd ar gynhyrchu Cenhadaeth i Ail-adeiladu'r Economi ar gyfer Cymru, sef y cynllun i adfer y niwed a wnaethpwyd i'r economi yn sgil pandemig y coronafeirws.



### Nadeem Perera

Cyd-sylfaenydd, Flock Together

Mae Nadeem Perera yn gyd-sylfaenydd Flock Together, yn gyflwynydd rhaglenni bywyd gwyllt ar y teledu ac yn ymchwilydd. Ymdrecha Nadeem i eirioli amrywiaeth o bersbectifau mewn sgyrsiau yn ymwneud â bywyd gwyllt ac ymgyrchoedd cymdeithasol/ynghylch yr hinsawdd yn ei waith sy'n cynnwys ysbrydoli cenedlaethau yfory.



### Nick Halfhide

Cyfarwyddwr Natur a Newid Hinsawdd, Nature Scot.

Mae Nick yn arwain gwaith NatureScot i droi'r llanw ar y gostyngiad presennol mewn natur a gweithio gyda natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'n gweithio tuag at amddiffyn 30% o dir a môr yr Alban erbyn 2030, adfer cynefinoedd a rhywogaethau ledled yr Alban a chynyddu gwerthfawrogiad y gymdeithas o natur a'r buddion mae'n eu cynnig.



### Thomasina Miers

Cyd-sylfaenydd, Wahaca

Yn gogyddes, awdur ac enillydd MasterChef, cyd-sylfaenodd Tommi fwytai Wahaca, sydd wedi ennill sawl gwobr am eu bwyd a'u nodweddion cynaliadwyedd. Mae Tommi yn frwd dros fwyd, pridd a'r amgylchedd. Mae'n Ymddiriedolwr Chefs in Schools, elusen sy'n trawsnewid sut mae plant yn bwyta ac yn teimlo am fwyd.



### Buzz Saltmarsh

FLAME - Landworkers Alliance cangen ieuenctid - mudiad ieuenctid sy'n hyrwyddo cyfiawnder bwyd, ffermio cynaliadwy a gweithredu ar yr hinsawdd yn ogystal â chyfleoedd i bobl ifanc ar y tir. Mae hi yn eiriolwr dros leisiau ieuenctid fel rhan hanfodol o'r sgyrsiau am ffermio, natur a'r hinsawdd.



### Hedd Pugh

**Cadeirydd y Bwrdd Materion Gwledig, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru**

Mae Hedd yn ffermio 800 hectar gyda'i ddau fab. Mae hyn yn cynnwys oddeutu 610 hectar o dir mynyddig ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gan gynnwys Aran Fawddwy sydd dros 2,900 troedfedd. Mae gan Hedd 1,600 o ddefaid. Defaid Mynydd Cymreig yw'r rhan fwyaf ohonynt, ac mae ganddo 40 o fuchod sugno hefyd. Mae wedi bod yn cymryd rhan mewn cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol ers dros 25 mlynedd.



### Dr Miranda Geelhoed

**Scottish Crofting Federation, ac ymchwilydd PhD, Ysgol y Gyfraith Strathclyde**

Ffocws ei hymchwil PhD yw'r cysylltiadau rhwng cyfreithiau amgylcheddol rhyngwladol, yr UE a chenedlaethol, yn enwedig ym maes amaethyddiaeth, bwyd, tir a bioamrywiaeth. Gan ddatblygu ymchwil sydd eisoes wedi'i wneud a'i phrofiadau ymarferol o'i bywyd bob dydd ar fferm âr ar arfordir dwyrain yr Alban, ymchwilia Miranda sut allai 'canolbwyntio ar yr ecosystem' yn achos deddfwriaeth yr UE helpu i gefnogi newidiadau amaethyddol-ecolegol.



### Aekus Kamboj (Hi/Hithau)

**Swyddog Amgylcheddol, Ethnic-Minority Environmental Network (EMEN)**

Swyddog Amgylcheddol yn CEMVO yr Alban (sefydliad gwrth-hiliaeth cyfryngu cenedlaethol) yw Aekus, lle mae'n hwyluso'r Ethnic-Minority Environmental Network (EMEN). Mae'n darparu cymorth datblygu capasiti i aelodau'r rhwydwaith sy'n ymgymryd â gweithredoedd dros yr hinsawdd, yn cefnogi Llywodraeth yr Alban yn ei hymdrech i wneud y sector gwyrdd yn lle cynhwysol ar gyfer unigolion lleiafrifol ethnig.



### Ali Morse

**Rheolwr Polisi Dŵr, The Wildlife Trusts**

Mae Ali wedi gweithio yn y sector cadwraeth drwy gydol ei gyrfa, gan ganolbwyntio ar ddŵr ffres. A hithau'n Rheolwr Polisi Dŵr yn The Wildlife Trusts, mae'n ar lefel genedlaethol ar bob agwedd ar bolisi dŵr, o lygredd i lifogydd i gadwraeth rhywogaethau (gyda pheth gefnogaeth gan Ruchir Shah, Scottish Wildlife Trusts).



### Sarah Hendry

**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Country Land and Business Association (CLA)**

Mae Sarah Hendry yn gyfrifol am gyfeiriad strategol, trefnu a pharhad di-dor y CLA. Cyn ymuno â'r CLA yn 2018, bu'n swyddog yn llywodraeth y DU yn gweithio ar draws polisïau cenedlaethol, yr UE a rhyngwladol am bron i 30 mlynedd.



### Russell De'ath

**Uwch Ymgynghorydd Arbenigol — Natur a Ni, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Yn wreiddiol yn fyfyriwr graddedig Cynllunio Dinas gyda'i thesis yn canolbwyntio ar gyfranogiad y cyhoedd, mae Russell wedi gweithio yn y sector amgylchedd ers 20 mlynedd. Yn ddiweddar, bu'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.



**Anurag Deb**

**Ymchwilydd PhD, Prifysgol Queen's, Belfast**


Mae Anurag yn gynorthwyydd cyfreithiol a myfyriwr PhD sy'n ymchwilio i gyfraith gyfansoddiadol ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2022, gweithiodd ar ddrafftio Deddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022. Trodd menter uchelgeisiol y gymdeithas ddinesig yn un o'n cyfreithiau mwyaf eang i'w pasio gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.



**Tony Juniper**

**Cadeirydd, Natural England**

Mae Tony Juniper CBE yn ymgyrchwr, ysgrifennwr, cynghorydd cynaliadwyedd ac yn amgylcheddwr adnabyddus o Brydain. Ers dros 35 o flynyddoedd mae wedi gweithio am newid tuag at gymdeithas fwy cynaliadwy ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.



# **Atodiad 4:** Egwyddorion trafod

**Yn yr adran hon, ceir rhagor o fanylion am rai o'r egwyddorion trafod sy'n sail i ddyluniad cynulliad dinasyddion.**

- **Strwythur a hyblygrwydd.** Bod yn eglur â'r cyfranogwyr o'r dechrau'n deg am ffiniau'r broses, y penderfyniadau sydd i'w gwneud, a'r mecanweithiau y mae modd eu defnyddio i lywio ei hynt. Cyfleoedd rheolaidd i gyfranogwyr roi adborth (yn ffurfiol a thrwy'r tîm cefnogi cyfranogwyr pwrpasol) ynghylch yr hyn sy'n gweithio, neu nad yw'n gweithio, iddyn nhw drwy gydol y broses; yna addasu'r cynlluniau ar lawr gwlad, o fewn cyfeiriad clir ar gyfer y prosiect.
- **Cam dysgu pwrpasol.** Nodwedd ganolog dull cydgynghorol o weithio yw'r agwedd o ddysgu. Gall cyfranogwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r mater yn seiliedig ar wybodaeth ddi-duedd a/neu ddadleuon o wahanol bersbectifau wedi'u cyflwyno'n glir. Drwy gydol y cam hwn, gellir cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys cyflwyniadau byr gan arbenigwyr ac eiriolwyr, gwybodaeth ysgrifenedig, astudiaethau achos ac enghreifftiau, a thrwy drafodaethau wedi'u hwyluso.
- **Trafodaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu deialog.** Er mwyn galluogi hyn, mae cyfranogwyr mewn proses fwriadol yn dueddol o dreulio'r rhan fwyaf o'r amser mewn grwpiau bach, wedi'u cefnogi gan hwyluswyr medrus i ymgysylltu â thrafodaeth ynghylch y pwnc. Mae hyn yn caniatau amser i bobl ddatblygu a rhoi opsiynau dan brawf ar faterion sy'n newydd iddyn nhw (ac nad oes ganddynt farn amdanynt eisoes) ac archwilio'r farn sydd ganddynt eisoes yng ngoleuni'r hyn maent wedi'i glywed, gan annog dealltwriaeth ehangach o farn eraill.

  Mae deialog yn ffurf ddisgyrsiol benodol sy'n gofyn i gyfranogwyr ddod yn rhan o broses gydweithredol o ymchwil cyffredin, cyfnewid, gwrando a myfyrio ac mae angen hwyluso medrus i gefnogi aelodau'r cynulliad i symud y tu hwnt i farn arwynebol. Pryd bynnag sy'n bosibl, dylai arbenigwyr pwnc fod ar gael er mwyn i aelodau'r cynulliad allu galw arnynt i ateb cwestiynau a darparu esboniadau, ond mae'n bwysig bod yr aelodau yn symud y sgwrs yn ei blaen fel proses o 'ystyrlon' ar y cyd.
- **Y cam trafod.** Mae'r cam hwn o'r broses ymgysylltu ymgynghorol yn golygu cyfranogwyr yn dod i ryw fath o gasgliadau yn seiliedig ar yr hyn maent wedi'i ddysgu drwy broses o resymu gyda'r cyhoedd, sy'n cynnwys cyfranogwyr yn pwyso a mesur opsiynau ac yn gwneud dewisiadau ar y cyd. Er mai prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar gonsensws sy'n ddelfrydol, ar y cam hwn yn aml bydd systemau pleidleisio yn cael eu defnyddio, fel y digwyddodd yng Nghynulliad Natur y Bobl, sicrhau y cyflawnir allbynnau ym mhob cam.

**O ran y ffordd y caiff yr egwyddorion hyn eu rhoi ar waith, mae ystyriaethau pwysig eraill y bydd y tîm dylunio a hwyluso wastad yn ystyriol ohonynt.**

- **Gweithio ar gyfer dulliau dysgu a chyfathrebu gwahanol.** Dylai cynulliad dinesig gynnwys ystod o wahanol ymarferion a dulliau gweithredu drwy gydol y cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys cymysgu'r grwpiau a'r hwylusydd y mae'r cyfranogwyr yn gweithio gydag ef, newid bob yn ail rhwng gweithio fel unigolion, mewn grwpiau bach ac fel cyfanwaith; a defnyddio dulliau gweithredu ac adnoddau gwahanol i ganiatáu pobl i gyfrannu eu safbwyntiau mewn ffyrdd gwahanol - ar lafar, yn ysgrifenedig, ac wrth fyfyrio, a hynny heb gyfyngiadau o ran amser. Er mwyn galluogi pobl i archwilio eu profiadau eu hunain, yn ogystal â theimladau a meddyliau arwynebol, gellir defnyddio technegau hwyluso fel adrodd straeon a sesiynau gweledigaeth.



# **Atodiad 5:** Galwadau i Weithredu mewn tablau cryno

## SAFBWYNTIAU AELODAU'R CYNULLIAD AR BA ALWADAU I WEITHREDU SYDD FWYAF BRYS AC SY'N CAEL YR EFFAITH FWYAF

**Rhoddwyd 10 'pleidlais' i aelodau i bleidleisio dros ba rai o'r 26 Galwad i Weithredu sydd fwyaf brys ac sydd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf, yn eu tyb nhw. Mae Tabl 1 isod yn rhestru'r Galwadau i Weithredu yn ôl y rhai a gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau.**

| | Rydym yn galw am... |
|---|---|
| Tabl 1 | (Nifer aelodau'r Cynulliad a bleidleisiodd dros yr Alwad hon i Weithredu yn eu 10 pleidlais uchaf) |
| 1 | Cynnwys ffordd i asesu'r effeithiau ar natur ym mhob penderfyniad masnachol a pholisi **(54)** |
| 2 | Ailwampio systemau cymorthdaliadau ffermio i flaenoriaethu ffermio cynaliadwy a chyfeillgar i natur **(53)** |
| 3 | Mwy o atebolrwydd gan y llywodraeth drwy Gynulliad Natur parhaol sy'n cynnwys cyrff anllywodraethol, diwydiant ac arbenigedd cyhoeddus **(51)** |
| 4 | Sgwrs genedlaethol am pam y dylem newid ein deiet i gefnogi natur, a sut i wneud hynny **(46)** |
| 5 | Gwybodaeth am gyflwr natur yn y DU i fod ar gael yn haws ac yn cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd **(45)** |
| 6 | Arweinyddiaeth i asesu'r cyfaddawdu rhwng buddiannau cymdeithasol ac economaidd a diogelu natur, fel y gellir lliniaru effeithiau negyddol y newid i warchod natur **(42)** |
| 7 | Tryloywder am y ffynonellau bwyd rydym yn eu prynu, a'u heffaith ar natur **(41)** |
| =8 | Sefydlu fframwaith rheoli dŵr ledled y DU sy'n amddiffyn ac yn adfer iechyd ein dyfrffyrdd **(39)** |
| =8 | Cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a masnach i atal eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol **(39)** |
| 10 | Amddiffyniadau rheoleiddio a gorfodi cryfach **(38)** |
| 11 | Sail dystiolaeth eglur a hygyrch wedi'i dilysu i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar natur **(37)** |

| Rydym yn galw am... | |
|---|---|
| **Tabl 1** | **(Nifer aelodau'r Cynulliad a bleidleisiodd dros yr Alwad hon i Weithredu yn eu 10 pleidlais uchaf)** |
| **12** | Mannau gwyrdd wedi'u rheoli'n lleol sy'n cefnogi natur i ffynnu **(36)** |
| **=13** | Rhoi o leiaf 12% o'r holl le mewn isadeileddau sydd newydd eu hadeiladu ac ôl-osodiadau i gefnogi bioamrywiaeth a chysylltu pobl â natur ar gyfer eu hiechyd a'u lles **(32)** |
| **=13** | Masnachwyr bwyd i roi'r gorau i yrru gwastraff bwyd **(32)** |
| **=15** | Cymorthdaliadau ffermio sy'n seiliedig ar warchod natur **(31)** |
| **=15** | Cydweithredu ar draws ardaloedd dalgylch afon i sicrhau gwelliannau sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur **(31)** |
| **=17** | Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymgyrchu sy'n gweithio dros natur **(29)** |
| **=17** | Ysbrydoli mwy o ffermwyr i gymryd dull cyfeillgar i natur tuag at eu busnes **(29)** |
| **=19** | Mwy o ffocws ar adnewyddiad wrth siarad â'r cyhoedd am ddyfodol natur **(28)** |
| **=19** | Mwy o fynediad at fwyd cynaliadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol **(28)** |
| **21** | Busnesau ddim i fod dan anfantais trwy weithredu i gefnogi adferiad natur **(27)** |
| **=22** | Buddsoddiad ar frys mewn seilwaith dŵr gwastraff y DU i roi terfyn ar garthffosiaeth yn mynd i mewn i'n hamgylchedd naturiol **(25)** |
| **=22** | Sicrhau stociau pysgod cynaliadwy trwy leihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota, rheoleiddio dosbarthiad a monitro o bell er mwyn gorfodi safonau **(25)** |
| **=24** | Sefydlu Parciau Cenedlaethol Morol **(22)** |
| **=24** | Newid sylfaenol i arferion ac agweddau ynghylch defnydd o ddŵr domestig **(22)** |
| **26** | Adnabod mynediad at natur fel hawl dynol **(19)** |

# LLEDAENIAD Y GALWADAU I WEITHREDU AR DRAWS MEYSYDD PWNC

**Mae Tabl 2 isod yn mapio'r Galwadau i Weithredu ar draws y meysydd pynciau gwahanol, gan gynnwys y prif weithredwr/ gweithredwyr sydd wedi'u neilltuo i bob un.**

| Galwad i Weithredu<br>(Nifer yr aelodau a bleidleisiodd dros yr Alwad hon i Weithredu yn eu 10 pleidlais uchaf) | Prif Weithred wedi'i neilltuo i |
|---|---|
| **Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth** | |
| • Cynnwys ffordd i asesu'r effeithiau ar natur ym mhob penderfyniad masnachol a pholisi (54) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ymgyrchu sy'n gweithio dros natur (29) | Elusen a Digwyddiadau |
| **Rheoleiddio a Gweithredu** | |
| • Mwy o atebolrwydd gan y llywodraeth drwy Gynulliad Natur parhaol sy'n cynnwys cyrff anllywodraethol, diwydiant ac arbenigedd cyhoeddus (51) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Arweinyddiaeth i asesu'r cyfaddawdu rhwng buddiannau cymdeithasol ac economaidd a diogelu natur, fel y gellir lliniaru effeithiau negyddol y newid i warchod natur (42) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Amddiffyniadau rheoleiddio a gorfodi cryfach (38) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Busnesau ddim i fod dan anfantais trwy weithredu i gefnogi adferiad natur (27) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| **Ffermio sy'n gyfeillgar i natur** | |
| • Ailwampio systemau cymorthdaliadau ffermio i flaenoriaethu ffermio cynaliadwy a chyfeillgar i natur (53) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Cymorthdaliadau ffermio sy'n seiliedig ar warchod natur (31) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Ysbrydoli mwy o ffermwyr i gymryd dull cyfeillgar i natur tuag at eu busnes (29) | Busnesau Bwyd |
| **Cynhyrchu a Defnyddio Bwyd** | |
| • Sgwrs genedlaethol am pam y dylem newid ein deiet i gefnogi natur, a sut i wneud hynny (46) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Tryloywder am y ffynonellau bwyd rydym yn eu prynu, a'u heffaith ar natur (41) | Busnesau Bwyd |
| • Cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd a masnach i atal eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol (39) | Busnesau Bwyd |
| • Masnachwyr bwyd i roi'r gorau i fod yn gyfrifol am wastraff bwyd (32) | Busnesau Bwyd / Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Mwy o fynediad at fwyd cynaliadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol (28) | Busnesau Bwyd |

| **Galwad i Weithredu**<br>**(Nifer yr aelodau a bleidleisiodd dros yr Alwad hon i Weithredu yn eu 10 pleidlais uchaf)** | **Prif Weithred wedi'i neilltuo i** |
|---|---|
| **Amddiffynfeydd Morol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol** | |
| • Sicrhau stociau pysgod cynaliadwy trwy leihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota, rheoleiddio dosbarthiad a monitro o bell er mwyn gorfodi safonau (25) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Sefydlu Parciau Cenedlaethol Morol (22) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| **Rheoli Dyfrffyrdd a Dalgylchoedd** | |
| • Sefydlu fframwaith rheoli dŵr ledled y DU sy'n amddiffyn ac yn adfer iechyd ein dyfrffyrdd (39) | Llywodraeth Leol / Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Cydweithredu ar draws ardaloedd dalgylch afon i sicrhau gwelliannau sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur (31) | Llywodraeth Leol / Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Buddsoddiad ar frys mewn seilwaith dŵr gwastraff y DU i roi terfyn ar garthffosiaeth yn mynd i mewn i'n hamgylchedd naturiol (25) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Newid sylfaenol i arferion ac agweddau ynghylch defnydd o ddŵr domestig (22) | Llywodraeth Leol |
| **Mynediad Lleol at Natur** | |
| • Mannau gwyrdd wedi'u rheoli'n lleol sy'n cefnogi natur i ffynnu (36) | Elusen a Digwyddiadau |
| • Rhoi o leiaf 12% o'r holl le mewn isadeileddau sydd newydd eu hadeiladu ac ôl-osodiadau i gefnogi bioamrywiaeth a chysylltu pobl â natur ar gyfer eu hiechyd a'u lles (32) | Llywodraeth Leol |
| • Adnabod mynediad at natur fel hawl dynol (19) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| **Defnyddio tystiolaeth yn effeithiol** | |
| • Gwybodaeth am gyflwr natur yn y DU i fod ar gael yn haws ac yn cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd (45) | Elusen a Digwyddiadau |
| • Sail dystiolaeth eglur a hygyrch wedi'i dilysu i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar natur (37) | Llywodraethau Cenedlaethol |
| • Mwy o ffocws ar adnewyddiad wrth siarad â'r cyhoedd am ddyfodol natur (28) | Llywodraethau Cenedlaethol |

# **Atodiad 6:** Dadansoddi'r Sgwrs Genedlaethol

**Casglwyd ymatebion i'r Sgwrs Genedlaethol dros gyfnod o bedair wythnos drwy lwyfan ar-lein.**

Yn ystod y tair wythnos gyntaf, cynhyrchwyd hapsampl wythnosol o 400 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn, gyda chydbwysedd priodol gan bob gwlad yn y DU.

Cafodd themâu sy'n dod i'r amlwg eu deillio gan ymchwilwyr drwy ddadansoddiad thematig ansoddol o'r ymatebion a samplwyd, gan fireinio'r themâu hynny ac ailwirio eu hamrediad cymharol bob wythnos wrth i samplau newydd gael eu rhannu.

Yna cafodd y themâu eu troi'n godau, a chafodd yr ymatebion a samplwyd eu codio gan ymchwilwyr yn ôl y themâu sy'n dod i'r amlwg.

Defnyddiwyd dysgu peirianyddol i ddadansoddi'r sampl codedig yn ôl amlder allweddeiriau a newidynnau eraill, er mwyn creu model rhagfynegi ar gyfer codio'r set ddata lawn o 20,000 a mwy o ymatebion.

Roedd y model hwn wedyn yn dadansoddi'r set ddata lawn ac yn rhagweld y themâu ym mhob ymateb ar sail ei allweddeiriau (a ffactorau eraill).

**Roedd hyn yn caniatáu i ni wneud y canlynol:**

- Amcangyfrif amlder gwahanol themâu gyda'r set ddata gyffredinol, gan roi syniad ynglŷn â pha mor aml oedden nhw'n cael eu mynegi.
- Chwilio am unrhyw "themâu a fethwyd", h.y. o ymatebion na allai'r model eu codio (nid oedd unrhyw thema wedi'i methu, oherwydd roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyfateb i o leiaf un o'r codau).
- Cynnal dadansoddiad pellach o'r cynnwys a'r allweddeiriau o fewn y themâu, er mwyn dod â nhw'n fyw a gwella ein hesboniadau ni o'u hystyr.



## DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R SGWRS GENEDLAETHOL

**Mae'r tabl isod yn rhoi cyfanswm Nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn drwy'r wefan a'r sianeli ar-lein ym mis Medi a mis Hydref 2022, yn ogystal â dadansoddiad yn ôl gwlad.**

**Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn drwy'r wefan a'r sianeli ar-lein**

| | Cwestiwn 1 | | Cwestiwn 2 | | Cwestiwn 3 | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % | Rhif | % |
| **Lloegr** | 6,530 | 82% | 5,934 | 83% | 4,724 | 83% | 17,188 | 83% |
| **Gogledd Iwerddon** | 210 | 3% | 185 | 3% | 143 | 3% | 538 | 3% |
| **Yr Alban** | 654 | 8% | 589 | 8% | 469 | 8% | 1,712 | 8% |
| **Cymru** | 510 | 6% | 444 | 6% | 346 | 6% | 1,300 | 6% |
| **Anhysbys** | 25 | <1% | 0 | 0% | 0 | 0% | 25 | <1% |
| **Cyfanswm y DU** | **7,929** | | **7,152** | | **5,682** | | **20,763** | |

# Gwybodaeth am y cyllidwyr a'r partneriaid cyflawni

**Mae Cynllun Natur y Bobl yn fenter ar draws y DU a gefnogir gan y WWF, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r RSPB. Mae'n waith unigryw ar y cyd, sydd wedi'i arwain gan bobl a'r nod yw gwneud byd natur yn rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.**

## CYLLIDWYR

Mae Cynllun Natur y Bobl a Chynulliad Natur y Bobl wedi'u hariannu gan yr Esmée Fairbairn Foundation a'r Samworth Foundation. Mae Cynulliad Natur y Bobl wedi'i warantu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB a WWF.

## PARTNERIAID DYLUNIO A CHYFLAWNI

Mae **New Citizenship Project** yn ymgynghoriaeth strategaeth ac arloesedd wedi'i ysgogi gan y gred y gall pobl lywio'r pethau sy'n bwysig iddynt er gwell, ac y bydd pobl yn gwneud hynny, os gânt y cyfle cywir. Ei nod yw ysgogi newid tuag at gymdeithas fwy cyfranogol wedi'i harwain gan ddinasyddion. Ers 2014, mae'r New Citizenship Project wedi gweithio gyda phob math o sefydliadau i greu strategaethau, diwylliannau a phrosiectau cyfranogol sy'n gwahodd pobl i wneud eu mwyaf o'u grym fel dinasyddion.

Sefydlwyd **89up** gyda chenhadaeth glir: creu asiantaeth gyfathrebu integredig bwerus ar gyfer achosion pwysicaf y byd. Erbyn hyn, nhw yw'r asiantaeth fwyaf blaenllaw yn Ewrop ar gyfer cyfathrebiadau achosion.

Mae **The Involve Foundation** yn elusen cyfranogiad cyhoeddus flaenllaw yn y DU, a'i nod yw arwain y DU i wneud trafodaethau yn rhan arferol, bob dydd o brosesau gwneud penderfyniadau. Mae Involve yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o ddylunio, llywodraethu a chyflawni digwyddiadau cydgynghorol, prosesau ymchwil ac ymgysylltu mae'n eu darparu. Mae hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad o ansawdd i bartneriaid i'w helpu i gyflawni cyfranogiad o ansawdd. Mae hyn yn galluogi cyfranogwyr ymarferion cydgynghorol a democratig i deimlo'n hyderus y gwrandewir arnynt.

Y **Sortition Foundation** yw'r unig sefydliad yn fyd-eang sy'n arbenigo mewn recriwtio a dethol strategol ar gyfer prosesau cydgynghorol. Sefydliad nad yw er elw yw Sortition ac mae'n bodoli er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r fethodoleg hon ac arfer dda.

Diolch yn fawr i'r darlunydd a'r awdur, Graham Roumieu o Toronto, Canada, am ei luniau. Cawsant eu comisiynu fel rhan o Gynllun Natur y Bobl i ddod â rhai o'r prif syniadau a safbwyntiau'n fyw. Rhannwyd y sylwadau hyn gan y cyhoedd yn ystod y Sgwrs Genedlaethol.

## DIOLCH I AELODAU'R CYNULLIAD A PHAWB A GYMERODD RAN



Fel trefnwyr y Cynulliad, hoffem ddiolch a chydnabod pob aelod o'r Cynulliad am eu hymrwymiad, eu hwyl dda, eu chwilfrydedd, eu gwaith caled, eu meddylgarwch a'r gofal y dangosasant i'r naill a'r llall drwy gydol y broses.

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at y Sgwrs Genedlaethol ac a gymerodd o'u hamser i rannu eu safbwyntiau a'u teimladau am natur. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r rheini ohonoch a rannodd enghreifftiau o'r hyn sydd eisoes yn digwydd, ac yr ydych chi'n cymryd rhan ynddynt, ledled y wlad.





**Mae natur mewn argyfwng, ond gyda'n gilydd gallwn ei hachub.**

